

Medi 2024

Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Caerdydd

Adroddiad astudiaethau achos

Chloe Smith, Alice Booth-Rosamond, Rebecca Harrison, Ellie McCoy, Hannah Timpson a Zara Quigg
Liverpool John Moores University, Tithebarn Building, 79 Tithebarn Street, Liverpool, L2 2ER

Manylion cyswllt: E.J.McCoy@ljmu.ac.uk

ISBN: 978-1-83766-526-6

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open\[1\]_government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open[1]_government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Caerdydd

Chloe Smith, Alice Booth-Rosamond, Rebecca Harrison, Ellie McCoy, Hannah Timpson a Zara Quigg

Prifysgol John Moores Lerpwl (JMU), Sefydliad Iechyd y Cyhoedd – Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Atal Trais

Medi 2024

Yr adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 18 o ardaloedd a gafodd gyllid gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais, gan gynyddu i 20 o ardaloedd yn 2022. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019 gyda chymorth ymrwymadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru. Er mwyn llywio datblygiad parhaus Uned Atal Trais Cymru, comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl fel partner gwerthuso. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o ganlyniadau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o'r dull system gyfan a'r dull astudiaeth achos ar gyfer Caerdydd. Cyflwynir yr adroddiad astudiaethau achos manwl hwn ochr yn ochr ag adroddiad systemau cyfan cysylltiedig. Mae'r gyfres o adroddiadau gwerthuso ar gael ar wefan yr Uned Atal Trais: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/> ac mae'n cynnwys:

- Blwyddyn 1 – Datblygu fframwaith gwerthuso ac adroddiad systemau cyfan Uned Atal Trais Cymru.
- Blwyddyn 2 – Gwerthuso rhaglenni gwaith dethol.
- Blwyddyn 3 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau cyfan Abertawe.
- Blwyddyn 4 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau cyfan Caerdydd.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, Uned Atal Trais Cymru.
- Aelodau tîm Uned Atal Trais Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr y rhaglen a gefnogodd y broses o roi'r gwerthusiad ar waith.
- Ceidwaid yr ymchwil a gefnogodd y broses o gasglu data a recriwtio.
- Pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws.
- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am gynghori ar y broses o ddatblygu astudiaethau a chydweithwyr o Sefydliad Iechyd y Cyhoedd am gefnogi'r broses o gynnal yr astudiaeth a llunio'r adroddiad, gan gynnwys Jade Craven a Dave Seddon.

Terminoleg

Y defnydd o'r term 'trais difrifol'

Mae Uned Atal Trais Cymru yn annog partneriaethau i beidio â defnyddio 'difrifol' fel term wrth ddiffinio trais. O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar) atal trais yn yr hirdymor, a gwella deilliannau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Maent hefyd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ehangach ar gyfer yr economi a'r gymdeithas. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais' drwy'r

adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais difrifol' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

Y defnydd o'r term 'trais gan bobl ifanc'

Roedd y plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at Fframwaith Cymru Heb Drais, a gyd-gynhyrchwyd gan Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru, yn glir bod y term 'trais gan bobl ifanc' yn derm hen ffasiwn. Roedd ymdeimlad y gall y term gyfrannu at labelu a stereoteipio plant a phobl ifanc fel grŵp. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais ymhlith plant a phobl ifanc' drwy'r adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais gan bobl ifanc' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

Cynnwys

Trosolwg o'r gwerthusiad	1
Astudiaeth Achos 1: Partneriaeth SAFE	10
Astudiaeth Achos 2: Braver Choices, Caerdydd, MAC	17
Astudiaeth Achos 3: Fearless, Crimestoppers.....	24
Astudiaeth Achos 4: Tîm Atal Trais y GIG.....	32
Astudiaeth Achos 5: Parallel Lives, Caerdydd, MAC	43
Astudiaeth Achos 6: Positive Masculinity, MAC	48
Astudiaeth Achos 7: Cyfiawnder Troseddol – Yn y Ddalfa	52

Cyflwyniad

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais, drwy ddull iechyd y cyhoedd. Lluniwyd yr adroddiad astudiaethau achos hwn ochr yn ochr ag adroddiad systemau cyfan ac mae wedi ddefnyddio Fywio canfyddiadau'r adroddiad systemau cyfan. Yng Nghaerdydd, ardal lle ceir lefelau uchel o drais yng Nghymru, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaeth i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais neu'n wynebu risg o ddod yn rhan ohonynt. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:

Ymyriadau Uned Atal Trais Caerdydd


Sector	Ymyriad/rhaglen/dull	Natur	Oedran
Awdurdod Lleol	Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE)	Dull wedi'i dargedu Ymyrryd yn gynnar	≥18 11-25
Cyfiawnder Troseddol	Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu	Ymyriad trydyddol	10-18
Iechyd	Tîm Atal Trais y GIG	Ymyrryd yn gynnar	Pob oedran
Cymunedol	Fearless, Crimestoppers	Ymyriad sylfaenol cyffredinol	Gweithwyr proffesiynol 11-16
	Braver Choices, Media Academy Cymru	Ymyriad therapiwtig	10-17
	Parallel Lives, Media Academy Cymru	Ymyriad therapiwtig	8-17, rhieni
	Positive Masculinity, Media Academy Cymru	Ymyriad eilaidd wedi'i dargedu	10-17

Dulliau gwerthuso

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull systemau cyfan yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Gaerdydd. Mae'r gwerthusiad yn archwilio sut mae'r ymyriadau a'r dulliau gweithredu ledled Caerdydd yn gweithredu i nodi unigolion sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny, a'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag ymwneud ymhellach ag achosion o drais a throseddu. Ymysg y gweithgareddau gwerthuso roedd:



Adolygiad cyflym o lenyddiaeth i roi cyd-destun i'r ymchwil ac i helpu i ddehongli canfyddiadau ymchwil ac i ddatblygu argymhellion.



Cafodd tystiolaeth allweddol o raglenni, polisiau a dogfennaeth weithredol eu casglu, eu hadolygu a, lle y bo'n bosibl, eu dadansoddi i archwilio datblygiad, gweithrediad, cyflawniad ac effaith ymyriadau'r Uned Atal Trais.



Cafodd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol (n=18) eu cynnwys yn y broses o roi'r ymyriadau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais ar waith a'u darparu ledled



Cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau (n=6) sy'n ymgysylltu â'r ymyriadau a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais ledled Caerdydd i archwilio anghenion unigolion, rhwystrau i gael gafael ar gymorth, profiadau teithiau ac effaith cymorth. Datblygwyd astudiaethau achos ar gyfer ymyriadau (n=7).

Canfyddiadau allweddol

Roedd y gwerthusiad systemau cyfan yn fodd i archwilio'r gweithgareddau atal trais, sut y cawsant eu rhoi ar waith a'u cynnal, a'r gwahaniaeth y mae'r ymyriadau wedi'u gwneud i'r bobl ifanc y cawsant eu dylunio i'w cefnogi. Mae'r holl ymyriadau yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc drwy eu hatal rhag dod yn rhan o achosion o drais neu leihau'r risg i bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu'r rheini sydd eisoes wedi wynebu trais.

Anghenion y gymuned

Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar bobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghaerdydd, yn hanfodol. Tynnodd partneriaid sylw at yr anghenion cymhleth ledled Caerdydd a'r grwpiau penodol yr oedd yr ymyriadau yn eu targedu. Gwnaethant ddisgrifio'r ffactorau risg i bobl ifanc, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, niwroamrywiaeth, ac iechyd meddwl gwael.

“Mae niwroamrywiaeth yn chwarae rhan enfawr wrth gefnogi ymddygiad troseddol, nid dim ond plant a phobl ifanc, ond oedolion hefyd. Mae tua un rhan o dair o oedolion sydd yn y carchar yn niwroamrywiol ac mae hanner ohonynt wedi cael anaf trawmatig i'r ymennydd ar ryw adeg” (Rhanddeiliad)

Roedd gan gyfrannau uchel a chynyddol o bobl ifanc anghenion ychwanegol hefyd, gan gynnwys anableddau niwroddatblygiadol. Roedd llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at rôl hanfodol addysg wrth greu ffactorau amddiffynnol. Roedd bwlch hefyd o ran gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio pwysig i fyd oedolyn ar gyfer pobl ifanc a allai syrthio rhwng bylchau. Roedd pandemig COVID-19 wedi cynyddu cymhlethdod anghenion, wrth i wasanaethau nodi mwy o heriau i bobl ifanc, gan gynnwys ynysu cymdeithasol, iechyd meddwl gwael, a newidiadau mewn ymddygiad. Roedd hefyd mwy o achosion o drais yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a mwy o ferched y dod yn rhan o achosion o drais yn yr ysgol, ac roedd angen cymorth ar grwpiau oedran iau. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd rhag ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi colli ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol, wedi cael profiadau negyddol blaenorol, ac yn teimlo wedi'u llethu o ganlyniad i ymwneud â sawl sefydliad. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i wasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth hygyrch a chofleidiol ar gyfer y teulu cyfan.

“Os nad ydyn nhw yn yr ysgol, mae'r tebygolrwydd y byddan nhw'n mynd i ragor o drafferth yn aruthrol” (Rhanddeiliad)

“Rydyn ni'n cael llawer o'r sgysiau hynny, pan fyddan nhw'n 18 neu'n 21 oed. Dyw pobl ddim yn rhoi'r gorau iddi yn sydyn. Maen nhw'n dod aton ni'n agored i niwed pan fyddan nhw'n troi'n 18 oed” (Rhanddeiliad)

“Wrth edrych ar yr hyn wnaeth Covid a'r cyfyngiadau symud, yr hyn wnaeth y diffyg rhyngweithio cymdeithasol i bobl” (Rhanddeiliad)

Rhwystrau i gyflwyno'r rhaglen

Mae deall y ffactorau cyd-destunol a all ddylanwadu ar y broses o fabwysiadu'r ymyriad, ei gyrhaeddiad a'r gwaith o'i gynnal yn allweddol i ddeall yr hyn sy'n gweithio mewn amgylchiadau penodol. Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a oedd yn effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i staff, a gweithio gydag adnoddau a chapasiti cyfyngedig. Credwyd bod effaith y pandemig wedi cynyddu cymhlethdodau a'r galw am wasanaethau. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Tynnwyd sylw at rhwystrau o ran rhannu gwybodaeth, sicrhau bod data'n cael eu casglu yn effeithiol a bod partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn dangos effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau.

“Mae llawer o bobl ifanc yn agored am y ffaith eu bod wedi cael profiadau eithaf trawmatig gyda'r heddlu ac na fydden nhw byth yn ymddiried yn yr heddlu” (Rhanddeiliad)

“O fewn y bartneriaeth, mae pawb yn eithaf da am gydweithio, ond o ran creu sylfaen dystiolaeth, mae partneriaid yn dueddol o fod yn eithaf amharod i rannu” (Rhanddeiliad)

“Pa ddata sy'n debygol o fod ar goll yn y lle cyntaf? Wedyn pa ddata sy'n cael eu casglu, efallai nad yw pwysleisio ansawdd y data hynny yn gymaint o flaenoriaeth ag y dylai fod” (Rhanddeiliad)

“Yn aml, mae gennych chi gant a mil o bethau gwahanol i'w gwneud. Mae gennych chi fusnes i'w redeg o ddydd i ddydd” (Rhanddeiliad)

“Os byddwch chi'n recriwtio 20 o bobl fory, hyd yn oed ar gontract penodol o flwyddyn, bydd yn cymryd tri mis i chi eu hyfforddi i'r lefel sydd ei hangen. Mae hynny'n anodd iawn. Felly rwy'n credu eu bod yn rhedeg ar ôl eu cynffonnau eu hunain i raddau ar y dechrau. (Rhanddeiliad)

Effaith yr Uned Atal Trais

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos i ba raddau y mae gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd, sef lleihau'r risg o ddod yn rhan o achosion o drais a niwed cysylltiedig trais ymhlith plant a phobl ifanc. Drwy'r Uned Atal Trais, bu modd buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu ymyriadau a llwybrau cymorth i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg a'u cyfeirio at gymorth priodol ar draws y system.

Cafodd yr ymyriadau eu dylunio, eu datblygu a'u darparu gan dimau o staff profiadol, a ddefnyddiodd dull sy'n ystyriol o drawma i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd darparu gofod diogel heb farnu yn allweddol i chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu â phobl ifanc. Rhoddodd yr holl ddarparwyr ymyriadau enghreifftiau o'r ffordd y cafodd dulliau cyfathrebu, sesiynau ac adnoddau eu haddasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Ystyriwyd bod hyblygrwydd a meithrin cydberthnasau cryf yn allweddol i ymgysylltu'n llwyddiannus, a nododd y darparwyr fod niferoedd da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau atal trais. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn cydnabod y

gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â meithrin cydberthnasau a sicrhau gofal cyson, cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu yn y lle cyntaf, a chynnal yr ymgysylltu hwnnw, sy'n aml yn anodd ei ddogfennu. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol i hyn, yn ogystal â sicrhau eu bod yn gallu edrych y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynnol i ennyn ymddiriedaeth pobl ifanc ac eirioli drostynt.

Mae ymyriadau yn darparu enghreifftiau o sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif drwy achub ar gyfleoedd yn ystod argyfwng, er enghraifft yn ystod ymweliad ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu pan fydd unigolyn yn cael ei arestio gan yr heddlu, i ymyrryd a defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma i edrych y tu hwnt i'r broblem neu ymddygiad cychwynnol i ddeall achosion sylfaenol. Mae cysylltu'r ymyriadau statudol hyn â chymorth cymunedol yn cynnig llwybr i nodi anghenion a throsglwyddo person ifanc i lwybr addas o ofal tymor hwy. Mae'r gwaith parhaus hwn yn rhoi cysondeb i bobl ifanc gynnal cydberthnasau a chynnal canlyniadau yn y tymor hwy.

*“Rydyn ni'n ceisio pwysleisio mai plant ydyn nhw yn gyntaf. Rwy'n credu bod hynny ychydig yn ... gyda rhai aelodau o staff. Mae'n broblem gydag eraill. Ond ddylai e ddim bod.”
(Rhanddeiliad)*

“Mae'n ymwneud â bod yno pan nad oes neb arall” (Rhanddeiliad)

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos y canlyniadau i'r bobl ifanc a fanteisiodd ar yr ymyriadau. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau o ran hyder, hunan-barch, gwydnwch, gorbryder, ac iselder. Cawsant eu cefnogi i ddatblygu strategaethau ymdopi gwahanol. Dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi cael tawelwch meddwl ac wedi teimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrandao arnynt wrth gymryd rhan yn yr ymyriadau. Ymysg y canlyniadau eraill a nodwyd roedd gwelliannau o ran tai ar gyfer unigolion hyn ag anghenion cymhleth a oedd yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn galluogi pobl ifanc mewn sefyllfaoedd tebyg i ddod ynghyd i gael cymorth gan gymheiriaid.

“Gweithiodd gyda fi pan doedd neb arall yn fodlon gwneud” (Person Ifanc – PI)

“Mae gennym ni rywun rydyn ni'n ymddiried ynddo i siarad ag ef” (PI)

“Doedd gen i ddim neb a oedd yn deall beth oedd yn digwydd” (PI)

“Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac rwy'n fwy hyderus ynof fi fy hun” (PI)

“Bydda i'n siarad am fy nheimpladau yn fwy” (PI – Adroddiad Chwarterol)

Roedd cefnogi pobl ifanc i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn un o nodau allweddol yr holl ymyriadau, a chydabu'r rhanddeiliaid ffactorau amddiffynnol addysg. Ystyriwyd bod eirioli dros bobl ifanc ac addasu rhaglenni i redeg o fewn/ochr yn ochr ag ysgolion yn hanfodol i atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o ysgolion a'r effeithiau negyddol hirdymor sy'n gysylltiedig â hyn. Cafwyd adroddiadau hefyd am ymddygiad gwell mewn ysgolion. Tynnodd y canfyddiadau sylw at bwysigrwydd ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau ystyrion a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dargyfeirio a modelau rôl cadarnhaol yn y gymuned. Ystyriwyd bod dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn bwysig i alluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau newydd a chydabod a gwella sgiliau presennol, a oedd yn bwysig i feithrin eu hyder a'u helpu i ddatblygu dyheadau i symud ymlaen yn eu bywydau.

“Yr ymdrech fwyaf i geisio annog pobl ifanc i ddychwelyd i addysg” (Rhanddeiliad)

Nodwyd gwelliannau o ran gwybodaeth yn ganlyniad sylweddol i bobl ifanc. Dangosodd adborth a ffurflenni gwerthuso a gasglwyd o fewn gwasanaethau gyfrannau uchel o wybodaeth ac agweddau gwell. Drwy ddeall canlyniadau cyfreithiol bod yn rhan o droseddau, risgiau camfanteisio, a'r effeithiau iddyn nhw eu hunain ac eraill, gallai pobl ifanc wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth yn y

dyfodol. Ystyriwyd bod cynnwys pobl ifanc yn y broses yn ffordd bwysig o'u helpu i ddeall eu sefyllfa. Credwyd bod ymwybyddiaeth o sut a ble i gael gafael ar gymorth yn amhrisiadwy i bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u targedu ac y gallai fod angen cymorth arnynt yn y dyfodol, ac i'r bobl hynny a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai a oedd bellach yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pe bai ei angen arnynt. Rhoddodd y gweithgareddau hefyd ymwybyddiaeth iddynt o ran sut i roi gwybod am droseddau a'r hyder a'r sicrwydd i wneud hynny yn ddiennw neu siarad â gweithwyr proffesiynol. Credwyd bod hyn yn allweddol i leihau'r stigma a symud i ffwrdd oddi wrth ddiwylliant o 'gario straeon'. Nid oeddent yn ymwybodol o hyn cyn i'r ymyriadau gael eu cyflwyno ledled Caerdydd.

Mae adborth gan y bobl ifanc yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o gario cylllell neu arf am eu bod bellach yn teimlo'n fwy diogel a hyderus. Awgrymwyd hefyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n rhoi gwybod am droseddau. Credai nifer o bartneriaid fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o gyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais ymhlith plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddau cylllell. Yn y tymor hwy, roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai llai o drais a throseddau eraill, gan gynnwys llai o bobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i drais a chario cylllell, gan arwain at ragolygon gwell mewn bywyd i'r rhai dan sylw.

*“Dywedodd llawer ohonyn nhw [plant/pobl ifanc] eu bod yn meddwl ei bod hi'n iawn iddyn nhw gario cylllell i amddiffyn eu hunain, a'u bod yn mynd i roi'r gorau i wneud hynny”
(Rhanddeiliaid)*

Dangoswyd effeithiau ehangach o ran cydberthnasau gwell rhwng pobl ifanc â'u ffrindiau a'u teulu. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd ymyriadau yn cefnogi rhieni, brodyr a chwiorydd, ac aelodau ehangach o'r teulu hefyd. Drwy fanteisio ar gymorth drwy wasanaethau ar gyfer y plant, roedd rhieni yn cael cyfleoedd i gael cymorth ychwanegol ar gyfer y teulu cyfan. Nododd gwasanaethau fwch mewn darpariaethau i rieni, yn enwedig wrth aros i'r person ifanc gydymffurfio a manteisio ar gymorth. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar rieni ac adnoddau, cyrsiau ac ymgyrchoedd. Casglodd gwasanaethau adborth gan rieni, a oedd yn dangos y budd yr oedd rhieni yn ei gael o'r cyfle i ddod ynghyd gyda rhieni eraill, rhannu eu profiadau a chefnogi ei gilydd. Roedd hyn yn helpu i leihau'r stigma a'r cywilydd yr oedd rhai rhieni, gofalgwyr, a phobl ifanc yn eu teimlo. Dywedodd rhieni eu bod wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o risgiau camfanteisio, a phrosesau cyfreithiol i helpu i gefnogi eu plant. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r hyder iddynt reoli ymddygiad eu plentyn yn well. Roedd hyn wedi arwain at lai o ofn a phryder, a theimladau cynyddol o ddiogelwch. Mae creu manau ac amgylcheddau diogel wedi arwain at deimladau cynyddol o ddiogelwch yn y gymuned.

“Diolch am ein helpu i gydnabod y pethau da yn ystod y cyfnod anodd hwn” (Rhiant)

“Byddan nhw [aelodau o'r gymuned] yn gweld mwy o weithgareddau yn y gymuned a llai o droseddu, a fyddan nhw ddim yn ddiodefnydd. Rwy'n gobeithio mai dyna fyddwn ni'n ei weld” (Rhanddeiliaid)

“Roedd yn gyfnod llawn straeon i fy mam, a siaradodd [gweithiwr achos MAC] â mam hefyd. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd” (PI – Adroddiad Chwarterol)

Mae'r darparwyr ymyriadau yn monitro lefelau ymgysylltu a chanlyniadau drwy adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais a'r Swyddfa Gartref. Caiff gwaith adrodd ychwanegol ei gwblhau o fewn sefydliadau gan gynnwys gwaith monitro rheolaidd a llunio adroddiadau. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron ar ôl sesiynau a gweithdai, a oedd yn galluogi gwasanaethau i ddefnyddio adborth i wella dulliau cyflwyno a chanlyniadau, a oedd yn helpu teuluoedd i fyfyrion ar gynnydd. Fodd bynnag, nid oedd y rhain bob amser ar gael at ddibenion gwerthuso. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr heriau o ran

dangos effaith. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth fesur gwaith atal ac wrth ddangos canlyniadau ar gyfer cynaliadwyedd prosiect a mesur canlyniadau tymor hwy. Roedd hyn yn cynnwys heriau dull systemau cyfan drwy gamau gwahanol bywyd, a oedd yn golygu na fyddai llawer yn gweld effaith tymor hwy o fewn amserlenni eu prosiectau. Cytunwyd bod angen i ganlyniadau fod yn weladwy ac yn hawdd eu mesur, ac y dylent gasglu canlyniadau mwy meddal a naratif y daith, gan gynnwys llais defnyddiwr y gwasanaeth.

“Maen anodd iawn mesur gwaith atal. A dyna'r broblem os nad ydyn nhw'n mynd ymlaen i droseddu. Sut mae mesur hynny?” (Rhanddeiliad)

“Rwy'n credu bod dysgu yn allweddol, gan mai dyna sut rydych chi'n newid ac yn addasu eich gwasanaethau'n briodol i ddiwallu anghenion unigolion, ac mae angen i ni rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu yn ehangach” (Rhanddeiliad)

Effaith ehangach ar draws y system

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd. Mae angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig a chydweithredol sy'n sicrhau newid hirdymor. Mae gwerthusiad systemau cyfan yn canolbwyntio ar sut mae ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn rhyngweithio â'i gilydd i gyfrannu at newid systemau.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o astudiaethau achos yn dangos effeithiau gweithgareddau atal trais ar y system ehangach Mae'r model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais ymhlith plant a phobl ifanc a niwed cysylltiedig er mwyn creu cymunedau mwy diogel ledled Caerdydd. Roedd buddsoddiad gan yr Uned Atal Trais wedi ychwanegu gwerth at sefydliadau presennol i wella ymyriadau presennol a datblygu ymyriadau ac adnoddau newydd. Roedd hyn wedi eu galluogi i feithrin gallu a uwchsgilio'r gweithlu er mwyn sicrhau mwy o gyrhaeddiad ledled y ddinas i bobl ifanc a theuluoedd na fyddent o bosibl wedi cael cymorth fel arall.

Mae'r Uned Atal Trais wedi sefydlu rhwydwaith rhanddeiliaid mawr er mwyn helpu'r Uned i sefydlu a chydlynu gweithgarwch atal trais yn genedlaethol. Dywedwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau i weithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dulliau iechyd y cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais. Roedd datblygu llwybrau atgyfeirio a meithrin cydberthnasau ffurfiol rhwng gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau statudol a sefydliadau cymunedol, yn hyrwyddo trefniadau cydweithio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau. Ystyriwyd bod gwaith partneriaeth ymhlith aelodau'r Uned Atal Trais yn un o'r prif gryfderau yng Nghaerdydd. Roedd ymwybyddiaeth dda o sefydliadau gwahanol ac roedd partneriaid yn cydweithio'n dda. Rhoddwyd enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â rhannu gwersi a ddysgwyd a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

“Mae'r partneriaid yn dda. Maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n gallu ei gynnig” (Rhanddeiliad)

Mae gan bawb yr un nod, ac mae hynny'n helpu (Rhanddeiliad)

“Mae'r Uned [Uned Atal Trais] yn ein huno ni” (Rhanddeiliad)

Roedd gweithio gyda'r Uned Atal Trais yn gyfle i rannu gwybodaeth. Trafododd nifer o randdeiliaid fanteision rhannu data â'r Uned Atal Trais a chael data ganddi, a'r ffordd roedd y data hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys Porth Atal Trais Cymru ar gyfer data dienw ar drais yng Nghymru, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbty, galwadau am ambiwlans, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad, a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu.

Mae rhannu data â'r Uned Atal Trais yn helpu i feithrin dealltwriaeth realistig o'r sefyllfa ac yn cynnig llif cyfathrebu dwyffordd rhwng nifer o asiantaethau.

“Mewn rhai meysydd, mae Caerdydd ar flaen y gad [o ran data] gan eu bod wedi'u sefydlu ers cymaint o amser” (Rhanddeiliad)

“Mae'n cadarnhau'r hyn mae partneriaid yn ei weld, neu'r hyn mae'r data yn ei ddangos, sut mae pethau ar lawr gwlad” (Rhanddeiliad)

Nodwyd bod cyfarfod diogelu cyd-destunol amlasiantaeth Partneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) yn llwyfan allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chreu darlun o anghenion lleol i ddatblygu ymateb amlasiantaeth. Roedd hefyd yn galluogi partneriaid i rannu cyngor a chanllawiau, ac yn rhoi cyfrifoldeb a rennir iddynt i gefnogi pobl ifanc yn well. Roedd hyn yn golygu bod mwy o ddata a gwybodaeth yn cael eu rhannu, a oedd yn llywio gweithgarwch yr heddlu, gwaith patrôl a tharfu mewn ardaloedd problemus, ac ymatebion amlasiantaeth wedi'u teilwra yn dilyn digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â thrais.

“Diben SAFE yw rhannu gwybodaeth iechyd briodol er mwyn creu darlun ehangach o'r person a'i anghenion” (Rhanddeiliad)

Drwy gydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd drwy gamau gwahanol bywyd, mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le yn darparu fframwaith i fynd i'r afael ag anghenion cymunedau penodol, drwy sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau ar gyfer y 'lle cyfan', nid unigolion yn unig. Mae hyn yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol a'i ymgorffori ar draws y system ehangach. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethau gan olygu bod ganddynt gyrraedd ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Roedd effaith ehangach ar draws y system hefyd yn cynnwys gwybodaeth well ymhlith gweithwyr proffesiynol drwy feithrin cydberthnasau newydd, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n agos â'r ymyriadau, a thrwy gael hyfforddiant ac arweiniad gan staff ymyrryd. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth gwell, rhannu gwybodaeth yn well, mwy o wybodaeth ymhlith y gweithlu ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws y system atal trais, gan chwalu rhwystrau i atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli, er mwyn eu helpu i symud ymlaen yn eu bywydau.

“Rwy'n credu bod y dysgu yn ymwneud yn fwy â chwilfrydedd, archwilio mwy, bod yn ymwybodol o'r math o anafiadau y byddem yn eu nodi'n gynnar fel y pryder arall” (Rhanddeiliad)

“Mae'n effeithio ar y GIG oherwydd dydyn nhw ddim yn mynd i'r ysbyty. Mae'n effeithio ar y system carchardai oherwydd dydyn nhw ddim i gyd yn mynd i'r carchar. Mae'n effeithio ar wasanaethau plant oherwydd dyw'r pwysau i gyd ddim ar un person” (Rhanddeiliad)

Cynaliadwyedd a'r camau nesaf

Cydnabu'r Uned Atal Trais fod angen dylanwadu ar newid ehangach cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, gwella ymatebion rhyngasiantaethol ac ymgorffori newid ar lefel system. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos na fyddai'r canlyniadau hyn ar draws y system wedi cael eu cyflawni heb gyllid a chymorth yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth. Ystyriwyd bod cyllid parhaus a buddsoddiad ychwanegol yn allweddol i alluogi gwasanaethau ac ymyriadau i barhau ac ehangu, ac roedd hyn yn cynnwys meithrin gallu o ran recriwtio ac uwchsgilio timau. Tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr y sefydlogrwydd a'r un cyrraeddiant i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor. Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebdir gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system.

Ystyriwyd bod addysg yn allweddol i sicrhau newid hirdymor o ran lleihau troseddau cyllyll a mathau eraill o drais. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen mwy o fuddsoddiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar a rhaglenni gwaith eraill gyda phlant a phobl ifanc. Roedd galwadau hefyd am fuddsoddiad mewn gweithgareddau dargyfeirio er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn y gymuned feithrin sgiliau a datblygu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn hefyd yn ffordd o gynnig man diogel lle y gallent integreiddio gyda'u cymunedau. Wrth edrych i'r dyfodol, credwyd bod parhau i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio fframwaith yr Uned Atal Trais yn allweddol i gynnal cydberthnasau a chynnal momentwm ar gyfer dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

"Mewn byd delfrydol, hoffwn i weld y llywodraeth yn sylweddoli ac yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud a'r potensial ar gyfer rhagor o wasanaethau a help gyda chyllid."
(Rhanddeiliad)

"Beth yw'r prif flaenoriaethau? Beth allai wella pethau? Beth fyddai'n helpu?"
(Rhanddeiliad)

"Mae'n anodd iawn dod o hyd i weithgareddau am ddim yno, yn enwedig yn ystod y gwyliau" (Rhanddeiliad)

"Mae gennym ni yr Uned Atal Trais ers 2019. Ac mae wedi'i hymgorffori mewn ymarfer. I ni fel sefydliad, y broblem fydd sut y gallwn ni gynnal y rolau hynny pan ddaw'r cyllid i ben"
(Rhanddeiliad)

Argymhellion

- Gellid cryfhau cydberthnasau ag ysgolion ac ennyn mwy o ddiddordeb gan bartneriaid addysg. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan sefydliadau addysg fewnbwn allweddol mewn cyfarfodydd partneriaeth ac yn cynyddu cyfranogiad mewn ysgolion. Gallai'r Uned Atal Trais helpu i wella'r cydberthnasau hyn, ond gallai fod angen cymorth gan y llywodraeth i hwyluso cyfranogiad.
- Mae datblygu llwybrau fel y Tîm Atal Trais a Cyfleoedd Dysgu Digymell yn enghreifftiau o ddod â phartneriaid statudol a gwirfoddol ynghyd yn effeithiol i greu cymorth cofleidiol a chwalo rhwystrau i gyfranogi. Dylid dysgu o'r model hwn er mwyn datblygu llwybrau a gwaith partneriaeth ar draws sectorau yn y dyfodol.
- Mae angen buddsoddiad tymor hwy er mwyn creu gwasanaethau sefydlog a gofal cyson. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae angen buddsoddi mewn gweithgareddau dargyfeirio a manau cymunedol er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn man diogel yn eu cymuned. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn denu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Drwy fuddsoddiad gan yr Uned Atal Trais, bu modd ehangu cyrhaeddiad yn y gymuned. Bu modd hefyd i'r gweithlu uwchsgilio, o ran ymarfer atal trais ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Mae'n bwysig bod unrhyw waith a gyflwynir yn y dyfodol gan yr Uned Atal Trais ac fel rhan o waith arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Trais Difrifol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer meithrin gallu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol.
- Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos cyfoeth o wybodaeth a gesglir drwy'r gweithgareddau atal trais gwahanol a setiau data ehangach ledled Caerdydd. Gellid darparu rhagor o wybodaeth ar y Porth Atal Trais i annog defnyddwyr i fapio tueddiadau yn lleol. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu'r Porth yn y dyfodol, gan gynnwys ffynonellau data ychwanegol a'r gallu i fapio ardaloedd gwahanol yng Nghaerdydd.

- Mae'r adroddiadau monitro chwarterol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y niferoedd sy'n manteisio ar ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais, diweddariadau am gynnydd a chanlyniadau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ni chaiff yr adroddiadau eu cwblhau mewn ffordd gyson ar draws y gwasanaethau gwahanol, gan olygu ei bod hi'n anodd mesur effeithiau ar draws y system. Mae'r ffurflenni wedi'u newid yn ddiweddar i ddarparu fformat mwy safonol a fydd, gobeithio, yn gwella cysondeb data. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gasglu gwybodaeth ansoddol.
- Ystyriwyd bod gwaith gwerthuso hirdymor yn allweddol i fesur effeithiau tymor hwy yr Uned Atal Trais, ac mae'n bwysig bod hyn yn cynnwys canlyniadau mwy meddal, gan gynnwys cynnydd gyfer unigolion ar draws y system. Dylai gwasanaethau barhau i gasglu astudiaethau achos, gan ddefnyddio pecyn cymorth gwerthuso yr Uned Atal Trais hefyd i nodi ffordd gyson o fesur canlyniadau mwy meddal gan ddefnyddio data ansoddol.
- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i sefydlu grŵp cyngori ar werthuso i rannu canfyddiadau (lle y caniateir hynny) ac i gysoni dulliau recriwtio i sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau ac na ofynnir gormod ganddynt.
- Mae adborth gan bobl ifanc yn dangos pwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio ymyriadau, eu rhoi ar waith, eu darparu a'u gwerthuso. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais er mwyn deall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well a datblygu cynllun cynaliadwyedd.

Trosolwg

Mae Caerdydd wedi datblygu model gweithio sy'n ceisio nodi achosion o niwed cyd-destunol mewn cymunedau a mynd i'r afael â nhw. Mae model Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE) yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc gael eu niweidio gan oedolion a/neu gyfoedion eraill y tu allan i'w rhwydwaith teuluol sy'n eu cam-drin neu'n camfanteisio arnynt, neu y gallant wynebu risg o hynny¹. Mae Partneriaeth SAFE yn cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno dull dinas gyfan o ymdrin â diogelu cyd-destunol, sy'n cynnwys dulliau diogelu i ymateb i risgiau unigol (fel niwed y tu allan i'r teulu, camfanteisio, a thrais ymhlith plant a phobl ifanc), yn ogystal â chynnal cyfarfodydd diogelu amlasiantaeth â phartneriaid allweddol. Partneriaeth amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu yw SAFE, a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl. Mae wedi'i thargedu at weithwyr proffesiynol (e.e. Gwasanaethau ieuencid, ysgolion, ar heddlu ac asiantaethau yn y trydydd sector) sy'n gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd. Nid yw Partneriaeth SAFE yn derbyn atgyfeiriadau penodol am gymorth, ond yn hytrach, mae'n ymgysylltu â sefydliadau partner a gwasanaethau a gomisiynwyd ac yn eu cefnogi, er mwyn sicrhau bod prosesau clir ar waith i bobl ifanc gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, a datblygu dulliau i fonitro a gwerthuso effaith y cymorth a ddarparwyd. Prif ffocws partneriaeth SAFE yw atal materion fel troseddau cyllyll a chamfanteisio troseddol a chefnogi darnau allweddol o waith sy'n ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant pan fyddant yn digwydd, gan gefnogi pobl ifanc i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys proses panel risg uchel, lle y gellir uwchgyfeirio unrhyw rwystrau i gael cymorth at banel risg uchel am oruchwyliaeth reolaethol lefel uchel.

Gweithredu

Cafodd Partneriaeth SAFE ei sefydlu'n wreiddiol fel lle penodol i drafod unigolion y gall achosion o gamfanteisio fod wedi effeithio arnynt. Fodd bynnag, roedd problemau o ran capasiti, ynghyd â rhwystrau i rannu gwybodaeth am achosion penodol, yn golygu nad oedd modd gwneud hyn. Felly, esblygodd cylch gwaith y bartneriaeth i *“ddod â phartneriaid allweddol o nifer o asiantaethau ynghyd i fynd i'r afael â'r mathau hynny o themâu a bylchau thematig cyd-destunol ehangach”*. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda 400 o weithwyr proffesiynol mewn 9 ardal yng Nghaerdydd (fel y rheini ym maes tai, addysg, lles a gwaith cymdeithasol) er mwyn nodi'r hyn oedd eisoes yn cael ei wneud, yr hyn oedd yn gweithio, eu pryderon a'r atebion yr oedd angen eu rhoi ar waith, yn eu barn nhw, i atal achosion o gamfanteisio pobl ifanc yng Nghaerdydd. Dadansoddwyd data ansoddol hefyd er mwyn llywio'r ymgynghoriad. Yn dilyn hyn, adeiladwyd ar gryfderau pob cymuned er mwyn creu atebion i'r problemau a wynebwyd (fel y cyfleusterau sydd ar gael i bobl ifanc, yr ardaloedd sy'n peri pryder yn lleol a'r manau lle y gallai pobl ifanc ymgynnull a ph'un ydynt yn ddiogel ai peidio).

“Er mwyn ceisio helpu'r grŵp partneriaeth, ar gyfer pob un o'r ardaloedd lleol hyn, gwnaethom ddatblygu crynodeb dwy dudalen yn nodi rhai o'r cryfderau yr oedd pobl wedi dweud wrthym amdanynt ar ffurf pwyntiau bwled, gan ein bod am adeiladu ar y cryfderau hynny yn y cymunedau hynny”

Mae cyllid gan yr Uned Atal Trais wedi'i gymeradwyo ar gyfer swydd rheolwr prosiect yn y tîm, sydd wedi'i bod yn allweddol i *“gydlynw neu ysgogi llawer o'r gwaith hwn yn ganolog”*. Mae'r Uned Atal Trais yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth SAFE i bennu disgwyliadau o ran yr hyn y mae am i'r swydd a ariennir ei gyflawni. Cydnabyddir fod hyn wedi bod yn gweithio'n dda a bod yr Uned Atal Trais yn

¹ <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s72871/Appendix%204.pdf>

fodlon ar gynnydd y rheolwr prosiect. Ar hyn o bryd, mae'r rheolwr prosiect yn gweithio ar gynllun datblygu i fapio'r meysydd i'w datblygu a'r atebion a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn erbyn Fframwaith Cymru Heb Drais², a fydd yn llunio argymhellion ac yn dangos cynnydd Partneriaeth SAFE. Mae aelodau o staff hefyd yn cael cyfarfodydd misol â'r Uned Atal Trais er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf a, waith y bartneriaeth.

Cyflawni

Datblygwyd partneriaeth SAFE i weithio gydag asiantaethau, rhannu gwybodaeth, a datblygu ymyriadau ar draws partneriaeth. Er mwyn cyflawni hyn, cynhelir cyfarfodydd bob deufis â phartneriaid allweddol i drafod materion pwysig a llunio camau gweithredu i bartneriaid eu cymryd. Mae'r cyfarfodydd yn boblogaidd, gyda thua 40 o bartneriaid yn bresennol ym mhob un. Mae'r partneriaid yn cynnwys y rheini o sefydliadau statudol a gwirfoddol, er enghraifft MAC, y Tîm Atal Trais, St Giles, Sidestep, a Gweithredu dro Blant. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod tîm SAFE yn cysylltu â phartneriaid yn rheolaidd er mwyn sicrhau cyfathrebu cyson ac atal y risg o ddyblygu gwasanaethau. Er mwyn cynorthwyo â hyn, mae aelodau partneriaeth SAFE hefyd yn mynd i gyfarfodydd y grŵp atal trais a chyfarfodydd y grŵp troseddau cyfundrefnol (bydd y grwpiau hyn hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd Partneriaeth SAFE.

“Mae angen i ni weithio'n dda er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cysylltu ac yn cyfathrebu ac nad oes unrhyw ddyblygu”

Ymgysylltu â phartneriaid allweddol

Mae gwaith amlasiantaeth yn allweddol i lwyddiant Partneriaeth SAFE. Er mwyn helpu i atgyfnerthu hyn, mae nifer o ddiwyddiadau wedi'u cynnal, gan gynnwys digwyddiad Partneriaeth SAFE, Grŵp Rhwydweithio Buddiant Proffesiynol (PING), Fforwm Darpariaeth Arbenigol Ddynodedig Ysgolion, amrywiaeth o fforymau cymunedol, a sesiynau gwella ymarfer. ³ Yn ychwanegol at hyn, mae tîm SAFE wedi datblygu protocol a gweithdrefn plant coll, gan ysgogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau cwricwlwm SAFE i lywio maes iechyd a lles y Cwricwlwm newydd i Gymru. Cafodd hyn ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol am gamfanteisio yn cael eu rhannu, gan ddatblygu cynllun i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'u cefnogi, llunio matrices hyfforddiant ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar gyfer y bartneriaeth, a datblygu cynnyrch e-ddysgu SAFE cyffredinol. Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n agos gyda Caerdydd sy'n Dda i Blant er mwyn datblygu rhaglen o waith ymgynghori â phob ifanc.

Yn ystod y broses ymgynghori, roedd yn ymddangos bod rhai materion yn rhai roedd gormod o frys i'w trin neu'n rhy benodol i'r ardal leol i aros i'r bartneriaeth ddatblygu. Felly, mae grwpiau atebion cyd-destunol wedi'u treialu mewn ardaloedd lleol. Fforymau amlasiantaeth wythnosol yw'r rhain, sy'n gysylltiedig â phob un o ardaloedd lleol SAFE, a'u cylch gwaith craidd yw adolygu pryderon diogelu cyd-destunol sy'n golygu bod pobl ifanc yn wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt yn ardal leol. Mae'r grwpiau atebion cyd-destunol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau i adeiladu ar asedau cymunedol a gweithio mewn partneriaeth i gynyddu diogelwch y bobl ifanc yn y gymuned, gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar arferion gorau ac atebion arloesol i ysgogi gwelliannau. I gefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi gwneud cais am gyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuentid yn ddiweddar er mwyn adeiladu ar y syniad atebion cyd-destunol hwn o gael tîm dynodedig i weithio yn y cymunedau.

² <https://cymruhebdrails.com/>

³ <https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s72871/Appendix%204.pdf>

Mae tîm SAFE hefyd wedi goruchwyllo'r gwaith o ffurfio Grwpiau Gweithredu Ieuenctid, wedi'u harwain gan wasanaethau Ieuenctid, i ddod â phartneriaid allweddol yn yr ardal leol sy'n gweithio ar ran pobl ifanc neu drostynt ynghyd, fel clybiau chwaraeon lleol, ysgolion, ac ati. Ystyriwyd bod hyn yn fforwm gweithredu wedi'i arwain gan y gymuned i helpu i gyflawni rhywfaint o waith SAFE drwy gynllunio gweithgareddau a datblygu rhaglenni i gefnogi'r gymuned leol. Mae'r rheolwr prosiect a ariennir gan yr Uned Atal Trais wedi helpu i ddatblygu Grwpiau Gweithredu Ieuenctid ym mhob ardal leol, sydd wedi sefydlu llinell gyfathrebu i oresgyn materion a godwyd yn yr ymgynghoriadau.

"Rydym yn gallu cyfeirio pethau at y Grŵp Gweithredu Ieuenctid a dweud bod ymgynghoriad wedi nodi, er enghraifft, nad oes digon o weithgareddau yn yr ardal hon i ferched. Allwch chi, fel y grŵp cymunedol lleol, weithredu ar hynny?"

Mae tîm SAFE wedi bod yn rhan o nifer o weithgareddau eraill hefyd, gan gynnwys:

- Gweithio'n agos gydag ysgolion i siarad am gamfanteisio a ffactorau risg camfanteisio, fel niwroamrywiaeth ac anableddau.
- Arwain y gwaith o ddatblygu protocol unigolion coll (MISPER) ar gyfer Caerdydd, gan weithio gyda phartneriaid o wasanaethau allweddol. Mae'r protocol wedi'i gwblhau a'i gadarnhau, a bydd yn cael ei rannu â phob maes gwasanaeth drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a phartneriaid SAFE, er mwyn cynnig cyfeiriad ac arweiniad i gefnogi ymarferwyr sy'n ymateb i achosion o unigolion coll.
- Datblygu cynllun ymgysylltu â rhieni a gofalmwyr drwy drafod â phartneriaid o amrywiaeth o wasanaethau. Mae gwaith amlasiantaeth yn elfen allweddol o'r cynllun, gydag ymrwymiad gan amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y tîm Help Cynnar, i helpu i ymgysylltu â rhieni a gofalmwyr. Mae hefyd wedi ymgysylltu â chydweithwyr o ardaloedd eraill o Gymru a sefydliadau arbenigol fel Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a'r Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc y Camfanteisiwyd arnynt yn Rhywiol er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn seiliedig ar arferion da.
- Gweithio'n agos gyda'r Uned Atal Trais a chysoni ei Strategaeth Camfanteisio a chynllun datblygu SAFE â'r naw strategaeth a nodir yn Fframwaith Cymru Heb Drais.
- Gweithio gyda Tarian (Yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol) i gomisiynu a hyrwyddo hyfforddiant ar-lein ar Linellau Cyffuriau, gyda 400 o ymarferwyr yn bresennol mewn dwy sesiwn. Atebion Cyd-destunol Gogledd 1: mae'r prosiect peilot hwn wedi dod â gweithwyr proffesiynol mewn ardal leol ynghyd, i nodi pryderon cyd-destunol a datblygu camau gweithredu lleol wedi'u targedu. Mae hefyd wedi gweithio gyda Tarian ac Addewid Caerdydd i gomisiynu a hyrwyddo cyfres o sesiynau hyfforddiant ar-lein ar gamfanteisio ar gyfer y gymuned fusnes.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2023/24, ymgysylltodd partneriaeth SAFE â thros 500 o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau statudol (e.e. yr heddlu, addysg) ac asiantaethau yn y trydydd sector (e.e. Cynghorwyr Polisi a Rheolwyr Gwasanaethau o'r Gweithgor Cenedlaethol, NSPCC, Cymdeithas y Plant). Roedd hyn yn cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio ym maes camfanteisio ledled Cymru a gweddill y DU, mewn ardaloedd fel Powys, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Ddinbych a Croydon. Drwy'r fforymau cymunedol a'r grwpiau gweithredu Ieuenctid, ymgysylltwyd hefyd â thros 85 o bobl o gymdeithasau chwaraeon, elusennau, ysgolion a sefydliadau eraill lleol. Ymgysylltwyd â thros 100 o weithwyr proffesiynol o sefydliadau sy'n cefnogi plant a theuluoedd yng Nghaerdydd a'r Fro a thu hwnt drwy'r Grŵp Buddiant Proffesiynol Camfanteisio. Ymgysylltodd SAFE hefyd â'r mwyafrif o ysgolion uwchradd, yr holl ddarpariaethau ôl-16 a llawer o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yng Nghaerdydd drwy'r fforymau, ymgynghoriadau, digwyddiadau a gwaith partneriaeth.

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023/24, ymgysylltodd SAFE â thros 700 o ymarferwyr drwy Bartneriaeth SAFE a digwyddiadau dysgu (gan gynnwys digwyddiadau dysgu ar-lein, digwyddiadau

Cymuned Ymarfer, ac ymarferwyr o'r sector statudol a'r trydydd sector). Mae hyn yn cynnwys PING, cyfarfodydd Partneriaeth SAFE, y Grwpiau Gweithredu Ieuencid, digwyddiadau hyfforddiant a dysgu, a fforymau eraill.

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2023/24, cafodd yr unigolion a'r sefydliadau a ymgysylltodd â SAFE fudd o'r cysylltiadau â gwaith partneriaeth a'r cyfleoedd i gyfrannu at fforymau a chymryd rhan ynddynt. Maent wedi cael cyfle i gael hyfforddiant a gwybodaeth am gyd-destun presennol camfanteisio a chamfanteisio'n rhywiol ar blant; gan barhau i godi ymwybyddiaeth o ddulliau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth ymhlith ymarferwyr sy'n pryderu am gamfanteisio. Mae hyn yn cynnwys y Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth, ffurflenni gwybodaeth partneriaid a'r Adnodd Adnabod Arwyddion Camfanteisio. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r sefydliadau gwahanol sy'n cefnogi pobl ifanc a gofalwyr yr effeithir arnynt drwy ddigwyddiadau dysgu a phartneriaeth. Mae unigolion a sefydliadau hefyd wedi cael y cyfle i godi pryderon am brosesau ac adnoddau ac mae'r pryderon hyn wedi'u bwydo'n ôl drwy'r gwasanaethau perthnasol ac wedi'u hatgyfeirio drwy'r Rheolwr Gweithredol. Mae grŵp mapio SAFE a'r Grŵp Atebion Cyd-destunol peilot newydd wedi'u sefydlu er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu ymateb strategol ac amlasiantaeth i bryderon am gamfanteisio. O fis Ionawr 2024, sefydlodd tîm SAFE raglen dreigl o hyfforddiant i'w ddarparu gan dîm Think Safe. Erbyn diwedd 2023, dywedwyd nad oedd bron unrhyw leuedd ar ôl ar gyfer pum sesiwn gychwynnol, gan gyrraedd cyfanswm o 160 o gyfranogwyr o amrywiaeth o wasanaethau a sefydliadau.

Rhwystrau

Cydnabuwyd nifer o rwystrau i weithredu a chyflawni Partneriaeth SAFE. Nodwyd mai'r rhwystrau mwyaf sylweddol oedd materion systemig, fel y ffaith mai niferoedd bach sy'n rhoi gwybod am droseddau a diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau/yr heddlu. Teimlwyd bod y ffaith mai niferoedd bach sy'n rhoi gwybod am droseddau yng Nghaerdydd yn rhoi darlun anghywir o lefelau trais a chamfanteisio. Er bod gan dîm SAFE ddata ansoddol a all lywio ei benderfyniadau, yn aml mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ddibynnu ar eu barn wrth benderfynu pa ardal y dylid canolbwyntio arni ac ym mha ardal y mae'r angen mwyaf. Er bod y rhwystrau hyn yn bodoli, cydnabuwyd bod gan y bartneriaeth ymagwedd ragweithiol, a'i bod yn canolbwyntio ar y newidiadau y gall eu gwneud er mwyn sicrhau newid gwerthfawr yng Nghaerdydd.

"Mae datrys ein materion systemig y tu hwnt i'r grŵp hwn, felly rydym yn canolbwyntio ar y pethau y gallwn eu gwneud a'r pethau y gallwn eu newid nawr. Felly rydym yn cael y trafodaethau hynny yn y grŵp"

Cydnabuwyd rhwystrau gyda phartneriaid, a thrafodwyd rhai rhwystrau i ymgysylltu. Er bod presenoldeb da mewn cyfarfodydd amlasiantaeth ar y cyfan, teimlwyd bod angen annog partneriaid weithiau i gyfrannu a chymryd cyfrifoldeb am y camau gweithredu y penderfynir arnynt yn ystod y cyfarfodydd. Serch hynny, cydnabuwyd bod 'cadeirydd cryf iawn' ganddynt, a all oresgyn yr heriau hyn.

"Erbyn hyn, mae'n debyg bod 40 o bobl yn dod i'r bartneriaeth gyda chyfarfodydd bob hyn a hyn, ond mae angen ychydig o anogaeth arnyd nhw i gyfrannu. Rydyn ni'n gyfforddus iawn yn eistedd yno mewn tawelwch nes bod rhywun yn perchenogi cam gweithredu"

Effaith

Cafodd yr atebion a ddatblygwyd y dilyn yr ymgynghoriad ar ddechrau'r bartneriaeth eu mapio yn erbyn pob un o'r naw ardal leol, a'u hadolygu'n rheolaidd i ddangos ac olrhain cynnydd. Pennwyd themâu ar gyfer atebion a meysydd i'w datblygu, fel bod modd nodi tueddiadau, y gellir eu defnyddio i lywio trafodaethau yn y grŵp polisi. Fel rhan o hyn, cydnabuwyd nodweddion cyffredin ar draws yr

ardaloedd lleol, fel yr angen am gymorth i rieni a'r angen i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ymhlith rhieni. Felly, mae wedi gallu datblygu cynllun ymgysylltu â rhieni i oresgyn hyn ac wedi sefydlu modelau grwpiau cymorth cymheiriaid a chaffis i rieni, wedi cynllunio ymgyrchoedd wedi'u targedu at rieni, ac wedi cyflwyno cyrsiau i rieni. Byddant hefyd yn ceisio ychwanegu sesiwn ar ddiwedd rhai o'r cyrsiau rhianta presennol i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio. Mae adborth gan bartneriaid wedi dangos bod yr elfen rwydweithio o'r bartneriaeth wedi bod yn fuddiol o ran codi ymwybyddiaeth o'r mater a'r partneriaid dan sylw, yn ogystal â gallu rhannu adnoddau.

"Rydym yn cael llawer o adborth gan bartneriaid, yn bennaf yn dweud pa mor ddefnyddiol y mae'r rhwydweithio, y bartneriaeth, y gwaith codi ymwybyddiaeth, yr adnoddau, ac ati, wedi bod"

Mae'r bartneriaeth yn annog y defnydd o ddull iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd ac yn cynyddu gwaith amlasiantaeth a chyfranogiad partneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu ac achosion o gamfanteisio ar bobl ifanc. Nodwyd bod codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio a helpu i ddatblygu a chynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn rhai o ganlyniadau Partneriaeth SAFE. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu â gwasanaethau eraill fel Tîm Ieuencid Caerdydd a'r YMCA sy'n cynnig amrywiaeth o sesiynau cymorth penodol wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc ag amrywiaeth o anghenion penodol fel anawsterau dysgu, a gofawyr ifanc. Teimlwyd bod tîm SAFE wedi cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd partneriaeth ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio yn y Tyllgoed, Dwyrain Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn uniongyrchol., a ledled y ddinas yn fwy cyffredinol. Mae hefyd wedi helpu i feithrin cydberthnasau rhwng yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau addysg.

"Rwy'n credu fy mod yn siarad ar ran pob darparwr ôl-16 wrth ddweud pa mor ddefnyddiol yw gwaith SAFE; mae ein cyfranogiad ym mron popeth rydych yn ei gynnig yn dangos pa mor fuddiol ydyw i ni" (Adborth allanol, adroddiad chwarterol)

"I mi yn bersonol, mae wedi bod yn wych cael ein cydnabod fel darparwr sy'n gweithio gyda nifer enfawr o bobl ifanc yng Nghaerdydd. Gwyddom ers blynnyddoedd ein bod yn gweithio gyda rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y ddinas, a bod rhywun yn camfanteisio ar ein dysgwyr bob dydd, ond rydym wedi ei chael hi'n anodd iawn cael gafael ar wybodaeth. Diolch i'ch ymdrechion chi, mae gennym nawr gysylltiadau cadarnhaol â chymaint o ddarparwyr ... Rydym wedi gallu rhannu gwybodaeth sy'n ein galluogi i fod yn ymwybodol o rai o'r risgiau ... er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n well" (Adborth allanol, adroddiad chwarterol)

Casglu data a dangos canlyniadau

Oherwydd natur Partneriaeth SAFE, nid yw'n bosibl mesur lefelau ymgysylltu'r gwasanaeth yn yr un modd â gwasanaethau eraill sydd wedi cael cyllid gan yr Uned Atal Trais, e.e. edrych ar niferoedd yr unigolion sydd wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Er ei bod yn anodd ei fesur, nododd y rhanddeiliaid y *'bydd y cyfleoedd dysgu a hyfforddi a gynigir i ymarferwyr o fudd uniongyrchol i'r plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw'* (Adroddiad Chwarterol). Dywedwyd hefyd fod SAFE, pan fydd yn dod yn ymwybodol o bobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt, yn sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu cyflwyno neu eu huwchgyfeirio drwy'r dulliau atgyfeirio priodol. Cydnabuwyd bod canlyniadau disgwylidig Fframweithiau Cymru Heb Drais yn cyd-fynd yn agos â chanlyniadau tîm SAFE. Felly, mae tîm SAFE wedi cael cymorth i gasglu canlyniadau ac effeithiau gan yr Uned Atal Trais o ganlyniad i'r nodweddion tebyg hyn.

"Mae SAFE yn dod â'r agwedd honno i rai o'r canlyniadau yr hoffai'r Uned Atal Trais eu gweld o ran gostwng lefelau'r math hwnnw o drais, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ati, cynyddu ymwybyddiaeth"

Trafodwyd casglu llais y person ifanc a'i deulu fe adnodd defnyddiol i ddangos effaith; fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Teimlwyd ei bod yn bwysig nad yw adborth gan bobl ifanc a'u teuluoedd yn arwynebol ac, felly, mae tîm SAFE wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i lunio dull cynllun ymgynghori, gan efelychu ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Dîm Dinasoedd sy'n dda i Blant i lunio cynllun o argymhellion yn seiliedig ar adborth gan bobl ifanc. Mae tîm SAFE wrthi'n sefydlu ei gynllun peilot ei hun yn seiliedig ar hwn, er mwyn ystyried pynciau trais ymhlith plant a phobl ifanc yn fanylach. Oherwydd cost uchel rhoi'r cynllun peilot hwn ar waith ym mhob un o'r naw ardal leol, mae wedi penderfynu datblygu model 'hyfforddi'r hyfforddwr' i ddarparu'r pecyn cymorth ymgynghori er mwyn llunio argymhellion clir i'w defnyddio yn y dyfodol.

Mae tîm SAFE wedi datblygu fframwaith effaith y gobeithir amdani, sef CHANGES, er mwyn mesur yr effaith unigol, cymunedol a system allweddol. I bobl ifanc y mae rhywun yn camfanteisio arnynt neu sy'n wynebu risg o hynny, mae'r effeithiau y gobeithir amdanynt yn cynnwys mwy o hyder a hunan-barch, a newidiadau i iechyd meddwl a llesiant. Ar lefel cydberthnasau, rhagwelwyd gwelliannau o ran dymameg gyffredinol y teulu, ac ar lefel gymunedol, gobeithiwyd y byddai rhwydweithiau cymorth yn cael eu datblygu yn y gymuned. Ar lefel gymdeithasol ehangach, gobeithiwyd am amgylchedd mwy diogel i bobl ifanc fyw ynddo.

“Felly, roeddem yn meddwl am y pethau allweddol roeddem am eu gweld ar gyfer pobl ifanc y mae rhywun yn camfanteisio arnynt, neu sy'n wynebu risg o hynny. Felly, roedd yn ymwneud â meithrin hyder a hunan-barch a gwella llesiant meddyliol, emosiynol a chymdeithasol drwy gael y ddymameg deuluol honno, rhwydwaith o gymorth cymunedol, grymuso pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ac yna, yn amlwg, eu cadw'n ddiogel”

Datblygodd trafodaethau o amgylch chasglu a dangos canlyniadau yn y dyfodol. Cydnabuwyd fod gan dîm SAFE gysylltiadau sefydledig â Phrifysgol Caerdydd. At hynny, awgrymwyd y dylid cynnal ail gylch o ymgynghoriadau lleol yn ogystal â grwpiau ffocws gyda phob ardal leol er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio, yr hyn y gall fod angen ei wella, ac enghreifftiau o arferion gorau. Caiff Cynllun Blynyddol a Blaenoriaethau SAFE eu diweddarau bob chwarter.

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Ar ddechrau 2023, newidiodd tîm SAFE ei strwythur staffio, gan ehangu i gynnwys dau uwch-swyddog. Cydnabuwyd mai tîm bach yw SAFE o hyd, gyda chapasiti cyfyngedig, ac nad oes unrhyw gyllideb ar hyn o bryd i'w ehangu a phenodi mwy o staff, a theimlwyd bod hyn yn cyfyngu cwrpas y gwaith. Nodwyd bod angen canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn datblygu gwaith partneriaeth gyda sefydliadau sy'n cynrychioli llais grwpiau lleiafrifol. Byddai adnoddau ychwanegol yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion o'r fath.

Mae bwlch wedi'i nodi hefyd o ran gwasanaeth Dadansoddwr a Swyddog Cyfathrebu i gefnogi gwaith y tîm. Nodwyd ei bod hi'n anodd casglu data gan sefydliadau addysg i'w dadansoddi oherwydd anghysondebau o ran cofnodi data drwy'r pyrth diogelu fel MyConcern, yn ogystal â 'diffyg cytundeb gan ysgolion i rannu ffigurau gwaharddiadau' (*Adroddiad Chwarterol*), gan olygu ei bod hi'n anodd nodi unigolion bregus y gallai rhywun gamfanteisio arnynt ac ardaloedd lleol allweddol i'w targedu.

Yn y dyfodol, mae tîm SAFE yn bwriadu gweithio gyda rhieni, gofalwyr a phobl ifanc drwy roi'r strategaeth Rhieni a Gofalwyr ar waith. Mae hefyd yn bwriadu datblygu digwyddiadau Cymunedau Ymarfer a chyrtsiau hyfforddiant ar-lein ymhellach a bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a datblygu'r pecyn cymorth ymgynghori â phobl ifanc cynaliadwy gyda gweithgareddau wedi'u targedu i gefnogi'r gwaith ar gydraddoldeb rhywedd sy'n cael ei wneud ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys gwaith penodol gyda dynion a bechgyn.

Trosolwg

Rhaglen 12 wythnos yw Braver Choices a ddarperir gan Media Academy Cymru, sy'n targedu unrhyw blant neu bobl ifanc yng Nghaerdydd sy'n cario arfau neu'n wynebu risg o wneud hynny. Nod y rhaglen yw lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cario arfau, a chafnod y rheswm sylfaenol pam y maent o bosibl yn gwneud hynny. Mae'r rhaglen hefyd yn gweithio gyda'r bobl ifanc i'w cefnogi gyda materion ychwanegol y tu hwnt i waith yn ymwneud ag arfau, er mwyn darparu ymyriadau ataliol a phwrpasol cyflym, gan weithio gyda Gweithiwr Ieuentid cymwysedig⁴. Nod hyn yw galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, datblygu strategaethau ymdopi a deall goblygiadau eu gweithredoedd.

“Rydym yn ceisio lleihau'r risgiau a threiddio ychydig yn ddyfnach er mwyn ceisio canfod pam maen nhw'n cario arfau. Mae llawer ohonyn nhw'n dweud eu bod yn eu cario i'w hamddiffyn, felly byddwn yn ceisio canfod rhag beth sydd angen eu hamddiffyn ac yn lleihau'r risgiau oherwydd os gallwch chi lleihau'r risgiau hynny, yna gobeithio na fyddan nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw gario arfau mor aml, os o gwbl”

“Mae'n edrych nid yn unig ar yr arfau yn eu bywyd, ond hefyd ar bob rhan arall o'u bywyd, a sut y gallwn eu cefnogi”

Darperir Braver Choices mewn lleoliadau cymunedol rhwng 8am ac 8pm, saith diwrnod yr wythnos, yn dibynnu ar anghenion y plentyn a'i deulu. Mae'r Gweithwyr Ieuentid yn gweithio gyda chyfranogwyr ar sail un i un ac yn cefnogi tîm atal y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuentid i gynnal sesiynau mewn ysgolion lle mae troseddau cyllyll wedi'u nodi a lle y gwnaed cais am gymorth. Bydd Braver Choices hefyd yn cynnal gwasanaethau addysgol i grwpiau mawr.

Gweithredu

Sefydlwyd rhaglen Braver Choices yn 2018 ac mae wedi'i hariannu gan yr Uned Atal Trais ers 2021. Wrth roi'r rhaglen ar waith, cynhaliwyd gweithdy mewn carchar lleol er mwyn siarad â'r rheini a oedd wedi ymwneud ag arfau er mwyn casglu eu barn i lywio rhaglen Braver Choices.

“Gwnaethom gynnal gweithdy yma yn un o'r carchardai, a gwnaethom ddangos y rhaglen i'r carchardai. Roedd pob un ohonyn nhw wedi ymwneud ag arfau, felly gwnaethom gasglu eu barn am y rhaglen a'r hyn y gallai fod angen i ni ei newid, neu ei ychwanegu, yn eu barn nhw, a beth oedd yn dda”

Mae'r Uned Atal Trais yn darparu cyllid ar gyfer Braver Choices ac, felly, bydd Braver Choices yn mynd i gyfarfodydd â'r Uned Atal Trais ac yn cyflwyno adroddiadau chwarterol. Mae gan Braver Choices hefyd gysylltiadau â Phartneriaeth SAFE. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod gan y rhaglen hefyd gysylltiadau â'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn defnyddio dull amlasiantaeth a darparu cymorth cofleidiol i'r bobl ifanc., Fodd bynnag, mae angen iddi wahanu ei hun oddi wrth yr heddlu a gwasanaethau er mwyn ennyn ymddiriedaeth y bobl ifanc.

Mae gan Braver Choices hefyd amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod Braver Choices wedi bod yn rhan o gyfarfodydd fel cyfarfodydd Cynllun Gofal a Chymorth a Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth yn ogystal â nifer o gyfarfodydd ag ysgolion a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu. Mae hefyd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd trafod atgyfeiriadau â

⁴ <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/beth-rydyn-nin-ei-wneud/ymyriadau/braver-choices>

rheolwyr achosion ac wedi bod i gyfarfodydd dyrannu gwaith atal y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a chyfarfodydd cynllunio diogelwch â rhieni. Mae hefyd yn cyflwyno gwybodaeth gan bartneriaid i'r heddlu.

Cyflawni

Daw atgyfeiriadau at Braver Choices gan ysgolion, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a gweithwyr Ieuencid, a chânt eu dyrannu wedyn i Weithiwr Ieuencid yn Braver Choices. Yn ystod 2022/23, cafodd Braver Choices atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, Coleg Caerdydd a'r Fro a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn cael atgyfeiriadau gan raglenni eraill MAC, gan gynnwys ymyriad dalfeydd yr heddlu (gweler astudiaeth achos 7) a rhaglen DIVERT y system cyfiawnder troseddol.

Bydd plant a phobl ifanc a atgyfeirir at y gwasanaeth yn cael asesiad a fydd yn nodi anghenion ac yn sail i gynllun gweithredu y cytunir arno ar y cyd i ystyried y risgiau o ran diogelu a'r cyfreithiau o ran cario cyllyll ac arfau eraill. Caiff cynllun diogelwch ei lunio drwy ystyried risgiau/anghenion a phennu nodau byrdymor/hirdymor. Mae'r asesiad cychwynnol hwn yn darparu gwybodaeth am gefndir y person ifanc a'i fywyd cartref, sy'n golygu bod modd teilwra'r sesiynau.

Dengys data fod Braver Choices yn darparu ar gyfer nifer uchel a chynyddol o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn ystod mis Awst a mis Medi 2023, roedd 50% o'r atgyfeiriadau newydd wedi cael diagnosis o ADHD neu anabledd corfforol (o gymharu â 25% yn ystod y chwarter blaenorol), a rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, nododd Braver Choices fod gan 80% o'r bobl ifanc anghenion addysgol arbennig neu anabledau. Addasodd Braver Choices i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn, er enghraifft drwy gynnal sesiynau byrrach a defnyddio cymhorthion gweledol. Cynhaliodd gweithwyr achos hefyd ymchwil a hyfforddiant i wella eu gwybodaeth am anghenion ac anabledau penodol, gan gynnwys anhwylder herio gwrthryfelgar, er mwyn teilwra cymorth. Mae sesiynau hefyd wedi cael eu haddasu i'w cynnal yn Gymraeg. Ystyriwyd bod addasu a theilwra sesiynau wedi meithrin cydberthnasau cryfach â phobl ifanc ac wedi eu helpu i gymryd rhan.

Mae pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yn gyson ymhlith y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio at Braver Choices. Mae adroddiadau chwarterol yn dangos bod 100% o'r atgyfeiriadau newydd yn bobl ifanc a oedd naill ai'n NEET neu wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn flaenorol neu ar amserlenni â llai o oriau yn yr ysgol. Mae'r adroddiadau hefyd yn dangos bod hyn wedi cynyddu bob chwarter.

Mae'r adroddiadau chwarterol hefyd wedi dangos bod gan bobl ifanc nifer o anghenion eraill. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg cymorth gan deuluoedd; problemau iechyd meddwl, fel gorbryder; pryderon o ran tai (yn ystod un chwarter, roedd tri o bob pum unigolyn ifanc wedi cael eu tynnu o gartref y teulu neu wedi treulio cyfnod fel plant sy'n derbyn gofal); diflastod; a rhwystredigaeth. Nodwyd bod y materion hyn yn golygu bod pobl ifanc yn agored i ddylanwadau negyddol wrth iddynt chwilio am adloniant a hamdden.

Dengys data fod llawer o bobl ifanc yn cario arfau yn 2022/2023 oherwydd dyled yn gysylltiedig â chamdefnyddio sylweddau, a chodwyd pryderon am gamfanteisio troseddol a diffyg dealltwriaeth pobl ifanc o gyfreithiau sy'n gysylltiedig â chario arf. Dangosodd data o chwarter tri (Hydref – Rhagfyr 2023) fod mwy o bobl ifanc yn mynd ag arfau i mewn i'r ysgol a bod mwy o fygythiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gwelodd Braver Choices hefyd fod grwpiau oedran llai yn cael eu hatgyfeirio; cydnabuwyd fod y gwasanaeth fel arfer yn gweld pobl ifanc 15-18 oed, ond ei bod bellach yn gweld mwy o bobl ifanc 11-14 oed. Mae data'r adroddiadau chwarterol hefyd yn dangos y bu cynnydd yn nifer y datgeliadau yn ystod gwyliau haf yr ysgol.

Rhaglen wirfoddol yw Braver Choices. Caiff y sesiynau eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol, er enghraifft yn ysgol y person ifanc neu yn y gymuned. Nodwyd na fyddai Braver Choices byth am gynnal sesiynau yng nghartref y person ifanc.

“Dwi ddim yn credu y bydd person ifanc yn siarad yn agored am ei fod yn teimlo bod rhywun yn gwrando”

Ar ddechrau'r sesiynau, cynhelir gwiriadau adferol er mwyn edrych ar brofiadau dros yr wythnos ddiwethaf, fel bod modd myfyrio, deall ac ystyried. Bydd gweithwyr Ieuencid MAC yn cysylltu â gweithwyr achos eraill er mwyn deall unrhyw risgiau a/neu ddigwyddiadau newydd.

Darperir Braver Choices ar sail un i un; fodd bynnag, cynigir cyrsiau grŵp (fel cwrs cymorth cyntaf) ar sail wirfoddol yn ychwanegol at raglen Braver Choices. Cydnabuwyd bod hyn yn fuddiol gan fod pobl ifanc yn gallu cwrdd â phobl eraill mewn sefyllfa debyg a sefydlu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid. Esboniodd pobl ifanc ei bod yn bwysig bod Braver Choices ar gael i ddarparu cymorth i'r rheini sydd ei angen er mwyn *“eu helpu i ddysgu a'u tywys tuag at y llwybr cywir” (PI)*.

Un o rolau allweddol y gweithwyr Ieuencid yw meithrin cydberthnasau. Cydnabuwyd bod y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at Braver Choices yn aml yn amharod i ymgysylltu am eu bod yn ei chael hi'n anodd ymddiried mewn aelodau o staff. Felly, treulir amser yn ennyn ymddiriedaeth y person ifanc ac yn magu ei hyder cyn iddo ddechrau'r rhaglen. Cafodd hyn ei gydnabod gan y bobl ifanc, a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod eu sesiynau.

Felly nodwyd, mae'r bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at Braver Choices yn aml wedi ymddieithrio o'r ysgol neu'n cael trafferth yn yr ysgol. Er mai prif ffocws Braver Choices yw codi ymwybyddiaeth o arfau, cydnabuwyd bod cysylltiadau uniongyrchol rhwng pobl ifanc sy'n NEET a chario arfau. Felly, mae helpu pobl ifanc i ddychwelyd i'r ysgol yn rhan o'r gwaith a wneir, a chydabyddir bod hyn yn ffactor amddiffynnol i'w hatal rhag cario arfau. Mae Braver Choices hefyd wedi gweithio gyda phobl ifanc y mae rhywun wedi camfanteisio arnynt ac sy'n rhan o gangiau. Drwy gydol y rhaglen, bydd y gweithiwr Ieuencid yn trafod camfanteisio ac yn darparu cyrsiau manylach (a ddarperir gan MAC neu bartneriaid atgyfeirio ehangach) neu'n cyfeirio'r person ifanc atynt, os oes angen. Yn yr achosion hyn, bydd y gweithiwr Ieuencid yn galluogi'r person ifanc i benderfynu a yw am i'w weithiwr cymorth neu weithiwr proffesiynol gwahanol ddarparu'r cymorth hwn. Fodd bynnag, esboniodd y rhanddeiliaid fod pobl ifanc *“yn aml iawn yn cadw at yr un gweithiwr proffesiynol am eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl”*.

“Weithiau mae'n rhaid i ni gynnal ambell sesiwn mynediad er mwyn meithrin y gydberthynas honno cyn y gallwn hyd yn oed feddwl am ddechrau'r rhaglen, oherwydd nes eich bod wedi meithrin y gydberthynas honno, dydyn nhw ddim yn mynd i siarad â chi”

“Mae fy ngweithiwr yn neis iawn ac mae'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel yn ystod ein sesiynau. Mae'n fy rhoi mewn hwyliau da gan ei bod bob amser yn hapus” (PI)

Bydd Braver Choices yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl a phartneriaid er mwyn darparu'r cymorth mwyaf effeithiol i'r person ifanc. Er enghraifft, os bydd person ifanc yn gweithio gyda gweithiwr Ieuencid ac un o weithwyr achos y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, bydd Braver Choices yn cydweithio'n agos â nhw, yn cydlynu'r gwaith ac yn cynnal cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd. Ystyriwyd bod ysgolion yn bartner pwysig, gan mai swyddogion llesiant ysgolion sydd â'r *‘gydberthynas orau’* â'r plentyn/person ifanc yn aml, ac felly gallant hwyluso cydberthnasau rhwng y person ifanc a'r gweithiwr Ieuencid. Bydd Braver Choices hefyd yn cael diweddariadau gan yr heddlu; fodd bynnag, mae hyn yn anghyffredin. Nododd Braver Choices ei bod yn gwneud atgyfeiriadau at Gyrfa Cymru,

Camu i Chwaraeon, Umbrella Cymru, Cerridwen (cymorth emosiynol) a rhaglenni eraill MAC, gan gynnwys gweithgareddau dargyfeirio MAC, gweithgareddau cerddoriaeth a Parallell Lives.

“Os bydda i'n gwybod bod gan y person ifanc weithiwr cymdeithasol, yna bydda i'n anfon cyfarfodydd dal i fyny ac ati a bydda i'n aml yn ymwneud llawer â'r rheini, os ydyn nhw'n rhan o fywyd y person ifanc, sydd bob amser yn dda gan eu bod yn gweld beth sy'n digwydd o ddydd i ddydd”

Cydnabuwyd ei bod yn bwysig ymgysylltu â rhieni (os ydynt yn ymwneud â'r plentyn) er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gwaith y mae Braver Choices yn ei wneud gyda'u plentyn. Bydd staff yn gweithio gydag aelodau teulu i'w cynghori a'u haddysgu am sut i reoli sefyllfa lle maent yn credu bod rhywun yn camfanteisio ar eu plentyn.

“Rydym yn creu cynlluniau diogelwch a phethau y mae angen iddyn nhw gadw llygad amdanynt nhw. Felly, os bydd y plentyn yn dod adref gyda llawer o arian neu ddillad newydd, byddwn yn helpu'r rheini i ddelio â hynny”

Rhwystrau

Cydnabuwyd nifer o rwystrau i ddarparu a gweithredu'r gwasanaeth. Yn aml bydd pobl ifanc yn colli apwyntiadau neu'n canslo ar y funud olaf. Er mwyn goresgyn hyn, mae gweithwyr achos wedi addasu er mwyn gwella cyfranogiad drwy gynnal sesiynau mewn ysgolion, mannau cyhoeddus, ac yn MAC. Cydnabuwyd hefyd fod llawer o sefydliadau yn gweithio gyda phobl ifanc yn aml, a all lethu a drysu'r bobl ifanc ac effeithio ar lefelau ymgysylltu.

Trafododd y rhanddeiliaid y rhwystrau gydag ysgolion, lle na fydd rhai ysgolion yn caniatáu i blentyn neu berson ifanc ddychweyd i'r ysgol nes ei fod wedi cwblhau rhaglen Braver Choices. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr o ystyried y cysylltiadau rhwng NEET a'r risg gynyddol o ddod yn rhan o droseddau cyllyll, ac effeithiau negyddol gwahardd pobl ifanc o'r ysgol. Bydd Braver Choices yn ceisio goresgyn y rhwystr hwn drwy gynnal y sesiynau yn yr ysgol, fel bod yr ysgol yn gallu gweld bod y person ifanc yn cymryd rhan yn y rhaglen heb orfod ei wahardd am 12 wythnos. Cydnabuwyd hefyd fod cario arfau yn bwnc tabŵ, y mae ysgolion yn amharod i fynd i'r afael ag ef. Teimlwyd bod y ffaith nad yw ysgolion yn darparu addysg ar y cyfreithiau sy'n gysylltiedig â chario arfau yn rhwystr gan nad yw pobl ifanc *“yn ymwybodol o'r cyfreithiau na'r hyn y gallan nhw ac na allan nhw ei wneud”*. Caiff hyn ei ddangos gan y cyfryngau, sy'n normaleiddio cario arfau ac yn cael dylanwad mawr ar ymddygiad pobl ifanc.

“Rwy'n credu weithiau fod gan ysgolion yr un meddylfryd â rhieni a'u bod yn meddwl 'os byddwn ni'n siarad am hyn yna bydd pawb yn dechrau cario arfau”

Dywedwyd hefyd fod cyfranogiad rhieni yn rhwystr, o ran rhieni sy'n chwarae rhan rhy amlwg ym mywyd y person ifanc yn ogystal â rhieni nad ydynt yn chwarae unrhyw ran o gwbl. Cydnabuwyd y gall fod yn anodd i rai rhieni gefnogi eu plentyn/person ifanc oherwydd eu profiadau blaenorol o ymgysylltu â gwasanaethau, sydd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol.

“Mae rhai rhieni yn hoffi chwarae gormod o ran ac maen nhw eisiau bod yn rhan o'r sesiwn, a dydyn ni ddim yn gweithio felly”

Effaith

Nodwyd nifer o ganlyniadau ar gyfer y bobl ifanc. Er enghraifft, gwelwyd bod pobl ifanc yn fwy hyderus yn yr ysgol a'u bod yn fwy ymwybodol o'r cyfreithiau a'r ddeddfwriaeth (nad ydynt yn aml yn dysgu amdanynt yn yr ysgol nac yn y cartref). Drwy adborth, dywedodd pobl ifanc nad ydynt yn cario arfau

mwyach. Mae Braver Choices hefyd yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn clybiau y tu allan i'r ysgol, fel Camu i Chwaraeon (MMA/bocsio).

“Mae llawer ohonyn nhw yn llawer mwy hyderus yn yr ysgol. Rydym wedi gweld lefelau ymgysylltu da, ac mae ysgolion yn enghraifft o hynny, ac rydym yn meithrin cydberthnasau ac yn datblygu cydberthnasau gwell â theuluoedd ac yn gwella gwybodaeth am gyfreithiau a deddfwriaethau. Mae llawer ohonyn nhw'n dweud nad ydyn nhw'n dysgu am bethau fel hyn yn yr ysgol, ac mae hynny'n wir. Mae'n gymaint o bwnc tabw”

“Mae gen i ddealltwriaeth well o'r cyfreithiau sy'n gysylltiedig â chario arfau” (PI)

O fewn y teulu, gwelwyd bod cydberthnasau cryfach wedi'u datblygu. Gwelwyd bod pwysau wedi codi oddi ar ysgwyddau teuluoedd ar ôl i'r plentyn/person ifanc gymryd rhan yn rhaglen Braver Choices. At hynny, gwelwyd bod pobl ifanc yn dod yn fodel rôl ar gyfer eu brodyr a'u chwiorydd, a allai atal yr aelodau hyn o'r teulu rhag cario arf.

Ar gyfer gwasanaethau a phartneriaid proffesiynol eraill, mae Braver Choices yn darparu gwasanaeth y gall gweithwyr proffesiynol atgyfeirio ato er mwyn darparu cymorth mwy manwl i ddefnyddwyr gwasanaethau sefydliad allanol. Mae meithrin cydberthnasau ag ysgolion wedi helpu staff i ddarparu'r sesiynau un i un ac mae'n helpu athrawon i greu/addasu cynllun gweithredu i gadw'r person ifanc yn ddiogel. Mae partneriaethau eraill wedi cael budd hefyd, a dengys data fod Braver Choices wedi meithrin cydberthnasau cryfach â phobl ifanc ac asiantaethau, a bod cydberthynas gadarnhaol rhwng MAC a'r heddlu.

“Rwyf wedi cael rhai achosion lle rwyf wedi cwblhau'r cwrs gydag un brawd ac mae e' wedyn wedi cynghori ei frawd arall i beidio â chario un, ac wedi sôn am y cyfreithiau ac ati, sy'n gadarnhaol iawn”

“Dyweddod ychydig o weithwyr proffesiynol ei bod yn dda gan fod llawer o bynciau i ymdrin â nhw yn aml, yn enwedig gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, ac mae'n dda eu bod yn gallu atgyfeirio at bobl allanol a chael cwrs ychydig yn fwy manwl yn hytrach na dim ond trosolwg”

Casglu data

Mae Braver Choices yn defnyddio seren canlyniadau i ddangos cynnydd ers dechrau, canol a diwedd y rhaglen. Credwyd bod y seren canlyniadau yn fuddiol i'r person ifanc gan ei bod yn ei alluogi i weld y cynnydd y mae wedi ei wneud. Mae hefyd yn galluogi staff Braver Choices i weld a yw'r cymorth y maent yn ei ddarparu yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd i'w datblygu. Defnyddir enghreifftiau o gynnydd mewn adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais. Yn ychwanegol at hyn, byddant hefyd yn cwblhau ffurflen mapio bywyd ar ddechrau a diwedd y rhaglen er mwyn nodi meysydd da a lle mae angen rhagor o gymorth, a chaiff y ffurflen hon ei chwblhau eto ar ddiwedd y rhaglen a'i defnyddio i nodi gwelliannau. *“Mae'r sesiynau'n cael eu cofnodi gan ddefnyddio cynlluniau sesiwn, a gall y bobl ifanc ddefnyddio'r rhain i fyfyrio ar eu taith.”* Caiff nodiadau achos eu cadw ar system rheoli achosion ddiogel, a defnyddir adnodd sicrhau ansawdd i hapsamplu'r nodiadau achos. Caiff sesiwn a ffurflen werthuso eu cwblhau gyda'r bobl ifanc er mwyn rhoi'r cyfle iddynt roi adborth ar y rhaglen gan ddefnyddio ffurflen canmoliaethau, cwynion a sylwadau. Cydnabuwyd ei bod yn anodd profi canlyniadau gan nad ydynt yn gweld y person ifanc ar ôl iddo gwblhau'r rhaglen. Teimlwyd y byddai'n amhriodol cysylltu â'r bobl ifanc oherwydd gallai eu hatgoffa o'u gorffennol a pheri iddynt ail-fyw trawma. Serch hynny, nododd y rhanddeiliaid fod y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid yn defnyddio'r un system i gofnodi data ac, felly, bod Braver Choices yn ymwybodol mai nifer bach iawn sy'n dychwelyd drwy'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid oherwydd arfau.

“Mae [y seren canlyniadau] yno er eu budd nhw hefyd, ond mae hefyd yn ein helpu ni i weld p'un a yw'r hyn rydym yn ei wneud yn gweithio ai peidio a meysydd y gallwn eu gwella a phethau a all fod yn broblemau iddyn nhw nad ydym o bosibl yn eu gweld. Felly efallai ei bod yn broblem fwy iddyn nhw, ond nad yw mor fawr i ni. Felly mae'n ein helpu i fonitro'r broblem ac i olrhain beth sy'n digwydd mewn gwirionedd”

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Mae Braver Choices wedi gallu rhoi newidiadau ar waith drwy gydol y rhaglen. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno cynllun casglu a gwaredu arfau yn ddiweddar er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn ildio eu harfau. Mae hefyd wrthi'n trafod â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Bryste er mwyn darparu astudiaeth achos bywyd go iawn ar gyfer y rhaglen. Dengys data chwarterol fod y rhaglen yn treialu gweithdy yn CEF Horsfield er mwyn codi ymwybyddiaeth o gario arfau a chamfanteisio, yn dilyn ceisiadau a hyn gan bobl ifanc.

“Os oes gan berson ifanc arfau y mae am gael gwared arnynt, gall fynd â nhw i orsaf yr heddlu. Ond faint o bobl sy'n mynd i wneud hynny? Mae'n annhebygol iawn ... Rydym wedi gallu creu cynllun casglu a gwaredu arfau”

Awgrymodd Braver Choices fod angen mwy o gyfleoedd yn y gymuned ar bobl ifanc er mwyn lleihau diflastod ac, felly, lleihau trais. Er enghraifft, awgrymodd y rhanddeiliaid fod angen cyllid ychwanegol yn y gymuned i gynnig mwy i bobl ifanc, fel lleoliad y gall pobl ifanc fynd iddo i chwarae gemau.

“Y rheswm pam maen nhw'n mynd i drafferth yw am eu bod yn ddiflas a does dim digon o bethau iddyn nhw eu gwneud. Ac rwy'n credu y byddai hynny'n lleihau trais yn aruthrol. Pe bai mwy o arian iddyn nhw wneud pethau, a phethau nad ydynt yn cynnwys arian”

O ran cynaliadwyedd, mae Braver Choices yn dibynnu ar arian yr Uned Atal Trais am gyllid. Cydnabu'r rhanddeiliaid fod angen pendant am raglen Braver Choices ac, felly, bod angen cyllid ar gyfer y dyfodol.

“Rwy'n gwybod bod angen amdani. Yn bendant. Yn anffodus, mae angen amdani”

Enghraifft astudiaeth achos

Ni all achos X ddarllen nac ysgrifennu ac mae'n NEET ar hyn o bryd. Mae ganddo hefyd ADHD a galluoedd gwybyddol isel. Mae achos X wedi cael llawer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac mae wedi dechrau efelychu ymddygiadau ei rieni, sy'n cynnwys ymddygiad treisgar a gweithgarwch troseddol. Rhoddwyd gorchymyn atgyfeirio i achos X gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ac roedd yn ofynnol iddo gymryd rhan mewn ymyriad i godi ymwybyddiaeth o arfau. Cynigiwyd Braver Choices i'r person ifanc, ac er ein bod yn gweithio ar sail wirfoddol, derbyniodd y person ifanc y cynnig ac mae wedi parhau i ymgysylltu bob pythefnos er mwyn cwblhau'r rhaglen.

I ddechrau, byddai'r person ifanc yn ceisio tynnu sylw'r gweithiwr oddi ar y dasg dan sylw gan ei fod yn poeni na fyddai'n gallu cymryd rhan yn llawn, ac y byddai'n effeithio ar ei orchymyn atgyfeirio. Trafododd y rheolwr achos opsiynau y gallent roi cynnig arnynt er mwyn gweld pa un oedd yn gweithio orau i'r person ifanc. Penderfynwyd y byddai'r ymyriad yn cael ei ddarparu drwy drafodaethau, fideos, astudiaethau achos a thrwy ystyried profiadau blaenorol, ac y byddai'r gweithiwr achos yn gwneud nodiadau ar ei ran. Mae hyn wedi gweithio'n dda, ac mae'r person ifanc wedi ymgysylltu'n well â gweithiwr Braver Choices nag unrhyw un o'i weithwyr cymorth eraill. Mae wedi meithrin cydberthynas dda a hyd yn oed wedi dweud ei fod nawr yn edrych ymlaen at ei sesiynau. Disgwylir y bydd yr achos hwn yn cymryd mwy o amser nag achosion eraill gan fod y sesiynau yn fyrrach ac yn llai aml oherwydd anghenion y person ifanc. Mae'r gweithiwr achos wedi ystyried hyn wrth gynllunio. (*Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Hydref – Rhagfyr 2023*)

Trosolwg

Gwasanaeth rhoi gwybod am droseddau 100% yn ddiennw yw Fearless. Mae'n cynnig llwyfan lle y gall unrhyw un gyflwyno gwybodaeth am droseddau yn ddiennw. Bydd Fearless wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r sefydliad perthnasol, Prif nod y rhaglen yw addysgu pobl ifanc am faterion troseddu a all effeithio arnynt a grymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol, ar sail gwybodaeth, am roi gwybod am droseddau. Mae gweithwyr allgymorth Fearless yn cynnal gweithdai addysgol mewn grwpiau mewn unrhyw leoliad lle mae pobl ifanc yn ymgynnull, fel ysgolion, clybiau ieuencid a digwyddiadau cymunedol. Mae'r gweithdai yn defnyddio dull ataliol, gan drafod ac addysgu pobl ifanc am bynciau fel camfanteisio, troseddau casineb, troseddau cyllyll a llinellau cyffuriau, er mwyn "*herio canfyddiadau pobl ifanc o ddifrifoldeb troseddau gwahanol*". Mae'r gweithdai yn addysgu pobl ifanc nad yw troseddu bob amser yn ddewis, gan ddefnyddio astudiaethau achos bywyd go iawn er mwyn helpu'r bobl ifanc i uniaethu â'r negeseuon a'u gwneud yn ymwybodol o'r risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau troseddol.

"Rwy'n credu bod llawer ohonyn nhw'n meddwl, o na, fyddwn i byth yn ymwneud â delwyr cyffuriau, heb sylweddoli nad yw bod amser yn fater o ddewis"

Gweithredu

Teimlwyd bod angen mawr am Fearless yng Nghaerdydd. Mae data gan Fearless yn dangos bod pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel yn aml yn cael eu hynysu ac y gall fod ganddynt broblemau iechyd meddwl. Cydnabuwyd hefyd fod pandemig COVID-19 wedi cael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl pobl ifanc a theimladau ynysig (er y cydnabuwyd bod hyn yn broblem llai amlwg yn ddiweddar) Credwyd bod y ffactorau hyn yn golygu bod pobl ifanc yn wynebu mwy o risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt am eu bod yn fwy bregus. Mae cyfweiliadau â rhanddeiliaid a data adroddiadau chwarterol yn dangos nad yw nifer sylweddol o bobl ifanc yng Nghaerdydd yn ymddiried yn yr heddlu, yn enwedig cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n bosibl hefyd eu bod wedi cael profiadau andwyol gyda'r heddlu a bod ganddynt ymwybyddiaeth gyfyngedig o ganlyniadau cyfreithiol a'r system cyfiawnder troseddol, sy'n dangos yr angen am lwyfan diennw lle y gall pobl roi gwybod am droseddau. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod Fearless yn gweld cynnydd yn nifer yr achosion mewn ysgolion yr ystyriwyd bod ganddynt gyfoeth economaidd uwch yn hanesyddol, sy'n awgrymu bod cynnydd yn nifer y troseddau cyffuriau ledled Caerdydd ac yn dangos yr angen am Fearless. Mae risgiau cynyddol eraill yn cynnwys presenoldeb cyllyll mewn ysgolion, defnydd uchel o ganabis mewn colegau, fepio mewn ysgolion, a pheryglon y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig TikTok. Yn ystod 2022/23, gwelodd Fearless hefyd risg gynyddol o arfau cartref, fel garanau a chyllyll. At hynny, disgrifiodd y rhanddeiliaid ddiwylliant mawr o beidio â chario straeon yng Nghaerdydd, sydd wedi creu amharodrydd ymhlith pobl ifanc i roi gwybod am unrhyw drosedd, am eu bod yn ofni y bydd eu cyfoedion yn eu galw'n fradwr. Teimlwyd bod angen Fearless yn awr, yn fwy nag erioed oherwydd effeithiau negyddol yr argyfwng costau byw, sydd wedi cynyddu apêl troseddu i'r rheini sydd am wneud mwy o arian.

"Dyweddod un person ifanc wrtha i am ddigwyddiad ar TikTok lle roedd rhywun wedi darlledu ffrwd fyw o rywun yn cael ei guro ... a ffoniodd neb yr heddlu am nad oedden nhw am gael eu targedu nesaf. Dyna pam mae mor bwysig bod llwyfan diennw y gallan nhw ei ddefnyddio i roi gwybod am y digwyddiadau hyn, oherwydd maen nhw'n gwybod bod y pethau hyn yn digwydd ond mae arnyn nhw ormod o ofn mynd i unrhyw le arall, yn enwedig os nad yw pobl yn ymddiried yn yr heddlu"

"Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith enfawr gan fod pobl mewn cymaint o drafferthion fel eu bod yn troi at droseddu"

Mae Fearless yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i roi'r gwasanaeth ar waith a'i ddarparu, gan gynnwys yr ysgolion a'r sefydliadau cymunedol y mae'n darparu'r gwasanaeth ynddynt, ond mae ganddo hefyd amrywiaeth o bartneriaid y tu hwnt i hyn. Llwyddodd Fearless i feithrin cydberthynas â School Beats, a hwylusodd y cydberthnasau yn yr ysgolion y mae'n darparu'r gwasanaeth ynddynt, a llwyddodd hefyd i ffurfio partneriaeth â Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, lle sefydlodd stondin i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth mewn gemau pêl-droed. Ffurfiwyd partneriaeth debyg â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, lle y byddai'n codi ymwybyddiaeth o linellau cyffuriau ar blatfformau gorsafoedd. Mae ganddo hefyd bartneriaeth sefydledig â Cymorth i Ferched Cymru. Mae Fearless yn parhau i ddatblygu partneriaethau; ac roedd yn gweithio i sefydlu partneriaeth ag Ambiwlans Sant Ioan. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gall fod yn anodd ffurfio partneriaethau weithiau oherwydd diffyg capasiti.

Mae gweithwyr allgymorth o Fearless yn cyfarfod â'r Uned Atal Trais ac yn ymuno â chyfarfodydd amlasiantaeth y bydd yr Uned Atal Trais yn bresennol ynddynt. Teimlwyd bod gwaith amlasiantaeth yn fuddiol i ganfod beth mae sefydliadau a gwasanaethau eraill yn ei wneud, ac i feithrin cysylltiadau. Er enghraifft, roedd Fearless wedi bod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag ysgol benodol; ond bu modd iddo gysylltu â phartner mewn cyfarfod amlasiantaeth a wnaeth ei helpu i oresgyn y rhwystrau roedd yn eu hwynebu ac, yn y pen draw, ei alluogi i ddarparu ei sesiynau yn yr ysgol.

"Roeddwn yn rhan o gyfarfod amlasiantaeth ac roedd un ysgol roeddwn yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â hi. Cwrddais â rhywun a wnaeth fy helpu i gysylltu â'r ysgol honno, a oedd yn help mawr. Yn gyfnewid am hynny, bu modd i mi ei helpu i gysylltu â sefydliadau gwahanol roedd wedi ei chael hi'n anodd cysylltu â nhw o'r blaen"

Cyflawni

Mae gweithwyr allgymorth Fearless yn ymweld ag ysgolion a lleoliadau cymunedol i gynnal gweithdai i bobl ifanc. Mae'r gweithdai yn trafod mathau gwahanol o droseddau a chanlyniadau troseddau, o safbwynt cyfreithiol, yn gymdeithasol, yn emosiynol neu gymunedol. Mae'r gweithdai yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys llinellau cyffuriau, troseddau cyllyll, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau casineb ar gyfer ysgolion cyfun. Mae Fearless yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau a fideos i sicrhau bod y cynnwys yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol er mwyn annog cyfranogiad a hwyluso'r dysgu. Mae'r gweithgareddau rhyngweithiol yn cynnwys ymwneud â chyd-fenter, lle mae pump o'r bobl ifanc yn mynd i'r blaen i gymryd rhan mewn perfformiad i ddangos beth fyddai'n digwydd yn y llys. Er mai nod rhaglen Fearless yw atal achosion o drywanu, trais a throseddau, mae Fearless yn cydnabod bod potensial i bobl gael clwyf trywanu ac, felly, ei bod yn bwysig bod pobl ifanc yn gwybod beth i'w wneud i reoli'r sefyllfa yn y ffordd orau posibl. Felly, mae lleihau niwed yn rhan fawr o'r rhaglen. Er enghraifft, *"defnyddio bag llawn dŵr coch i ddangos i bobl ifanc beth i'w wneud os bydd rhywun yn cael ei drywanu. Cydnabuwyd bod plant a phobl ifanc yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, sy'n hwyluso'r dysgu ac yn gosod y sylfaen i symud y sgwrs yn ei blaen i drafod pam y gall rhywun ddod yn rhan o droseddau cyllyll"*. Cydnabuwyd nad oes ar lawer o'r bobl ifanc ofn y system cyfiawnder ac nad ydynt bob amser yn deall y ffyrdd y mae pobl yn dod yn rhan o droseddau. Felly, nod y gweithdai yw addysgu pobl ifanc am gamfanteisio a chanlyniadau troseddau. Mae'r gweithdai hefyd yn trafod sut y gall pobl ifanc gael cymorth os byddant yn rhan o droseddau. Cydnabuwyd bod diwylliant o ymgadw'n ddi-briod yn anwirfoddol yn broblem gyffredin ymhlith pobl ifanc yng Nghaerdydd, ac yn fwy byth ers y pandemig a phresenoldeb dylanwadau sy'n dangos casineb at ferched ar y cyfryngau gymdeithasol. Felly, mae Fearless wedi gweithio gydag un o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gynnal sesiynau ar y

cyd ar droseddau casineb. Mae Fearless yn gweithio i oresgyn diwylliant 'cario straeon' drwy addysgu pobl ifanc am ba mor beryglus y gall fod. Er enghraifft, bydd y gweithwyr allgymorth yn addysgu'r bobl ifanc am fachgen ifanc a fu farw'n drasig ar ôl cael ei drywanu yn y Barri yn dilyn anghydfod ynghylch cyffuriau. Mae Fearless yn defnyddio'r digwyddiad hwn i esbonio pe bai rhywun wedi galw'r heddlu, y gallai canlyniad y sefyllfa fod wedi bod yn wahanol iawn.

"Mae un person yn esgus fy nhrywanu ac yna o ran y pedwar arall, rydym yn dweud bod un ohonyn nhw'n gwybod am y peth. Doedd y tri arall ddim yn gwybod yn yr achos hwn. Byddwn yn gofyn i bawb bleidleisio dros beth fyddai'n digwydd yn y llys i esbonio cydf-fenter ac yna byddwn yn defnyddio'r astudiaeth achos enghraifft bywyd go iawn i fynd drwy hynny"

"Felly dyma beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trywanu. Mae angen i chi gadw'r gyllell yn ei lle. Cyn gynted ag y caiff ei thynnu, mae'r holl ddŵr yn ffrydio allan yn yr un ffordd ag y byddech yn dechrau gwaedu. Mae angen i chi wedyn orchuddio'r clwyf a rhoi pwysau arno nes eich bod yn gallu gweld ychydig o'r dŵr yn dal i ddod allan, ond nid cymaint, er mwyn helpu i'ch cadw'n fyw nes bod yr ambiwlans yn cyrraedd"

"Roedd mudiad Andrew Tate yn ystod COVID yn broblem fawr. Mae'n dal i fod yn gyffredin iawn"

Lle y bo'n bosibl, bydd Fearless yn teilwra'r sesiynau a'r cynnwys i'r ysgol neu'r ardal, gan ddefnyddio ffurflenni adborth a'r problemau y mae'r bobl ifanc wedi eu nodi i lywio'r cynnwys ar gyfer y dyfodol. Felly, mae'r cynnwys yn newid yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol. Bydd gweithwyr allgymorth yn defnyddio llechi electronig yn ystod y sesiynau sy'n gofyn cwestiynau i'r bobl am y cynnwys a addysgwyd ac sy'n rhoi'r cyfle iddynt bleidleisio dros bynciau gwahanol. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr allgymorth i gadarnhau bod y bobl ifanc wedi deall y cynnwys ac yn rhoi esboniad pellach lle bo angen. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal sesiynau i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, a all ei chael hi'n fwy anodd deall y cynnwys. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos cynnydd yn y galw am y gwasanaeth; mae'n dod yn fwy adnabyddus ac wedi'i hyrwyddo ledled Caerdydd drwy'r bartneriaeth. Ar gyfer pob chwarter o'r flwyddyn, mae Fearless yn canolbwyntio ar bwnc penodol; yn ystod 2022-23, roedd hyn yn cynnwys llinellau cyffuriau a throseddau cyffuriau drwy'r sesiynau a gynhaliwyd ar gyfer 18,460 o bobl.

"Rwy'n darllen y ffurflenni adborth bob nos, oherwydd mae'n bosibl y bydda i'n mynd yn ôl i'r un ysgol yr wythnos neu'r diwrnod nesaf. Felly, rwy'n gwybod, os bydd rhywbeth wedi'i nodi, y bydda i'n gallu ei drafod ymhellach, sy'n dda iawn oherwydd mae'n bosibl y bydd yn rhywbeth sy'n benodol i'r ardal honno"

Cydnabuwyd bod pobl ifanc sy'n rhan o droseddau neu sy'n wynebu risg o hynny yn aml yn NEET ac, felly, ei bod yn bwysig bod Fearless yn cynnig darpariaeth mewn lleoliadau cymunedol (e.e. rhaglenni hyfforddiant, grwpiau ieuencid, ac ati.) ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae Fearless hefyd yn Cydweithio ag Ysgolion ac unedau teuluoedd CEF y Parc i gynnig darpariaeth i grwpiau wedi'u targedu. Ochr yn ochr â chynnal gweithdai, teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig uwchsgilio gweithwyr proffesiynol. Bydd gweithwyr allgymorth yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc (fel athrawon, gweithwyr ieuencid, timau gwasanaethau plant, rhieni maeth, a gwirfoddolwyr ieuencid yr heddlu) i'w hyfforddi ar droseddau ieuencid, y ffactorau risg cysylltiedig, a'r arwyddion i gadw llygad amdanynt.

"Rhywbeth y gwnaethom sylweddoli oedd nad yw pobl ifanc sy'n dod yn rhan o hyn yn mynd i fod yn mynd i'r ysgol neu'n cymryd rhan yn y cyfleoedd sydd ar gael gan y gwasanaeth ieuencid"

Caiff y gweithdai eu cynnal wyneb yn wyneb; fodd bynnag, cynhaliwyd sesiynau ar-lein yn dilyn y pandemig ac ar gyfer ysgolion lle mae llawer o'r bobl ifanc yn cario cyllyll. Sesiynau anffurfiol ydynt; teimlwyd ei bod yn bwysig bod gweithwyr allgymorth Fearless yn ystyried iaith y gweithdy a'r arddull gyflwyno. Teimlwyd bod gwneud y cynnwys mor berthnasol a dealladwy i bobl ifanc yn un o ffactorau hwyluso'r gwasanaeth. Ffactor hwyluso arall a amlinellwyd mewn adroddiadau chwarterol ac yn ystod trafodaethau â'r rhanddeiliaid oedd y ffaith bod y gwasanaeth yn un annibynnol (heb gysylltiad â'r heddlu), oherwydd diffyg ymddiriedaeth pobl ifanc yn yr heddlu. Cydnabuwyd eu bod *"yn meddwl mai'r heddlu ydym i ddechrau a dydyn nhw ddim yn ein hoffi, ac mae'r awyrgylch yn newid pan fyddwn yn dweud mai elusen ydym"*.

"Rwy'n credu bod llawer o bobl ifanc yn gwerthfawrogi pa mor anffurfiol ydyw"

"Mae'r bobl ifanc hefyd yn gwybod nad athro ydych chi felly maen nhw'n dweud mwy wrthyhch"

Gan nad yw Fearless yn gweithio ar sail un i un gyda phobl ifanc, nid yw'n gwneud atgyfeiriadau uniongyrchol; fodd bynnag, bydd yn cyfeirio pobl ifanc at ei wefan ac at wasanaethau eraill, fel Crimestoppers, Cymdeithas y Plant, ChildLine, a'r heddlu.

Dywed Fearless ei fod wedi gweld tueddiadau ac anghenion gwahanol yn y gymuned. Roedd yn ymdopi ag effeithiau pandemig COVID-19 a'r ynysu a wynebodd pobl ifanc o ganlyniad i hyn, ond teimlwyd bod hyn yn llai o broblem erbyn hyn. Mae ffurflenni adborth diweddar yn dangos bod pobl ifanc yn ofni ac yn poeni am broblemau gwahanol erbyn hyn ac, felly, mae Fearless wedi diweddarau ac addasu ei sesiynau i'r problemau y mae pobl ifanc yn eu gweld yn eu hysgol a'u gymuned. Er enghraifft, esboniodd gweithwyr allgymorth fod fêps a beiciau/sgwteri trydan yn broblem gyffredin ar hyn o bryd lle mae'n gweld achosion o gamfanteisio ar bobl ifanc.

"Rwy'n darllen y ffurflenni adborth ar ôl pob sesiwn ac rwy'n gweld beth roedd pobl yn ei hoffi, beth nad oedd pobl yn ei ddeall o bosibl, a lle y galla i wella. Felly rwyf wedi newid fy sesiynau yn unol â hynny"

"Bydda i'n siarad am y ffyrdd mae pobl ifanc wedi cael eu cynnwys mewn troseddau drwy fêps, sy'n gyffredin iawn ar hyn o bryd. Rwy'n dweud os bydd rhywun yn barod i brynu rhywbeth anghyfreithlon i chi, beth yw'r rheswm y tu ôl i hynny? Er enghraifft, pe bai rhywun yn cynnig i chi fynd i smygu gydag ef yn hwyrach ac wedyn yn dweud wrthyhch chi, iawn, mae arnon ni £200 i fy neliwr. Beth fyddech chi'n ei wneud? Sut fyddech chi'n talu'r arian yn ôl? Mae'n hawdd dod yn rhan o'r pethau hyn"

Mae'r sesiynau wedi dod yn fwyfwy rhyngweithiol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau'n cael eu defnyddio i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y sesiynau. Er mwyn hwyluso hyn ymhellach, mae gweithwyr allgymorth wedi newid y broses gyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal y sesiynau ar droseddau cyllyll yn gyntaf, oherwydd gwelwyd bod hyn yn hoelio sylw pobl ifanc o'r dechrau, gan ddefnyddio gweithgareddau rhyngweithiol fel y perfformiad cyd-fenter a'r arddangosiad ar sut i ddelio ag achos o drywanu gan ddefnyddio bag wedi'i lenwi â dŵr coch i hoelio sylw'r bobl ifanc fel y trafodwyd.

"Mae angen iddo fod mor rhyngweithiol â phosibl"

Mae Fearless wedi gwneud cryn ymdrech i feithrin cydberthnasau â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ledled Caerdydd ac, felly, mae'n cael ei gydnabod yn eang fel gwasanaeth yn y gymuned.

O ganlyniad, nid oes rhaid i Fearless dreulio cymaint o amser yn meithrin cyberthnasau â'r bobl ifanc ag y byddent wedi ei wneud yn y gorffennol. Mae partneriaethau â gwasanaethau a sefydliadau wedi datblygu hefyd. Cydnabuwyd bod gan Fearless bartneriaeth gref â Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd o hyd; fodd bynnag, mae nifer o bartneriaethau eraill wedi newid. Mae nifer o bartneriaid wedi colli cyllid, sydd wedi atal y bartneriaeth rhag parhau. Er enghraifft, mae partneriaethau â Cymorth i Ferched a School Beats wedi chwalu am fod cyllid o fewn y gwasanaethau hy wedi dod i ben. Hefyd, nid yw Fearless yn gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mwyach. Yn y gorffen, roedd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ariannu gweithiwr allgymorth Fearless, a oedd wedi hwyluso gweithdai a gwaith mewn gorsafoedd trenau; fodd bynnag, gan nad yw'n ariannu'r swydd hon mwyach, nid yw Fearless wedi gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (er ei fod yn dal i wneud rhywfaint o waith mewn gorsafoedd trenau).

O ran partneriaethau newydd, un o bartneriaethau mwyaf Fearless ar hyn o bryd yw ei bartneriaeth â Phrosiect Pheonix, sef cwrs pum diwrnod lle bydd pobl ifanc yn dysgu am y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r ffordd mae'n ymgysylltu â'r gymuned. Mae Fearless hefyd wedi ffurfio partneriaeth gref â'r YMCA a hostelau yng Nghaerdydd, ac mae hyn wedi bod yn fuddiol i'w alluogi i gynnal gweithdai i blant y tu allan i'r ysgol. Mae partneriaeth gref â RugbyWorks hefyd wedi'i ffurfio. Mae'r sefydliad hwn yn addysgu arweinyddiaeth drwy chwaraeon a bydd Fearless yn cynnal gweithdai fel rhan o'r rhaglen hon. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd bod gan Fearless bartneriaeth dda â'r GIG a'i fod wedi darparu hyfforddiant i nyrsys y GIG. Mae Fearless yn parhau i ffurfio partneriaethau newydd; mae wrthi'n gweithio i ffurfio partneriaeth ag Ambiwlans Sant Ioan a'r eglwys.

Rhwystrau

Nodwyd bod gwneud y cyswllt cyntaf ag ysgolion yn rhwystr am fod yn rhaid dod o hyd i bwynt cyswllt ar gyfer yr ysgol yn aml, fel gweithiwr ieuencid neu'r pennaeth llesiant, cyn y bydd yr ysgol yn ystyried caniatáu i Fearless ymweld. Roedd hyn yn arbennig o anodd ar y dechrau gan nad oedd enw 'Fearless' wedi'i sefydlu nac yn adnabyddus. Er gwaethaf hyn, teimlwyd ei fod wedi goresgyn y rhwystrau hyn gan ei fod wedi cynnal gweithdai yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd (dim ond yn Saesneg y gall Fearless gynnal sesiynau, ac felly, ni all ddarparu'r gwasanaeth i ysgolion Cymraeg). Cydnabuwyd bod diffyg capasiti yn rhwystr hefyd o ran capasiti staff yn ogystal â chapasiti o fewn calendr yr ysgol. Teimlwyd bod y diffyg capasiti hwn yn atal partneriaethau rhag cael eu ffurfio gan nad oes ganddo'r amser i weithio gyda gwasanaethau a sefydliadau eraill cymaint ag y byddai'n ei ddymuno. At hynny, mae calendr yr ysgol yn golygu na fydd ysgolion yn aml am gael sesiynau yn ystod cyfnodau arholiadau.

"Mae'n eithaf anodd creu'r cyswllt cyntaf weithiau, oherwydd os byddwch chi'n ffonio'r dderbynfa, dydyn nhw ddim yn mynd i roi manylion cyswllt i chi. Felly, mae'n fater o geisio rhyngweithio â rhywun sy'n digwydd bod yn weithiwr ieuencid neu'n bennaeth llesiant yn yr ysgol"

Wrth gynnal gweithdai, mae cyfraddau llythrennedd isel pobl ifanc wedi bod yn rhwystr gan fod rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd darllen y cyflwyniadau. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd gweithwyr Fearless yn addasu arddull gyflwyno'r gweithdy er mwyn annog y bobl ifanc i eistedd a chymryd rhan mewn trafodaethau. At hynny, nodwyd nad yw bob amser yn llwyddo i gyrraedd y bobl ifanc y mae am siarad â nhw gan eu bod o bosibl yn NEET. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i Fearless gynnal sesiynau mewn sefydliadau ar wahân i rai addysg er mwyn cyrraedd cymaint o bobl ifanc â phosibl. Serch hynny, nid yw bob amser yn bosibl i weithwyr allgymorth Fearless gynnal sesiynau mewn lleoliadau amgen gan nad ystyrir bod rhai lleoliadau yn ddiogel iddynt wneud hynny, yn enwedig pan fyddant yn gweithio'n unigol. Hefyd, mae'n bosibl bod rhai pobl ifanc yn ynysu eu hunain yn fwiadol os byddant yn teimlo'n anniogel yn y gymuned, sy'n ei gwneud hi'n anodd i Fearless eu cyrraedd. At

hynny, cydnabuwyd bod troseddoldeb yn cael ei glamoreiddio yn y cyfryngau, a bod hyn wedi newid canfyddiad pobl ifanc o droseddu.

"Mae cyfraddau llythrennedd isel iawn mewn rhai o'r ardaloedd rydym yn ymweld â nhw. Felly pan fyddwch chi'n dangos cyflwyniad, allan nhw ddim ei ddarllen"

"Rydym yn ceisio cysylltu â mwy o leoliadau amgen, ond weithiau efallai y byddan nhw'n dweud nad yw'n ddiogel i ni ymweld ar hyn o bryd am fod rhywbeth wedi digwydd ac am ein bod yn gweithio'n unigol"

"Mae pethau'n mynd yn anodd os nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol. Sut gallwn ni gysylltu â nhw os oes arnyn nhw ormod o ofn mynd i glwb ieuenctid am fod yn rhaid iddyn nhw siarad? Sut gallwn ni gysylltu â nhw? Oherwydd allwn ni ddim mynd i dŷ pob unigolyn"

"Mae'n cael ei glamoreiddio ar y cyfryngau hefyd. Dyw pobl ifanc ddim yn sylweddoli'r canlyniadau"

Effaith

Mae Fearless yn gweld amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar ôl cynnal ei weithdai a chynnig llwyfan dienw i roi gwybod am droseddau. Amlinellodd adroddiadau chwarterol a thrafodaethau â'r rhanddeiliaid mai un o'r effeithiau mwyaf sylweddol oedd bod gan bobl ifanc wybodaeth a dealltwriaeth well o risgiau troseddu a mwy o hyder i roi gwybod am droseddau. Esboniodd y rhanddeiliaid nad yw pobl ifanc, cyn iddynt ymwneud â Fearless, yn aml yn gwybod y gallant gael eu dwyn i gyfrif am gyflawni trosedd, ond eu bod, ar ôl y gweithdai, yn deall canlyniadau bod yn rhan o droseddau. At hynny, mae adborth gan bobl ifanc yn dangos eu bod yn llai tebygol o gario cylllell yn dilyn y gweithdai. Er bod ymatebion negyddol i roi gwybod am droseddau i ddechrau, oherwydd y canfyddiad Saesneg *'snitches get stitches'* a phryderon ynghylch rhoi gwybod i Fearless yn ddiennw, mae data adroddiadau chwarterol yn dangos newidiadau mewn agweddau yn dilyn y gweithdai a thrafodaethau rhwng pobl ifanc a gweithwyr allgymorth; byddai 66% yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am drosedd drwy ffurflen ar-lein ddiogel, a dywedodd y gweddill y byddent 'efallai' yn hyderus i wneud hynny. At hynny, dywedodd 100% y byddent yn defnyddio fearless.org i roi gwybod am drosedd yn ddiennw.

Oherwydd yr amgylchedd cyfforddus anffurfiol a grëir yn ystod gweithdai, mae gweithwyr achos Fearless yn ennyn hyder y bobl ifanc ac yn meithrin cydberthynas â nhw. Cydnabuwyd y bydd pobl ifanc yn aml yn gwneud cyfaddefiadau am sefyllfaoedd y maent wedi bod yn rhan ohonynt, y maent bellach yn cydnabod eu bod yn anghyfreithlon neu'n anghywir, ac yn addo y byddant yn newid eu hymddygiad. Mae hyn yn dangos gallu Fearless i hwyluso amgylchedd cyfforddus a diddorol i newid gwybodaeth ac ymddygiad yn effeithiol.

"Gan ein bod wedi creu amgylchedd mor anffurfiol, mae llawer o bobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus i ddweud wrthym am y pethau maen nhw'n eu gweld yn eu hamgylchedd, beth sy'n codi ofn arnyn nhw, a beth maen nhw'n poeni amdano"

Ar hyn o bryd, mae Fearless yn casglu data ansoddol a meintiol; er mai drwy ddata ansoddol y dangosir effaith yn bennaf, er enghraifft nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn sesiynau a nifer y bobl sy'n ymweld â'r wefan. Bydd pobl ifanc hefyd yn cwblhau holiadur cyn ac ar ôl gweithdai er mwyn mesur newidiadau mewn gwybodaeth drwy ofyn 'Rwy'n deall beth mae camfanteisio yn ei olygu', 'Rwy'n gwybod sut i ofyn am gymorth ac ati', 'Rwy'n deall y cyfreithiau ar brynu, cario, defnyddio arf ymosodol ac ati', 'Rwy'n gwybod beth yw drosedd gasineb'. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos mai dealltwriaeth niwtral neu ychydig o ddealltwriaeth sydd gan bobl ifanc cyn y gweithdai, a bod gan fwy na 90% ohonynt ddealltwriaeth well ar eu hôl. Cesglir data ansoddol hefyd drwy arolygon ar ddiwedd

pob gweithdy er mwyn dangos newidiadau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r arolygon yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc roi adborth ar y sesiwn, a chydabuwyd bod hyn yn gyfle da i gasglu data ansoddol. Er enghraifft, dywedodd pobl ifanc cymaint mae'r gweithdy wedi newid eu meddylfryd tuag at droseddu. Cydnabuwyd hefyd fod y ffurflenni adborth yn ffordd dda o ddeall pa broblemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, sy'n galluogi Fearless i ddatblygu sesiynau yn barhaus. Er enghraifft, esboniodd y rhanddeiliaid fod un myfyriwr wedi defnyddio'r ffurflen adborth i ofyn am sesiwn ar droseddau gynnu gan ei fod yn ymwybodol o'r broblem hon yn yr ysgol. At hynny, gall gweithwyr allgymorth Fearless hefyd ddefnyddio gwybodaeth o'r ffurflenni adborth i roi gwybod i athrawon am unrhyw broblemau a nodwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn i gadw llygad amdano a rheoli risgiau yn yr ysgol.

"Rwyf wedi cael un [ffurflen adborth] yn dweud 'mae hyn wedi newid pethau i mi, doeddwn i ddim yn gwybod hyn, mae angen i mi newid'"

Gwnaeth nifer o argymhellion ynglŷn â'r ffordd y caiff effaith ei mesur. Nodwyd y dylai casglu adborth ansoddol fod yn flaenoriaeth gan fod galluogi pobl ifanc i rannu eu profiadau a'u canfyddiadau yn ffordd bwerus o ddangos effaith. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn anodd cynnwys data ansoddol mewn adroddiadau oherwydd cyfrifon geiriau bach. Hefyd, mae rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ateb cwestiynau ar ffurflenni adborth, p'un a yw hynny o ganlyniad i lefel llythrennedd isel neu am resymau eraill. Nodwyd bod pobl ifanc wedi ysgrifennu cerddi neu wedi creu darnau o gelf yn y gorffennol, yn hytrach na llenwi'r ffurflen, ac nad yw Fearless yn gallu defnyddio'r rhain i ddangos effaith. Felly, awgrymwyd y dylid caniatáu dulliau amgen o gynnwys effaith. Trafododd y rhanddeiliaid hefyd adeg pan roeddent wedi cynnal sesiynau gyda myfyrwyr ag anhwylder diffyg canolbwytio. Roedd yr athro wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y sesiwn ac wedi nodi ei syndod bod y myfyrwyr wedi llwyddo i eistedd drwy'r gweithdy heb darfu fawr ddim. Serch hynny, cydnabuwyd nad yw'r myfyrwyr hyn yn debygol o lenwi ffurflen adborth ac, felly, na all Fearless ddangos yr effaith.

"Pan fyddwch chi'n ceisio esbonio mewn ffurflen adborth sy'n gofyn am faint y cyfeiriad er mwyn sicrhau eich cyllid, dyw cartŵn ddim yn dangos yr effaith rydych wedi ei chael ar y bobl ifanc hyn"

"Pan ddaeth yr athro i'm gweld ar ôl y sesiwn, roedd bron yn ei dagrau am ei bod mor falch o'r sesiwn. Ond mae'n anodd dangos hynny"

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Teimlwyd bod cynaliadwyedd Fearless yn dibynnu ar gyllid tymor hwy. Ar hyn o bryd, mae Fearless yn cael cyllid yn flynyddol, a chydabuwyd bod hyn yn broblematig i'r staff, yn bersonol ac yn broffesiynol. Argymhellwyd y dylid darparu cyllid am gyfnod o dair blynedd er mwyn cynyddu cynaliadwyedd staff, gan fod amwysedd cyllid o flwyddyn i flwyddyn ar hyn o bryd yn creu ansicrwydd i aelodau'r staff o ran a fydd ganddynt swydd yn y dyfodol, ac wedi achosi i staff adael yn y gorffennol. Trafodwyd y cyfle i gael cyllid tymor hwy er mwyn rhoi sicrwydd i staff, yn arbennig yn ystod cyfnod anodd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Yn ogystal â hyn, byddai cyllid tymor hwy yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac ehangu gan y byddai'n gallu gweithio drwy raglen gydag ysgolion yn y tymor hwy yn cynnwys ymweliadau mynych ar gyfer anghenion gwahanol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd deall graddau ac effaith trais yng Nghymru er mwyn sicrhau bod mesurau ataliol ac ymyriadau, fel Fearless, yn parhau i gael eu rhoi ar waith a'u darparu.

"Byddai'n dda iawn cael cyllid am dair blynedd, oherwydd rwyf ar bigau'r drain bob mis Mehefin, a ydw i'n trefnu sesiynau ar gyfer mis Medi, a fydd gen i swydd bryd hynny?"

Ymhlith yr argymhellion eraill roedd y potensial i gynnal sesiynau ar gyfer grwpiau llai. Er y cydnabuwyd bod cynnal sesiynau ar gyfer grwpiau mwy yn edrych yn fwy sylweddol o ran niferoedd, teimlwyd bod sesiynau gyda grwpiau yn sicrhau mwy o effaith drwy hwyluso awyrgylch mwy anffurfiol lle mae'r bobl ifanc yn teimlo'n fwy cyfforddus ac, felly, yn fwy tebygol o ofyn cwestiynau a deall y pynciau yn well. Yn benodol, argymhellwyd y dylid cynnal y sesiynau gyda grwpiau llai, wedi'u targedu, o bobl ifanc sy'n wynebu mwy o risg o ddod yn rhan o droseddau, yn hytrach na'r grŵp blwyddyn cyfan. Er bod pobl ifanc yn cael y cyfle i ofyn cwestiynau wrth gynnal sesiwn yn ystod gwasanaeth, cydnabuwyd ei fod yn awyrgylch bygythiol lle mae'n fwy anodd hwyluso trafodaeth agored.

“Os bydda i mewn ystafell ddosbarth, bydd 30 o blant, a dyw hynny ddim yn edrych hanner cystal â sesiwn gyda 500 o blant. Bydd y 30 o blant hynny yn gofyn cwestiynau, ac rydych chi'n mynd i gyflawni llawer mwy ... mae'n amgylchedd mwy ffurfiol”

Trosolwg

Mae'r Tîm Atal Trais wedi'i leoli yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru ers 2019, ac mae'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o gyffredinrwydd derbyniadau sy'n gysylltiedig â chyllid a thrais. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy gynnal sesiynau addysg a hyfforddiant yn uniongyrchol ar gyfer staff yr Uned Damweiniau ac Achosion Brys yn ogystal ag aelodau eraill o staff y Bwrdd Iechyd Prifysgol a nyrsys newydd, a rhaglenni hyfforddiant i feddygon dan hyfforddiant. Mae hefyd wedi'i gyflawni drwy greu llwybr atgyfeirio a darparu presenoldeb gweladwy yn yr adran i helpu gydag ymholiadau. Mae'r tîm wedi bod yn galluogi'r staff i adnabod anafiadau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o drais a sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth ag asiantaethau priodol, yn ogystal â sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn ar gyfer pob claf yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r tîm yn ceisio ymgysylltu â chleifion yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys (mae hyn yn cynnwys yr ysbyty cleifion mewnlol, yr Ysbyty Plant a'r Uned Mân Anafiadau) sy'n cyrraedd gydag anaf sy'n gysylltiedig â thrais, o unrhyw oedran neu rywedd, er mwyn darparu cymorth parhaus iddynt a'u cyfeirio at wasanaethau priodol. Mae hefyd yn ymgysylltu â'r rheini sydd wedi cymryd gorddos, a all wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt, y rheini sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol a'r rheini y gall fod ganddynt anafiadau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun.

"[Mae'r Tîm Atal Trais] yn cefnogi unrhyw glaf sy'n dod i'r adran gydag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais o unrhyw fath. Dynion, menywod, plant, unrhyw oedran, unrhyw rywedd. Weithiau rydym yn gweld cleifion sydd wedi cymryd gorddos o gyffuriau hamdden, ond sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt nhw, byddem yn eu nodi ... rydym hefyd yn cefnogi dioddefwyr ymosodiadau rhywiol, ac unrhyw un sy'n dod i'r adran gydag anafiadau wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun, er enghraifft drwy ddyrnu wal"

Gweithredu

Mae'r Tîm Atal Trais yn cael ei gyllido gan yr Uned Atal Trais a'r Bwrdd Atal Trais. Ers 2019, mae'r Uned Atal Trais wedi darparu cyllid am 1+1+3 blynedd, gan fynd â'r Tîm i 2024. Mae'r tîm yn cynnwys Nyrs Eiriolwr (llawnamser; cafodd ei secondio o'r GIG yn wreiddiol ond mae bellach yn gwbl gyflogedig gan yr Uned Atal Trais [ers COVID-19]) a dwy nyrs gymwysedig (rhan-amser). Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio ym mhob rhan o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys rhwng 6am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nodwyd nad oes unrhyw ddarpariaeth iechyd arall yng Nghaerdydd sy'n cynnig y math hwn o gymorth. Tuag at ddiwedd 2021, datblygodd y Tîm Atal Trais lwybr triniaeth a chymorth ar gyfer cleifion wedi'u sbeicio yn dilyn cynnydd yn nifer y cleifion a oedd yn dod i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn pryderu eu bod wedi cael eu sbeicio, ac yn gynnar yn 2022, cynigiodd gymorth a chanllawiau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a ddechreuodd datblygu chwaer-wasanaeth.

"Mae'r Tîm Atal Trais yn cynnig dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal achosion o drais difrifol a mynd i'r afael â nhw. Drwy fanteisio ar bartneriaethau ag asiantaethau eraill, rydym yn sicrhau bod gwaith a newid hirdymor yn bosibl i bob person. Mae'r tîm yn trafod cymorth parhaus posibl, a gyda chydysyniad y claf, yn gwneud atgyfeiriadau ar ei ran, ac yna'n mynd gyda'r unigolyn i'r cyfarfodydd cychwynnol er mwyn sicrhau ei fod yn trosglwyddo'n ddiraffferth"

Cyflawni

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau oedran ar y bobl y mae'r Tîm Atal Trais yn ymgysylltu â nhw yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Yng Nghaerdydd, pennwyd terfyn o 25 oed i ddechrau, ond dangosodd y proffil demograffig mai ymhlith pobl dros 25 oed yr oedd y nifer mwyaf o achosion o drywanu a throeddau cylllyll (nid yw hynny'n wir mwyach ers pandemig COVID-19), felly cafodd y cwmbras ei ymestyn. Teimlwyd bod y ffaith bod y tîm wedi'i leoli mewn lleoliad iechyd yn golygu y gallai *'weithio mewn ffordd wahanol iawn ... a gosod ein paramedrau ein hunain'*. Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng cydweithwyr yng Nghaerdydd, yr Alban a Llundain sy'n cyflawni rolau tebyg gyda chyfyngiadau oedran (er enghraifft A&E Navigators, gwasanaethau St Giles) er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd a helpu i ddatblygu ymyriadau. Yn dilyn cynnydd yn nifer yr oedolion ifanc (16-17 oed) a oedd yn mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, gweithiodd y Tîm Atal Trais hefyd i addysgu staff am anghenion y grŵp cleifion hwn a sut i ofalu amdanynt a'u diogelu'n briodol.

Caiff atgyfeiriadau at y Tîm Atal Trais eu nodi drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a ffynonellau eraill, gan gynnwys data ar ymosodiadau (gan ddefnyddio Model Caerdydd) i wirio am atgyfeiriadau a gollwyd, ac yn anffurfiol drwy negeseuon e-bost a chyfarfodydd trosglwyddiadau rhwng cydweithwyr yn yr Adran a derbyniadau i wardiau. Daw atgyfeiriadau gan nifer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys: Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru, y Bwrdd Iechyd Prifysgol, cyfarfodydd diogelu plant a phobl ifanc, yr Ysbyty Plant, Uned Mân Anafiadau y Barri, darpariaethau iechyd cymunedol, a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol sy'n gweithio ym maes iechyd. Pan fydd y claf yn sefydlog, bydd staff y Tîm Atal Trais yn ceisio ymgysylltu â'r unigolyn. Mae'r tîm yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y claf o gasglu gwybodaeth am ei sefyllfa, ei brofiadau bwyd, a'i feddyliau ynghylch newidiadau mewn bywyd. Mae hefyd yn ystyried dymuniadau ac anghenion y claf. Ymgysylltir â'r tîm ar sail wirfoddol, a theimlwyd bod hyn yn un o ffactorau hwyluso'r rhaglen. Rhoddir cyngor, cymorth ac arweiniad i gleifion ag anafiadau sy'n gysylltiedig â throeddau treisgar, cyffuriau a chylllyll. Mae'r tîm yn gweithio gyda dioddefwyr i'w cymell i symud i ffwrdd oddi wrth ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig â thrais drwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dargyfeirio.

"Does dim rhaid iddyn nhw weithio gyda ni a dyna fantais ein gwasanaeth oherwydd am ryw reswm rhyfedd, drwy wybod nad oes rhaid iddyn nhw weithio gyda ni, maen nhw'n fwy tebygol o wneud hynny am nad ydyn ni'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud"

"Mae cleifion yn cael eu nodi drwy atgyfeiriadau gan staff yn yr adran. Felly rydym yn rhoi llawer o hyfforddiant i'n nyrsys a'n meddygon."

Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn yr Adran Damweiniau ac Achosion brys er mwyn ymgysylltu â'r claf yn syth; bydd y staff yn cael hyfforddiant i gwblhau asesiad y Tîm Atal Trais y tu allan i oriau gwaith arferol. Bydd y Tîm Atal Trais yn parhau i ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth tra bydd yn yr adran er mwyn meithrin cydberthynas ac annog atgyfeiriad. Gall hyn hefyd gynnwys rhoi cymorth i gleifion ac aelodau eraill o'r teulu. Caiff yr holl ryngweithiadau, galwadau ffôn a chyfarfodydd eu dogfennu mewn nodiadau achos ar ffeil achos PARIS⁵ y claf. Bydd y Tîm Atal Trais yn cysylltu â'r claf ar ôl iddo gael ei ryddhau er mwyn sicrhau bod y cymorth parhaus a drefnwyd ar waith neu ganfod a oes angen atgyfeiriadau neu gymorth pellach.

"Rydym yn hyderus iawn erbyn hyn; mae'r tîm wedi rhoi digon o hyfforddiant i'r staff i'w galluogi i reoli sefyllfa yno ac yna y tu allan i oriau, a bydd y tîm yn ailafael mewn pethau pan fydd yn ôl yn y gwaith"

⁵[https://www.civica.com/en-gb/product-pages/electronic-patient-record-software/#:~:text=Civica%20Care%20Records%20\(formerly%20Paris,of%20an%20agreed%20care%20plan.](https://www.civica.com/en-gb/product-pages/electronic-patient-record-software/#:~:text=Civica%20Care%20Records%20(formerly%20Paris,of%20an%20agreed%20care%20plan.)

O ran pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel, pobl ifanc dan 25 oed a phobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt neu'n eu trywanu, mae'r Tîm Atal Trais hefyd yn gweithio gyda Gweithredu dros Blant, sydd wedi'i gyllido gan yr Uned Atal Trais, drwy lwybr atgyfeirio dynodedig i ddarparu cymorth un i un dwys. Nid oes terfyn amser ar y cymorth hwn, e.e. ar ôl 12 wythnos byddwch yn cael eich rhyddhau o gymorth ond yn lle hynny, bydd cymorth cam i lawr yn cael ei ddarparu. Mae Gweithredu dros Blant wedi cael ei gyllido gan yr Uned Atal Trais ers 2020 i gyllido gweithwyr achos yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae gweithwyr achos Gweithredu dros Blant yn darparu cymorth dwys i blant a phobl ifanc sy'n dod i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda'r nod o sefydlogi'r person ifanc – *"Os byddwn yn sefydlogi'r un peth hwn, bydd yn effeithio ar bopeth arall"* Mae'r cymorth yn defnyddio dull gweithiwr ieuentid ac mae'n cael ei arwain gan y person ifanc. Fel gwaith yr Uned Atal Trais, mae gweithio gyda Gweithredu dros Blant yn wirfoddol. Mae pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio at Gweithredu dros Blant gan yr Uned Atal Trais, sy'n adolygu ei atgyfeiriadau yn rheolaidd ac yn nodi unrhyw bobl ifanc y mae angen cymorth dwysach. Mae'r tîm yn cynnwys cydlynnydd gwasanaethau'r Uned Atal Trais a dau weithiwr achos, y mae gan y tri ohonynt lwyth achosion ar hyn o bryd oherwydd y galw. Mae'r tîm yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener a bydd unrhyw achosion sy'n cyrraedd dros y penwythnos yn cael eu trosglwyddo i'r tîm ar y dydd Llun canlynol. Esboniodd y rhanddeiliaid eu bod yn gweld achosion cymhleth sydd ag amrywiaeth o anghenion amrywiol. Mae Gweithredu dros Blant yn chwarae rôl bwysig wrth eirioli dros y bobl ifanc hyn a *"dal eu llaw drwy'r cyfan"*. Mae'r tîm yn gweithio i ymgorffori diogelu cyd-destunol drwy gydol y cyfnod y bydd yn ymgysylltu â'r bobl ifanc. Yn ychwanegol at weithio gyda'r bobl ifanc, bydd Gweithredu dros Blant hefyd yn cynnig cymorth i'r rhieni/teulu, a all hefyd fod yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Yn debyg i'r Tîm Atal Trais, mae Gweithredu dros Blant yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuentid, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau plant, sefydliadau iechyd, ysgolion, colegau, gwasanaethau oedolion, ac asiantaethau masnachu mewn plant annibynnol – *"Felly unrhyw un a oedd yn ymwneud â'r person ifanc neu a all helpu i ddiogelu'r person ifanc."*

"Mae'n fater o ddal llaw'r person ifanc drwy'r triog ac eirioli drosto a dweud nad yw hyn yn ddigon da"

O fewn yr uchod nodwyd pwysigrwydd gallu meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â chleifion, yn enwedig y rheini gallai rhywun fod wedi camfanteisio arnynt neu sydd wedi cael profiad gwael wrth ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn y gorffennol. Nodwyd bod cyfathrebu agored a gonest â'r person ifanc yn ffactor allweddol i hwyluso hyn. Teimlwyd y gallai gwaith y Tîm Atal Trais ganolbwyntio ar help cynnar ac atal er mwyn torri cylch trais cenedliadol, drwy gynnig cyfleoedd a dangos empathi tuag at y person ifanc a'i sefyllfa – *"Yr hyn sy'n gweithio'n dda yw ein bod yn siarad yn obeithiol hefyd ac yn dweud llawer o bethau da wrthyn nhw ac am eu bywydau, a'n bod yn gallu dangos empathi tuag at y sefyllfa bresennol, ac mae'n beth mawr cydnabod bod honno'n sefyllfa dda i ddim"*.

"Mae'n golygu bod yn wyneb cyfarwydd, meithrin y gydberthynas honno yn yr ysbyty a gwybod nad ni yw'r heddlu neu'r gwasanaethau plant neu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuentid, a'n bod yno i eirioli drostyn nhw. A dyna ein rôl beth bynnag fo'r sefyllfa, ac rydym yn cael y sgwrs p'un a yw hyn yn rhywbeth y gwnaethoch chi ei ddechrau ai peidio; nid mater i ni yw eich troseddoli. Ein rôl ni yw eich cefnogi fel dioddefwr. Ac os bydd canlyniadau o ran yr heddlu, byddwn yn mynd drwy'r canlyniadau hynny gyda chi"

"Rydym yn gofyn iddyn nhw [y bobl ifanc] beth sydd ei angen arnynt nhw, beth maen nhw ei eisiau, ac yn eu hannog os nad ydyn nhw'n gwybod beth sydd ei angen arnynt nhw neu beth maen nhw ei eisiau, rhoi cyfleoedd iddyn nhw"

“Mae'n bwysig iawn eu bod yn gwybod 'byddwn ni'n onest gyda chi, byddwn ni'n herio os byddwn ni'n gwybod eich bod chi'n gwybod nad yw pethau'n iawn, ond rydyn ni yno i'ch cefnogi” Ac mae hyn yn rhywbeth sy'n agor y drws i feithrin ein cydberthynas oherwydd dydyn nhw ddim wedi arfer â hynny”

“Os nad oes gennych chi unrhyw gydberthynas, fyddwch chi ddim yn cyflawni llawer gyda'r person ifanc a fydd e ddim yn siarad yn agored â chi nac yn ymddiried ynoch chi. Mae'n fater o ymddiriedaeth”

Dangosodd adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uned Atal Trais y gwelwyd 604 o gleifion ag anafiadau rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2021, y gwnaeth y Tîm Atal Trais ymgysylltu â 76% ohonynt (n=459)⁶. Roedd y mwyafrif o'r anafiadau hyn yn gysylltiedig â thrais (n=384, 63.6%). Gwelwyd n=134 pellach o gleifion ag anafiadau cylllell a n=86 o gleifion ag anafiadau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun. Newidiodd y ffordd y cofnodwyd data ym mis Gorffennaf 2021, a rhwng bryd hynny a mis Mawrth 2023, roedd gan 75.6% o'r cleifion a welodd y Tîm Atal Trais anafiadau yn dilyn ymosodiad (n=1,292), gyda nifer cyfartal o gleifion 24 oed ac iau (n=857) a 25+ oed (n=846). Ymhlith yr anafiadau eraill roedd n=204 o anafiadau cylllell, n=109 o anafiadau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun, a n=106 o anafiadau eraill. Roedd eraill yn cynnwys derbyniadau o ganlyniad i orddos gyda datgeliadau o weithgarwch gangiau/cyffuriau; cleifion yn y ddalfa; aelodau teulu cleifion a oedd yno am resymau heb gysylltiad â'r claf; datgeliadau eraill o gam-drin domestig a thrais rhywiol; oedolion agored i niwed a oedd yn cael eu cam-drin yn y gymuned a oedd yno am faterion heb gysylltiad â hynny; a phobl ifanc yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt tra roeddent yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys o ganlyniad i amgylchedd anaddas. O fis Ebrill 2023, dangosodd data fod tri chwarter yn ddynion, dwy ran o dair yn Brydeinig Gwyn, a bron hanner rhwng 18-35 oed.

Dywedir bod y Tîm Atal Trais yn gweithio gyda 'phawb a phopeth', gan gynnwys Partneriaeth SAFE, Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal, Nyrsys Ysgol, Cymorth i Ddiodefwr, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ym maes Iechyd, Camu i Chwaraeon, ac ymyriadau ysgolion ac ati. Mae adroddiadau chwarterol yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau plant, Cymorth i Ddiodefwr CJP, sefydliadau addysg, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Gweithredu dros Blant a Help Cynnar/yr Awdurdod Lleol. Cafodd traean o'r atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau plant. Pan fydd atgyfeiriad wedi ei wneud at asiantaeth partner, bydd y Tîm Atal Trais yn cynnal cyswllt byrdymor â'r claf er mwyn sicrhau bod y cymorth yn diwallu ei anghenion a'i ddisgwyliadau. Bydd yr asiantaethau partner hefyd yn rhoi adborth rheolaidd ar yr atgyfeiriadau a gafwyd, hynt y cymorth ac ymgysylltiad y claf. Ers mis Gorffennaf 2020, mae'r Tîm Atal Trais wedi arwain y cyfarfod Diogelu Pobl Ifanc yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r cyfarfod hwn yn adolygu'r bobl ifanc 16-17 oed sy'n cael eu derbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac mae nifer o ymarferwyr aml-arbenigedd yn bresennol yn y cyfarfod, h.y. cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, meddyginiaeth, iechyd rhywiol. Cynhelir y cyfarfod hwn er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu wedi cael eu cwblhau a bod unrhyw gymorth dilynol ychwanegol yn cael ei gynnig.

Mae enghreifftiau eraill o waith amlddisgyblaethol yn cynnwys sefydlu 'Hyb Agored i Niwed / Aml-arbenigedd' lle y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cydweithio i gynnig dull amlasiantaeth i gefnogi grwpiau o gleientiaid agored i niwed. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn cynnwys y Tîm Atal

⁶ Ymgysylltu – mae hyn yn cyfeirio at y cyswllt a wneir â'r claf tra bydd yn yr ysbyty, ni waeth a fydd wedyn yn manteisio ar gymorth pellach ar ôl cael ei ryddhau ai peidio.

⁷ Mae'r partneriaid atgyfeirio yn cynnwys: St Giles, Gweithredu dros Blant, Cymorth i Ddiodefwr, y Gwasanaeth Llesiant Emosiynol, Victim Focus, Help Cynnar, y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, BAWSO, Cymorth i Ferched, ATAL, gwasanaethau cymorth rhywedd arbenigol, cymorth troseddau casineb, mewnfudo, ymyriadau clybiau chwaraeon, Bullies Out, Fearless.

Trais, nyrs derbyniadau mynych, nyrsys iechyd meddwl, Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig, a CAMHS. Mae'r rhwydweithio parhaus ag asiantaethau allanol yn sicrhau cydberthnasau priodol â gwasanaethau a mynediad iddynt.

Rhwystrau

Nodwyd bod nifer o asiantaethau wedi cyfeirio at 'ddiffyg cymorth emosiynol sy'n ystyriol o drawma' i gleifion a'u bod yn cydweithio â'i gilydd er mwyn rhannu'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi cleifion. Nodwyd bod problemau tai yn bryder mawr hefyd i lawer o'r cleifion sy'n ymgysylltu â'r Tîm Atal Trais, a bod ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i drafod y broblem hon o ran opsiynau tai. Dywedwyd hefyd fod diffyg eglurder ynghylch meini prawf prosesau atgyfeirio ar gyfer y Grŵp Adolygu Integredig, a allai gyfaddawdu gofal cleifion. Her arall a nodwyd oedd sicrhau bod y rheini sy'n cael eu trin yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ond nad ydynt yn byw yng Nghaerdydd (e.e. Gwent a Pen-y-bont ar Ogwr), yn gallu cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes gwasanaethau cymorth o reidrwydd ar gael yn yr ardal lle mae'r claf yn byw.

"Rydym yn delio â thrawma mawr. Felly nid dim ond cleifion o Gaerdydd rydym yn eu gweld. Felly mae ceisio dod o hyd i system gymorth debyg yn eu hardal leol ... mae gen i glaf sydd wedi cael ei drywanu ac sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a does dim byd yno. Ond bedwar mis yn ôl, roedd yn byw yng Nghaerdydd a gallwn i gynnig popeth iddo"

Ymhlith yr heriau eraill a nodwyd oedd llwyth achosion. Yn wreiddiol, byddai llwyth achosion yn cynnwys tua phump i wyth achos, ond mae bellach yn cynnwys rhwng 10 ac 20 o achosion. Cydnabuwyd bod y cynnydd hwn yn y llwyth achosion yn deillio o'r ffaith bod gwasanaethau eraill o dan ormod o bwysau a bod y Tîm Atal Trais yn cadw cleifion er mwyn darparu gofal a chymorth dros dro iddynt wrth iddynt aros am wasanaethau eraill. Teimlwyd y byddai'n fuddiol pe bai adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i'r Tîm Atal Trais i ymdopi â'r galw a'i alluogi i ryddhau adnoddau presennol ar gyfer addysg a hyfforddiant ac elfennau mwy strategol y rôl. Yn fwy diweddar, nodwyd y bu lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau yn sgil anawsterau o ran addysg staff o ganlyniad i staff yn cylchdroi a throsiant staff uchel yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Teimlwyd bod y Tîm Atal Trais yn parhau i liniaru'r broblem barhaus hon drwy gwblhau hyfforddiant yn y fan a'r lle pan fydd modd ymgysylltu wyneb yn wyneb. Mae'r Tîm Atal Trais yn dal i gynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer y tîm, cynnig sesiwn hyfforddi wedi'i recordio ar lwyfan hyfforddiant yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, a rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau yn rheolaidd er mwyn ennyn diddordeb y staff a rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt.

"Oherwydd y rhestrau aros am wasanaethau ar hyn o bryd, mae pawb dan ormod o bwysau a does gan neb unrhyw staff. Mae pawb yn yr un cwch, felly pan fydda i'n trosglwyddo pobl bydda i fel arfer yn cadw am ychydig yn hirach oherwydd y rhestrau aros"

"Gall staffio fod yn rhwystr hefyd, felly staff asiantaeth yn mynd a dod a diffyg cysondeb"

Yn ystod pandemig COVID-19, cytunwyd y dylid cynnig yr un cymorth, ac ystyriwyd gweithdrefnau diogelu gyda phob claf. Bu modd i'r Tîm Atal Trais barhau i ddarparu'r gwasanaeth gan fod y staff yn gyflogedig gan y GIG; fodd bynnag, wynebwyd heriau o ran mynediad i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a wardiau'r ysbyty, yn ogystal ag ymgysylltu â staff. Yn yr achosion hyn, teimlwyd ei bod yn bwysig bod yn agored, yn ystyriol ac yn hyblyg wrth ymdrin â'r ysbyty a'i staff, '*Gweithio ochr yn ochr â'r staff ac osgoi gwneud eu gwaith yn fwy anodd*'. Nodwyd anawsterau wrth geisio addysgu staff, gyda sesiynau'n cael eu haddasu i'w cyflwyno ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd â'r staff er mwyn ennyn eu diddordeb a rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt. Dywedwyd hefyd ei bod yn anodd rheoli cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau am fod llawer

o'r asiantaethau allanol yn gweithio gartref heb unrhyw ymgysylltu wyneb yn wyneb, gan nad nodi *'dyw ymgysylltu â chleientiaid dros y ffôn ddim bob amser yn addas'*. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr ymosodiadau yn yr ysgol y dilyn y pandemig, gyda'r Tîm Atal Trais yn cydweithio'n agos â nyrsys ysgol a nyrsys arweiniol y tîm y llesiant emosiynol. Mae'r Tîm Atal Trais yn rhoi gwybod i nyrsys ysgol am bob ymosodiad yn yr ysgol ac yn tynnu sylw'r nyrsys arweiniol at batrymau.

"Cyn Covid, roeddem yn gweld nifer sylweddol llai o ymosodiadau ac achosion o drywanu. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol ers Covid ac mae'r ystod oedran wedi gostwng tipyn"

"Cafodd yr holl dimau atal trais yn Lloegr a'r Alban eu tynnu o'u hysbytai oherwydd yn amlwg, doedd y staff ddim yn gyflogedig gan y GIG ac allen nhw ddim dod i mewn i'r ysbytai yn ystod Covid. Ond wnaethon ni ddim stopio. Felly roedden ni'n dal i weld cleifion wyneb yn wyneb"

Effaith

Ystyrir bod y Tîm Atal Trais wedi sefydlu ei hun yn dda yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru. Drwy gydol ymyriad y Tîm, teimlwyd bod rhwydweithio parhaus ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau cydberthnasau priodol â gwasanaethau a mynediad iddynt. Nodwyd nad oes unrhyw wasanaeth arall yng Nghaerdydd ar hyn o bryd sy'n darparu'r un cymorth â'r Tîm Atal Trais ac y gall y rhaglen hon o gymorth fod yn hanfodol i helpu cleifion i gael gafael ar wasanaethau, yn enwedig os nad ydynt, er enghraifft, am ymgysylltu â'r heddlu fel dioddefwr trosedd. Esboniodd y rhanddeiliaid fod y cymorth a ddarperir gan y Tîm Atal Trais yn bwysig gan nad yw'n trin pobl ifanc fel troseddwy; mae'n cydnabod bod rhywun wedi camfanteisio ar rai pobl ifanc ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent o bosibl wedi eu cael fel arall. Teimlwyd bod cael cymorth o'r fath yn bwysig er mwyn helpu cleifion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.

"Dydyn nhw ddim bob amser yn cael y cyfleoedd hyn am fod pobl yn eu trin fel troseddwy. Ond mewn gwirionedd, dydyn nhw ddim yn droseddwy. Mae ymddygiad troseddol, mae rhywun wedi camfanteisio arnyn nhw, ond mae sawl un yn athrylith. Felly mae'n fater o agor y drws a dweud, 'rwy'ti'n wych am wneud hyn'. 'Beth am roi cynnig ar y llwybr hwn' a chynnig opsiynau eraill"

"Rydym yn dilyn eu cyfeiriad nhw ac yn helpu i'w harwain i ble bynnag maen nhw'n am fynd ac yn helpu i hwyluso pethau drwy agor drysau lle byddai rhywun weithiau wedi eu cau'n glep pe baen nhw wedi ceisio eu hagor eu hunain. Drwy gael gweithiwr proffesiynol yno, allan nhw ddim bob amser cau'r drws arnoch chi"

Roedd y Tîm Atal Trais yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol drwy hyfforddiant ac addysg er mwyn iddynt allu adnabod anafiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o drais, deall eu cyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth ag asiantaethau priodol, a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol yn cael eu dilyn. At hynny, gan fod nyrsys y Tîm Atal Trais wedi'u secondio i'r tîm, teimlwyd y byddant yn trosglwyddo'r dysgu o'u penodiad dros dro i'w swydd wreiddiol pan fydd y secondiad yn dod i ben er mwyn rhannu gwybodaeth ag aelodau eraill o staff.

Cytunwyd bod y canlyniadau yn dibynnu i raddau helaeth ar y claf a'i anghenion, a'u bod yn bwysig cydnabod a dathlu canlyniadau llai, mwy meddal i'r claf. Gallant gynnwys mynediad at dai diogel, iechyd meddwl a llesiant gwell, mynediad at wasanaethau a chymorth, ailgysylltu â theulu, sicrhau cyflogaeth, a chydberthnasau gwell ag aelodau'r teulu. Credai'r rhanddeiliaid fod cynnig cyfleoedd gwell i bobl ifanc a'u harwain tuag at weithgareddau yn eu galluogi i adfer rhywfaint o'u plentyndod.

“Dyw e [y person ifanc] ddim yn ôl mewn gwaith ac mae'n debyg na fydd yn cynnig cymaint â hynny i gymdeithas, ond mewn gwirionedd, mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr iddo fe a dydyn ni ddim wedi ei weld yn ôl yma [yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys] ac mae dal ganddo ei fflat ac mae wedi gweld ei fab, felly mae hynny'n golygu'r byd i mi”

“Gallai olygu eu helpu i ddod o hyd i waith, felly byddwn yn cysylltu â sefydliadau eraill er mwyn magu eu hyder oherwydd dyw rhai ohonyn nhw erioed wedi cael swydd go iawn”

“Un o ddangosyddion budd ariannol mewn meysydd eraill yw'r gyfradd aildderbyniadau. Fel y dangoswyd, o blith y 21 o gleifion ag anafiadau a oedd yn gysylltiedig â chyllyll a welwyd yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys [yn ystod chwarter penodol] dim ond un claf a gafodd ei aildderbyn yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn arbediad sylweddol i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol” (Adroddiad Chwarterol)

Wrth ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaethau, nodwyd patrymau penodol o ran cymorth emosiynol, tai, cymorth i wneud cais am ddogfennau adnabod, cofrestru gyda phractis meddyg teulu a Chredyd Cynhwysol. Dywedwyd hefyd fod angen cymorth ar gleifion i ddod o hyd i waith a chael addysg. Nodwyd bod gan fwy na hanner y cleifion sy'n cael eu derbyn i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anafiadau a oedd yn gysylltiedig â thrais broblemau iechyd meddwl blaenorol neu bresennol. Roedd gan y cleifion y mae'r Tîm Atal Trais yn ymgysylltu â nhw yn yr Adran hefyd anghenion eraill, gan gynnwys bod yn Blant sy'n Derbyn Gofal, niworamrywiaeth, cleifion sy'n camddefnyddio sylweddau, a chyflawnwyr cam-drin domestig. Rhoddodd y Tîm Atal Trais enghreifftiau o'r gwaith atal trais sy'n cael ei wneud i annog cleifion i fanteisio ar gymorth a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dychwelyd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anafiadau eraill.

“Un claf a oedd wedi cael ei drywanu sawl gwaith, roedd ganddo broblemau iechyd meddwl a rhai anawsterau dysgu, felly mae'n rhaid i ni weithio gyda sefydliadau eraill sy'n ei gefnogi'n barod er mwyn darparu cymorth parhaus. Digwyddodd y trywanu yn ei gartref felly all e ddim mynd yn ôl yno, dyw hynny ddim yn ddiogel. Felly rydym yn gweithio gyda'r asiantaethau tai er mwyn dod o hyd i rywle arall iddo. Rydym yn cefnogi mam hefyd”

“Roedd gennym berson digartref a oedd yn cael ei gam-drin yn hiliol ac yn byw mewn pabell. Ddaeth e ddim i mewn gydag anaf yn dilyn ymosodiad, ond gallwn ei atal rhag dod yn ôl gydag un”

“Roeddem yn gweld llawr o bobl ifanc yn eu harddegau yn dod i mewn ac roedd pob un ohonyn nhw'n camddefnyddio Xanax. Rydym yn gallu gwneud rhywfaint o waith atal, a'u trosglwyddo i'r gwasanaethau cyffuriau ac alcohol”

Mae llawer o'r cleifion sy'n dod i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn ddigartref ac ni allant adleoli i hostel am nifer o resymau, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg sylweddol o gael anafiadau pellach a pharhau â'r ymddygiad. Trafodwyd mai un canlyniad yw dim ond cadw pobl yn fyw. Nodwyd y bydd nifer o staff yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys sy'n canolbwyntio ar ddigartrefedd yn fuan, a fydd yn darparu cymorth ac arweiniad ychwanegol.

“Mae gennym lawer o hostelau i'r digartref yng Nghaerdydd. Felly, mewn gwirionedd, i mi, y canlyniad weithiau yw eu cadw'n fyw”

“Cwrddais ag ef (person ifanc) ar ôl i rywun ymosod arno. Roedd wedi bod yn byw mewn tryc wedi'i drawsnewid yn rhannol ac roedd rhywun wedi ceisio ei ddwyn. Doedd dim toiled, dŵr na gwres. Pan oedd Covid ar ei anterth, roedd wedi diflannu oddi ar y map yn ôl pob golwg. Roedd ei iechyd meddwl wedi dirywio. Doedd e' ddim wedi siarad â'i deulu.

Gwnaethom ei gyfeirio at y gwasanaethau tai a chymorth iechyd meddwl. Mae nawr wedi cael ei ddychwelyd i (ardal arall i Gymru) Mae ganddo ei fflat ei hun. Mae wedi ailgysylltu â'i deulu ac mae'n cael cymorth iechyd meddwl parhaus. Ffoniodd fi i ddweud ei fod wedi cael yr allweddii"

Yn y tymor hwy, gobeithiwyd y byddai'r Tîm Atal Trais yn cyfrannu at y canlynol: lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbty o ganlyniad i ymosodiad â chylllell neu wrthrych miniog ac yn enwedig ymhlith y dioddefwyr hynny dan 25 oed; lleihau nifer yr achosion o drais sy'n gysylltiedig â chylllell ac yn enwedig ymhlith y dioddefwyr hynny dan 25 oed, yn seiliedig ar ddata troseddau a gofnodwyd yr heddlu; lleihau nifer y lladdiadau annomestig lle y defnyddiwyd cylllell ac yn enwedig ymhlith y dioddefwyr hynny dan 25 oed. Bydd hyn oll yn arwain at gyfleoedd gwell mewn bywyd i'r rhai dan sylw, ac yn lleihau'r galw ar wasanaethau fel y GIG, y system cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau plant/oedolion.

"Profwyd bod cleifion sy'n ymgysylltu ac yn manteisio ar gymorth yn llai tebygol o ddychwelyd gydag anafiadau yn dilyn ymosodiad, yn llai tebygol o droseddu ac yn fwy tebygol o wneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas, gan leihau costau." (Adroddiad Chwarterol)

Caiff data eu casglu ar bob claf sy'n ymgysylltu â'r Tîm Atal Trais. Caiff cynnydd ei fesur gan y Tîm drwy ystyried cyfraddau aildderbyniadau ac adborth a geir drwy dimau cymorth yn gymuned. Mae nifer o arbenigeddau yn defnyddio system PARIS, sy'n galluogi proses atgyfeirio a diweddarau ddi-dor. Caiff data hefyd eu cyflwyno i'r Uned Atal Trais bob chwarter. Mae'r data hyn yn cynnwys gwybodaeth ansoddol am weithgareddau, anghenion y rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, astudiaethau achos, risgiau a mesurau lliniaru, a gwersi allweddol a ddysgwyd; a gwybodaeth feintiol am anafiadau sy'n gysylltiedig â chylllell/trywanu, anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais, anafiadau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun/sy'n gysylltiedig â dyrnu, aildderbyniadau gydag anafiadau sy'n gysylltiedig â chylllell, a materion diogelu ac atgyfeiriadau a wnaed/cymorth a ddarparwyd. Dywedwyd hefyd fod agweddau ar ddata yn cael eu casglu nad ydynt yn cael eu cyflwyno i'r Uned Atal Trais gan nad ydynt yn rhan o gylch gwaith yr Uned, ond y byddant yn cael eu defnyddio i ddatblygu gwaith atal gyda chleifion agored i niwed.

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Mae codi ymwybyddiaeth yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi bod yn heriol a nodwyd bod *'hyn yn debygol o barhau am gryn amser o ystyried nifer y staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr Adran (tua 200 o aelodau o staff), heb gynnwys y staff ar alwad o dimau arbenigol eraill a staff sy'n gysylltiedig ag asiantaethau fel Gwasanaeth Ambiwylans Cymru'*. Teimlwyd bod addysgu staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn barhaus yn hanfodol er mwyn parhau i gynyddu dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau diogelu ac ystyried atgyfeiriadau gyda staff yr Adran. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol trefnu cyfarfodydd misol rheolaidd ar gyfer pob sefydliad dan sylw er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o weledigaeth y prosiect. Gobeithiwyd y byddai modd darparu rhagor o gymorth i rieni cleifion a welir gan y Tîm Atal Trais yn y dyfodol, ond hefyd lle y gallent fod wedi dioddef trais a chamdriniaeth gan blentyn neu berson ifanc tuag at riant. Nodwyd bod nifer yr achosion o drais a chamdriniaeth yn cynyddu.

"Rwyf wedi gweld rhieni yn dod i mewn gydag anafiadau ac, yn y pen draw, wedi rhoi cymorth i'r plant gan mai'r plant sy'n gyfrifol am eu hanafiadau'

Mae'r Tîm Atal Trais hefyd yn awyddus i newid o atgyfeiriadau papur i rai electronig mewn ymgais i gynyddu atgyfeiriadau'r Tîm Atal Trais a diogelu. Mae'r tîm hefyd yn awyddus i ddatblygu adnodd

asesu HEADSSS⁸ electronig ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, a fyddai'n golygu bod pob unigolyn 13-17 oed yn cwblhau'r asesiad wrth gael ei dderbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer derbyniadau Baner Goch y caiff yr asesiad hwn ei gwblhau oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i'w gwblhau wyneb yn wyneb.

Nodwyd hefyd y broblem systemig o ran mynediad teg i wasanaethau, a'r ffaith nad yw cleifion sy'n cael eu trin yng Nghaerdydd ond nad ydynt yn byw yno yn gallu cael gafael ar gymorth cyfatebol. Efallai nad yw'r gwasanaeth cymorth perthnasol ar gael yn yr ardal honno, ac efallai mai'r rheswm dros hyn yw nad yw'r gwasanaeth ar gael neu fod y meini prawf atgyfeirio yn golygu bod y cleifion yn rhy hen, ac ati. Argymhellwyd y dylai fod rhaglen neu rôl Tîm Atal Trais gyfatebol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru fel bod modd trosglwyddo cleifion yn briodol pan fyddant yn cael eu dychwelyd i'w hardal leol. Yn yr un modd, ni fyddai cymorth ar gael i'r rheini nad ydynt yn dod drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, felly awgrymodd un rhanddeiliad y byddai'n fuddiol cynyddu'r llwybrau atgyfeirio.

“Mae angen i ni fod yng Nghasnewydd, mae angen i ni fod ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mewn ysbytai eraill. Mae angen ei ehangu”

“Mae angen bod llwybrau atgyfeirio eraill. Rwy'n gwybod bod llawer o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn trais, ond dydyn nhw ddim yn dod drwy'r drws oherwydd dydyn nhw ddim wedi cael atgyfeiriad gan yr ysbyty”

Nodwyd bod cysondeb staff yn bwysig i ddatblygu'r ymyriad yn barhaus ac i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â chleifion a'u teuluoedd, yn ogystal â staff Ysbyty Athrofaol Cymru a sefydliadau partner. Teimlir bod hyn yn anodd pan fydd staff ar gontractau byrdymor, e.e.12 mis, gan ei bod yn gallu cymryd amser i recriwtio i swyddi, sy'n golygu nad oes llawer o amser ar ôl ar y contract; ond hefyd i'r staff hynny sydd ar gontractau treigl gan nad oes ganddynt y sicrwydd, sy'n golygu y byddant o bosibl yn chwilio am swyddi eraill a all gynnig y sicrwydd hwnnw. At hynny, nodwyd y byddai cael rôl weinyddol ychwanegol yn y tîm yn *‘rhoi mwy o amser i'r staff ryngweithio â'r cleifion’*. Credwyd bod cyfyngiadau staffio hefyd yn rhwystr i hwyluso patrymau shifft gwahanol i ddarparu cymorth i'r cleifion hynny sy'n cael eu derbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys y tu allan i oriau gwaith arferol y tîm. Teimlai'r rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy o waith atal. Er enghraifft, trafodwyd y gellid dysgu oddi wrth Abertawe, er enghraifft y ddarpariaeth gweithiwr ieuentid a'r adnoddau sydd ar waith mewn ysgolion yno.

“Dim ond ar ôl argyfwng rydym yn gwneud gwaith atal. Felly mae angen mwy o arian fel bod modd cael timau mwy i allu gwneud y gwaith atal oherwydd y lefel o drais sydd mewn ysgolion. Rydym yn gweld mwy o drais mewn ysgolion, ond does gennym ni ddim y capasiti i ymweld ag ysgolion i wneud gwaith atal”

Gobeithiwyd y byddai gwaith y Tîm Atal Trais yn parhau i dyfu ac ehangu yn y dyfodol, ac y byddai'n dod yn fwy cyfarwydd. Dywedwyd bod y Tîm Atal Trais wedi cael ei enwi ar lefel ryngwladol yn ddiweddar (Seminar Byd-eang Salzburg) wrth drafod datblygiadau arloesol byd-eang mewn perthynas â thrais ymhlith plant a phobl ifanc, diogelwch a chyfiawnder. Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym Mhwyllgor y DU ar gyfer menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant

⁸ Adnodd seicolegol neu ddull ysgogi mewn cyfweiliad i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc yw HEADSSS. Mae'n dilyn strwythur syml, sef: Cartref, Addysg a Chyflogaeth, Gweithgareddau, Cyffuriau/Yfed, Rhyw, Hunan-niwed, iselder a hunanladdiad, Diogelwch (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein) Am ragor o fanylion, gweler: <https://www.paediatricpearls.co.uk/headsss-tool/>

genedlaethol UNICEF (UNICEF UK). Gofynnwyd i'r Tîm Atal Trais gynorthwyo'r fenter hon, gan dynnu sylw at y gwaith parhaus yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i gefnogi a diogelu pobl ifanc.

“Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y bydd gennym dîm o weithwyr iechyd arbenigol sy'n ystyriol o drawma sy'n gweithio ochr yn ochr â staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ond hefyd staff ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, yn helpu pobl agored i niwedd sydd wedi dioddef trais neu y mae rhywun wedi camfanteisio arnynt i gael gafael ar y llwybrau cymorth priodol (Adroddiad Chwarterol)

Enghreifftiau o astudiaethau achos

Astudiaeth Achos 1

Cafodd claf benywaidd 21 oed ei derbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anaf a achoswyd gan yr unigolyn ei hun. Roedd wedi dyrnu wal ar ôl gwylltio, ac wedi torri ei llaw. Tra roedd yn yr adran, datgelodd ei bod yn fam newydd (i fabi 8 mis oed) a'i bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n emosiynol. Yn ystod ein sgwrs, datgelodd, oherwydd pandemig COVID-19, nad oedd wedi gweld neb ers i ymwelydd ieched ymweld â hi ar ôl yr enedigaeth a'i bod yn teimlo wedi'i hynysu ac yn isel. Dywedodd y claf bod ei hiechyd meddwl wedi gwaethygu a'i bod wedi dioddef o iselder ôl-enedigol yn dilyn genedigaeth flaenorol. Yn dilyn yr asesiad hwn, gyda chydysniad y claf, trefnwyd i'w hymwelydd ieched ymweld â hi a chysylltwyd â'i phractis meddyg teulu er mwyn trefnu apwyntiad brys gyda'i hymarferydd nyrsio ieched meddwl i gael asesiad. Cysylltwyd â mam y claf hefyd a threfnwyd iddi gael cymorth ychwanegol yn y cartref yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ieched meddwl ac ieched corfforol y claf yn gwaethygu, ac roedd angen cymorth ychwanegol arni yn enbyd. Cyflwynwyd Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARF) i'r gwasanaethau plant hefyd.

Cadwodd y Tîm Atal Trais mewn cysylltiad â'r claf ar ôl iddi gael ei rhyddhau er mwyn ei chefnogi wrth iddi aros i'r gwasanaethau gysylltu â hi. Yn ystod y cyfnod hwn, dywedodd y claf pa mor fuddiol roedd y cymorth wedi bod ac nad oedd yn teimlo ar ei phen ei hun mwyach. Mae'r claf bellach yn cael cymorth ôl-enedigol ar gyfer ei hiechyd meddwl a chymorth gofal plant gan ei mam, ac mae ar restr aros am gwnsela.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Ionawr – Mawrth 2021)

Astudiaeth Achos 2

Cafodd dau ddyn ifanc eu derbyn i Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru gydag anafiadau trywanu yn dilyn ffræ gyda grŵp mawr o ddynion. Roedd y ddau ddyn ifanc yn 17 a 18 oed ac roeddent wedi dod o Afghanistan ar eu pen eu hunain. Roedd gan y ddau anafiadau sylweddol a bu'n rhaid iddynt gael llawdriniaeth a'u derbyn i'r wardiau.

Codwyd pryderon sylweddol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â gangiau a chamfanteisio ar blant; o ganlyniad, bu'n rhaid i'r Tîm Atal Trais ddarparu hyfforddiant ac addysg ychwanegol i staff y wardiau er mwyn sicrhau diogelwch y staff, y cleifion a'r bobl ifanc hyn. Cydweithiodd y Tîm Atal Trais â gweithwyr cymdeithasol, asiantaethau tai, Gweithredu dros Blant, cyfieithwyr, gweithwyr cymorth a'r heddlu er mwyn sicrhau diogelwch y bobl ifanc hyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Oherwydd y risg sylweddol i'r cleifion, aeth y Tîm Atal Trais i nifer o gyfarfodydd strategaeth brys i drafod diogelu a chymorth gweithredu ar ôl y digwyddiad.

Mae'r Tîm Atal Trais wedi bod yn hwyluso cyfarfodydd rhwng Gweithredu dros Blant a'r dynion ifanc er mwyn meithrin cydberthynas waith ac ennyn ymddiriedaeth. Mae'r Tîm Atal Trais yn darparu cymorth i'r dynion ifanc hyn am eu bod yn parhau i gael eu derbyn i'r ysbyty, ac er mwyn cefnogi'r gweithwyr proffesiynol dan sylw.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Hydref – Rhagfyr 2023)

Astudiaeth achos 3

Cafodd menyw 67 oed ei derbyn i Adran Damweiniau ac Achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru gyda phryderon meddygol nad oeddent yn gysylltiedig â thrais. Fodd bynnag, yn ystod ei chyfnod yno, gwnaeth ddatgeliadau i'r staff ynglŷn â'i hŵyr a sefyllfa'r cartref. Datgelodd ei bod yn byw gyda'i mab, ei merch yng nghyfraith a'i hŵyr (15 oed) ar y pryd. Datgelodd y claf bod sefyllfa'r cartref wedi dod yn anodd, ac nad oedd yn teimlo y gallai ddefnyddio rhannau gwahanol o'r cyfeiriad mwyach, a hynny o ganlyniad i'r pryderon a fynegodd ynglŷn ag ymddygiad ei hŵyr. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith ei fod yn treulio sawl noson i ffwrdd o gartref, ei fod yn mynd a dod ar oriau afreolaidd, a bod ei gymeriad yn newid yn sylweddol.

Helpodd y Tîm Atal Trais y claf i symud tŷ ac i gael cymorth cymunedol ychwanegol gan ei bod yn teimlo'n ynysig iawn ac nad oedd yn adnabod neb yn ei hardal leol. Gwnaeth y Tîm Atal Trais hefyd atgyfeiriadau mewn perthynas â'i hŵyr, a chanfuwyd ei fod yn rhan o Linellau Cyffuriau. O ganlyniad, mae wedi cydsynio i gael cymorth arbenigol yn ymwneud â chamfanteisio ac mae gwaith yn mynd rhagddo.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Gorffennaf – Mawrth 2022)

Astudiaeth achos 4

Cafodd dyn 21 oed ei daflu allan o gerbyd y tu allan i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anafiadau yn dilyn ymosodiad sylweddol. Cafodd ei asesu yn yr Adran a chanfuwyd bod ganddo nifer o anafiadau difrifol i'w wyneb a oedd yn golygu bod angen ei roi ar beiriant anadlu, ceisio mewnbwn arbenigol a'i dderbyn i'r uned gofal dwys. Credir iddo gael ei herwgipto a'i guro'n sylweddol. Mae ganddo hanes o gamddefnyddio sylweddau. Ni allai gofio unrhyw ran o'r hyn oedd wedi digwydd. Cafodd ei dderbyn i'r uned gofal dwys am sawl wythnos a'i symud i ward niwro-adsefydlu oherwydd difrifoldeb ei anafiadau. Mynegodd y claf bryderon am y canlyniadau i'w fam a'i frodyr/chwirydd iau, a dywedodd eu bod yn byw mewn ofn parhaus.

Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio'n agos gyda'i dîm cymorth ar y ward i gynnig ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a chymorth camddefnyddio sylweddau iddo. Gweithiodd y Tîm Atal Trais i feithrin cydberthynas ag ef mewn ymgais i'w atgyfeirio at Gweithredu dros Blant. Mae'r Tîm hefyd wedi bod yn cefnogi ei fam, sydd wedi cael ei hatgyfeirio at Cymorth i Ddiodefwyr am gymorth gyda'r broses cyfiawnder troseddol, cwnsela a diogelwch yn y cartref. Cyflwynwyd MARF ar gyfer ei dau blentyn ac anfonwyd atgyfeiriad at Help Cymorth am gymorth ychwanegol ar gyfer y brawd/chwaer iau.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Gorffennaf – Mawrth 2023)

Trosolwg

Menter yng Nghaerdydd yw Parallel Lives sy'n defnyddio dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â Thrais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc tuag at Riant (APVA). Mae hyn yn ymwneud ag unigolion yn defnyddio ymddygiadau i neoli, dominyddu neu ofodi eu rhieni, a all effeithio ar gydbertnasau teuluol a chreu amgylchedd gelyniaethus yn y cartref. Drwy'r fenter pedair haen hon, mae Parallel Lives yn darparu cymorth uniongyrchol gan ganolbwyntio ar newid ymddygiad pobl ifanc yn yr hirdymor. Mae Parallel Lives wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc 8-17 oed a'u rhieni neu ofalwyr, ac mae'n mynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar drais a chamdriniaeth gan berson ifanc tuag at riant, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, geiriol, emosïynol ac ariannol.

Gweithredu

Ariennir rhaglen Parallel Lives gan yr Uned Atal Trais a chaiff ei darparu gan Media Academy Cymru (MAC). Mae natur y rhaglen yn golygu nad yw'n rhyngweithio fawr ddim â'r Uned Atal Trais ar wahân i gyflwyno adroddiad chwarterol iddi, mynd i gyfarfodydd monitro prosiectau chwarterol, a chael cyllid. Teimlai Parallel Lives fod y trefniadau yn gadarnhaol, a'i bod yn cael y swm cywir o gymorth gan y corff cyllido.

"Rwy'n credu bod pethau'n rhedeg yn ddidrafferth iawn ar hyn o bryd"

Daw atgyfeiriadau at Parallel Lives gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau, er enghraifft gweithwyr cymdeithasol, ysgolion, neu wasanaethau plant. Gall rhieni, gofalwyr a pherthnasau hefyd atgyfeirio at y gwasanaeth. Caiff atgyfeiriadau eu hadolygu bob wythnos drwy gyfarfodydd dyrannu, lle y penderfynir pa wasanaethau sydd fwyaf addas ar gyfer pob achos. Nid yw Parallel Lives ei hun yn atgyfeirio at wasanaethau eraill a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn aml – mae'r atgyfeiriadau yn dueddol o gael eu gwneud yn fewnol yn MAC – ond gall atgyfeirio at asiantaethau atgyfeirio ehangach o bryd i'w gilydd, er enghraifft tai, addysg, ac iechyd meddwl, os oes angen.

Os bydd y plentyn yn tarfu ar eraill mewn amgylcheddau eraill fel yr ysgol, neu os bydd ganddo hefyd weithiwr cymdeithasol, bydd gweithwyr Parallel Lives yn mynd i gyfarfodydd grŵp craidd (neu gyfarfodydd cynllun gofal a chymorth) gyda gweithwyr amrywiol sy'n cynrychioli'r plentyn, a theimlwyd bod hyn yn *"fuddiol ac yn ddiddorol iawn er mwyn dysgu mwy am y plentyn"*. Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod *"weithiau, rydych yn cael llawer mwy o wybodaeth na fyddwn byth wedi bod yn ymwybodol ohoni, felly rydych yn gallu cael darlun llawer ehangach o'r teulu, sy'n ddefnyddiol iawn wrth weithio gyda nhw"*. At hynny, mae'r cyfarfodydd yn ffordd ragweithiol o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill, a all rannu cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o weithio gyda'r person ifanc a'r riant/gofalwr.

Cyflawni

Gyda dynion ifanc y mae Parallel Lives yn ymgysylltu yn bennaf. Bu lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer grwpiau oedran iau. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ymgysylltu â gwasanaethau plant, ac mae'r mwyafrif o'r unigolion dan sylw yn dreisgar tuag at ei mam. At hynny, mae llawer wedi gweld achosion o drais domestig, neu wedi dioddef trais o'r fath. Mae gan gyfran uchel o'r bobl ifanc nifer o anghenion, ac mae cyfran uchel yn aros i gael asesiadau ar gyfer anghenion ychwanegol. Mae Parallel Lives yn aml yn cael atgyfeiriadau ar gyfer brodyr a chwiorydd, pan fydd eu rhieni yn cysylltu â'r rhaglen.

Mae Parallel Lives yn gweithio gyda theuluoedd â phroblemau fel iechyd meddwl gwael a niwroamrywiaeth. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu i'w gwneud yn addas i bobl ifanc iau a

niwroamrywiol, ac er mwyn cefnogi teuluoedd â phroblemau iechyd meddwl a niwroamrywiaeth yn well, ac mae staff Parallel Lives wedi cwblhau hyfforddiant ar faterion fel awtistiaeth ac atal hunanladdiad. Bydd Parallel Lives hefyd yn teilwra sesiynau ac yn creu adnoddau ategol er mwyn cefnogi anghenion y bobl ifanc a'u teuluoedd yn well.

“Rydym yn cynnal sesiynau un i un hefyd, yn seiliedig ar anghenion. Felly, er enghraifft, os bydd gan y person ifanc awtistiaeth a byddai'n fwy buddiol iddo gael sesiynau un i un, ac efallai nad yw'n gallu gweithio mewn grŵp, yna byddwn yn addasu'r gwasanaeth i anghenion y person ifanc”

Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod Parallel Lives yn gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan lwybrau amrywiol, sy'n dangos bod ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn cynyddu. At hynny, credwyd bod cynnig gwaith wyneb yn wyneb yn cynyddu lefelau ymgysylltu. Dengys data chwarterol fod Parallel Lives wedi ymgysylltu â 135 o unigolion (yr oedd y mwyafrif ohonynt yn wrywaidd) yn ystod 2022/2023 ac wedi cael 40 o atgyfeiriadau, gan gynnwys atgyfeiriadau gan wasanaethau plant, SCMAHS, hunanatgyfeiriadau, atgyfeiriadau atal trais, atgyfeiriadau mewnol gan DIVERT MAC, atgyfeiriadau gan yr heddlu, ac atgyfeiriadau gan yr uned gofal dioddefwyr. Yn ystod yr un cyfnod, gwnaeth Parallel Lives atgyfeiriadau at MAC a chyflwynodd nifer o Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARF) ynglŷn â phryderon diogelu ehangach, yn ogystal ag achosion o drais a chamdriniaeth gan berson ifanc tuag at riant yn y cartref. Oherwydd y galw uchel, mae gan Parallel Lives restr aros. Mae'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r teuluoedd hyn ac yn cynnig gweithdy cyn-ymgysylltu iddynt er mwyn pontio'r bwlch cyn iddynt ddechrau rhaglen Parallel Lives.

Mae Parallel Lives yn cynnig pedair haen o gymorth, gan gynnwys y pedwar "B" yn Saesneg, sef "Base", "Build", "Boost" a "Beyond":

- **Base** – Gwasanaeth cymorth wedi'i anelu at rieni neu warcheidwaid sydd wedi dioddef trais neu gamdriniaeth gan berson ifanc tuag at riant yn y cartref, er mwyn eu galluogi i gael cymorth o fewn 24 awr yn ystod yr wythnos waith. Mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu ar ffurf sesiwn un i un gydag aelod o'r tîm, sy'n cynghori'r rhiant/gofalwr ar y camau priodol i'w cymryd, ei gyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill a llunio cynllun diogelwch.
- **Build** – Sesiynau sydd â'r nod o feithrin hyder rhieni neu ofalwyr drwy sesiynau grŵp rhithwir (e.e. bore coffi rhithwir ar drais a chamdriniaeth gan berson ifanc tuag at riant), drwy ganolbwyntio ar faterion allweddol, fel cynllun diogelwch, dulliau cyfathrebu a hunanofal. Mae'r sesiynau'n galluogi rhieni/gofalwyr i gwrdd ag eraill y mae trais a chamdriniaeth o'r fath wedi effeithio arnynt a sefydlu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid.
- **Boost** – Gweithdy undydd ar fagu plant a gynhelir wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd. Cynhelir y gweithdy o leiaf unwaith y mis ac mae'n canolbwyntio ar strategaethau ar gyfer dulliau atal nad ydynt yn dreisgar, rheoli emosiynau a rhoi hwb i hyder rhieni neu ofalwyr i reoli ymddygiad eu plentyn yn fwy effeithiol.
- **Beyond** – Dyma'r prif ymyriad a ddarperir gan Parallel Lives, sef ymyriad therapiwtig saith wythnos sy'n cyflwyno'r rhieni neu ofalwyr a'r bobl ifanc i dechnegau, pynciau ac adnoddau addysgol amrywiol er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar neu ymosodol a'i atal. Sesiynau grŵp ydynt fel arfer ac maent yn cynnwys dau grŵp ar wahân – un gyda'r oedolion, ac un gyda'r bobl ifanc, gyda'r ddau grŵp yn dod ynghyd yn ddiweddarach. Yn ystod camau diweddarach yr ymyriad, cynhelir gweithgaredd creadigol sydd â'r nod o ddod â'r grwpiau ynghyd a'u galluogi i feithrin cydberthnasau agosach fel uned deuluol i'w helpu ar gyfer y dyfodol. Er mai sesiynau grŵp yw'r norm ar gyfer yr ymyriad saith wythnos ac y cânt eu hystyried yn hanfodol oherwydd yr elfen cymorth cymheiriaid, caiff eithriadau eu gwneud yn unol ag amgylchiadau ac anghenion y person ifanc.

Yn ychwanegol at y dull pedwar cam, mae Parallel Lives hefyd yn cynnal asesiad cychwynnol o anghenion penodol pob teulu, a gynhelir wyneb yn wyneb fel arfer. Cynigir y sesiynau hyn i'r rhiant a'r gofalwr yn ogystal â'r person ifanc. Mae'r asesiadau un i un cychwynnol hyn yn allweddol i ennyn diddordeb y person ifanc yn yr ymyriad. Mae'r asesiad yn ei gyflwyno i staff Parallel Lives ac yn ei friffio ar yr hyn i'w ddisgwyl gan yr ymyriad, a bydd yn aml yn mynd i'r afael â'r rhwystr cyntaf i sicrhau bod y person ifanc yn mynd i'r sesiwn gyntaf. Pan fydd wedi cwrdd â'r aelod o staff ac wedi bod i'r sesiwn gyntaf, teimlwyd ei bod yn dod yn haws ennyn diddordeb y person ifanc yn yr adnoddau a'r camau tuag at newid hirdymor.

Mae sesiynau'r rhaglen yn ymdrin â thechnegau cyfathrebu, llythrennedd emosiynol, rhianta cadarnhaol, gweithrediad gwybyddol, a gwrando gweithredol. Maent hefyd yn cynnwys gweithgaredd ar obeithion ac ofnau, sesiynau trafod emosiynau, cwestiynau gwyrthiol, gweithgaredd olwyn bywyd, ystyried cryfderau, datblygu cynllun dicter, myfyrio mynych, sesiwn cytundeb teuluol, asesiadau risg, a gwerthusiad. Drwy dargedu'r agweddau hyn, nod Parallel Lives yw sicrhau newidiadau cadarnhaol o fewn y teuluoedd sy'n cymryd rhan a helpu i feithrin cydberthnasau iachach rhwng oedolion a phlant.

Mae nifer o'r sesiynau yn canolbwyntio ar anghenion y rhieni a'r gwarcheidwaid. Sesiynau gwirfoddol yw'r holl sesiynau sy'n ymdrin â'r pedwar "B", sy'n golygu bod yn rhaid i'r bobl ifanc gydsynio i gymryd rhan. Gall hyn fod yn heriol os oes angen cymorth ar y rhiant ond nad yw'r person ifanc yn fodlon cyfrannu. Felly, cyflwynwyd ymyriadau penodol er mwyn rhoi technegau a chyngor i rieni wrth iddynt aros i'r person gytuno i gael cymorth.

"Gwnaethom sylweddoli bod bwlch yn y farchnad i rieni neu ofalwyr a oedd am gael help neu yr oedd angen help arnyh nhw ... roedd y rhieni hyn am gael cymorth, ond allen nhw ddim gan nad oedd eu plentyn yn cytuno. Felly, gwnaethom greu'r gwasanaethau hyn er mwyn gallu eu cefnogi os nad oedd y plentyn yn barod i gael help eto nac yn derbyn bod angen iddo newid"

Rhwystrau

Prin yw'r rhwystrau canfyddedig i waith Parallel Lives. Mae hyn yn cynnwys heriau ymgysylltu â phobl ifanc, yn enwedig mewn grŵp. Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu yn syth am eu bod yn teimlo cywilydd, euogrwydd ac unigedd (ond gall rhai gytuno a newid eu meddwl). Nodwyd hefyd ostyngiad mewn lefelau ymgysylltu yn ystod gwyliau'r haf. Gall anawsterau godi hefyd os oes gan riant neu ofalwr anghenion gofalu eraill gyda phlentyn ychwanegol, gan ei gwneud hi'n anodd iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb. Nid yw'r agwedd hon yn gymaint o bryder ar gyfer yr haenau eraill o gymorth a gynigir gan Parallel Lives, oherwydd natur rithwir y sesiynau hyn. Serch hynny, cydnabuwyd bod angen i sesiynau'r rhaglen saith wythnos gael eu cynnal wyneb yn wyneb. Nodwyd na fyddai'r rheini na allant gymryd rhan mewn sesiynau wyneb yn wyneb o bosibl yn cael budd llawn o'r rhaglen.

"Rwy'n credu ei bod hi'n fwy anodd eu cael i mewn i'r adeilad, ac weithiau gall fod yn anodd eu darbwyllo i ddod i'r sesiwn gyntaf gan fod hynny'n golygu dod i amgylchedd newydd a phan fydd tri neu bedwar o blant eraill, weithiau gall fod yn anodd. Ond ar ôl i ni ddechrau arni yn y sesiwn gyntaf ... dydyn nhw ddim yn meindio dod wedi hynny"

"Rwy'n credu mai un o'r heriau weithiau yw nad yw'r rhieni neu'r gofalwyr yn gallu gadael y tŷ am fod angen iddyn nhw ofalu am blant eraill, ac mae hynny'n gallu bod yn anodd weithiau os nad oes ganddyn nhw unrhyw un i'w helpu"

Effaith

Ystyrir bod Parallel Lives yn effeithiol wrth greu amgylchedd diogel ar gyfer y rhieni neu'r gofawlyr a'r bobl ifanc y mae trais a chamdriniaeth gan berson ifanc tuag at riant wedi effeithio arnynt. Gan mai ar ffurf gwaith grŵp y caiff yr ymyriad saith wythnos ei ddarparu, mae'n golygu bod elfen o gymorth cymheiriaid gan deuluoedd eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg. At hynny, mae hyn yn helpu i leihau'r stigma a'r euogrwydd y gallai'r rhieni, y gofawlyr a'r bobl ifanc fod yn eu teimlo mewn perthynas â'r trais a'r gamdriniaeth, ac mae'n cynnig cyfle gwerthfawr i rieni a phobl ifanc rannu profiadau a chefnogi ei gilydd.

"Yn aml, dyw'r rhieni, na'r plant, ddim yn sylweddoli bod teuluoedd eraill mewn sefyllfa debyg ... Felly, fel arfer pan fyddan nhw'n dod [i'r sesiynau] ... byddan nhw'n dweud ... doedwn i ddim yn sylweddoli faint o bobl sy'n mynd drwy'r un peth. ... Nid dim ond y rhieni, ond y plant hefyd. Maen nhw'n sylweddoli nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain"

Mae gan yr ymyriadau hefyd y potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol. Cydnabuwyd os yw ymyriad Parallel Lives yn gwella ymddygiad y plentyn yn y cartref, ei bod yn debygol y bydd yn gwella ei ymddygiad yn yr ysgol hefyd, sy'n hwyluso amgylchedd dysgu mwy cadarnhaol i'r athro a'r myfyrwyr eraill.

"O ran yr ysgol, mae'n gobeithio y bydd ymuno â'r rhaglen yn helpu'r person ifanc yn yr ysgol hefyd, a ddylai, yn amlwg, gael effaith ar yr athro hefyd a, gobeithio, ei gwneud yn amgylchedd haws iddo ef hefyd. Felly, rwy'n gobeithio ei bod yn fuddiol i'r ysgol hefyd"

At hynny, mae ymyriad Parallel Lives yn helpu i roi digon o hyder i rieni reoli ymddygiad eu plentyn. Mae hefyd yn helpu i leihau'r ofn a'r pryder y gallai'r rhieni a'r gofawlyr fod wedi eu teimlo yn eu cartref eu hunain o ganlyniad i gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

"Rwy'n credu bod y rhieni'n dod yn llawer mwy hyderus ... Maen nhw bob amser yn dod [i'r sesiynau] yn teimlo'n bryderus iawn yn eu cartrefi eu hunain ac erbyn diwedd y rhaglen, maen nhw bob amser yn ymddangos yn llawer mwy hyderus, ac yn gwybod sut i reoli'r sefyllfa ... Ond rwy'n credu bod y ffordd mae'r rheini yn gallu rheoli'r sefyllfa ac yn gallu nodi pan mae'r person ifanc yn debygol o ymddwyn yn y ffordd honno yn gwneud pethau'n llawer haws"

Mae ymyriad Parallel Lives yn defnyddio nifer o ddulliau i werthuso cynnydd a chanlyniadau. Mae Parallel Lives yn gweithio gyda'r rhieni a'r bobl ifanc i greu Olwyn Bywyd; adnodd hunanasesu sy'n rhoi darlun gweledol o'r agweddau amrywiol ar fywyd person, fel yr "hunan", y "teulu", "iechyd", a phriodoleddau eraill. Caiff yr olwyn a grëwyd gyda Parallel Lives ei llenwi yn ystod dwy sesiwn gyntaf yr ymyriad saith wythnos, ac ailedrychir arni yn ystod y sesiwn olaf er mwyn nodi a oes newidiadau wedi'u gwneud a'i defnyddio i lunio cynllun personol i'r teulu ar gyfer y dyfodol. Ystyrir bod hyn yn arwydd allweddol o effeithiolrwydd yr ymyriad. At hynny, mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn proses fyfyrto drwy lenwi ffurflen werthuso lle maent yn mynegi eu teimladau cyn ac ar ôl dechrau'r gweithdy undydd. Mae'r broses hunanfyfyrto hon yn eu galluogi i ystyried a gwerthfawrogi'r newidiadau y maent wedi'u gwneud ac mae'n cynnig dull strwythuredig iddynt gasglu adborth ac asesu effaith y rhaglen. Er nad yw wedi'i rhoi ar waith ar gyfer y ddau fath arall o sesiynau eto (sy'n casglu adborth drwy ffurflenni gwerthuso gwahanol), mae'n adnodd gwerthfawr i fesur effeithiolrwydd yr ymyriad. Caiff astudiaethau achos hefyd eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol i dangos gwaith diweddar gyda theuluoedd.

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Y prif argymhelliad ar gyfer gwella effeithiolrwydd ymyriad Parallel Lives yw y dylid meithrin cydberthnasau agosach ag ysgolion a sicrhau mwy o gymorth ganddynt. Er bod rhai o'r bobl ifanc yn ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol yn yr ysgol o gymharu â'r cartref, mae achosion eraill lle mae'r plant yn ymddwyn yn dreisgar yn yr ysgol, a lle mae'r ymddygiad hwn yn gwaethygu pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae rhieni wedi cyfeirio at heriau cael cymorth digonol gan ysgolion. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gyswllt sydd rhwng ysgolion a Parallell Lives, oni bai bod problemau amlwg. Gallai gwella cyfathrebu a chydweithio rhwng y rhaglen ymyrryd ac ysgolion fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Byddai hyn yn cynnwys datblygu dull rhagweithiol o nodi problemau posibl yn yr ysgol a mynd i'r afael â nhw cyn iddyn nhw droi'n heriau yn y cartref. Drwy greu rhwydwaith mwy cefnogol sy'n cynnwys ysgolion, byddai'r ymyriad yn gallu helpu'r teuluoedd i ddelio â phroblemau a'u datrys yn fwy effeithiol. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod Parallel Lives yn gweithio i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth yn y dyfodol.

“Mae rhieni weithiau wedi dweud nad yw'r ysgolion wedi gallu eu cefnogi digon ac mai dyna'r rheswm pam mae angen ein cymorth ni arnyn nhw, am fod sefyllfaoedd yn yr ysgol wedi gwaethygu ac wedi trosglwyddo i'r cartref”

Enghraifft astudiaeth achos

Er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei rhannu, mae enw'r person ifanc ac enw'r fam yn yr astudiaeth hon wedi'u newid. Byddwn yn defnyddio'r enw Bert i gyfeirio at y person ifanc a'r enw Sue i gyfeirio at y fam. Hunanatgyfeiriad oedd hwn gan Sue (y rhiant) ar gyfer ei mab 11 oed, Bert. Roedd y person ifanc yn cael pyliau blin ac ymosodol yn y cartref a thuag at ei fam.

Roedd Bert yn dueddol o gael pyliau ymosodol lle byddai'n taflu neu'n bwrw gwrthrychau yn y cartref ac yn defnyddio iaith ymosodol tuag at ei riant. Nodwyd bod Bert yn ei chael hi'n anodd rheoli ei emosiynau negyddol a bod ganddo ddiffyg hunan-barch. Roedd Sue yn rhiant unigol (nid oedd y rhiant arall yn byw gerllaw) yn gweithio'n llawnamser ac yn cwblhau gradd meist. Drwy'r asesiadau cychwynnol, gwnaethom nodi bod angen i Sue ddeall sut i hunanreoli ei hemosiynau yn well a bod angen cymorth ar Bert i adnabod emosiynau a chyfathrebu â'i rieni.

Pan ddechreuodd Bert y rhaglen yn wreiddiol, roedd yn dawel ac yn swil. Cyflwynwyd teganau ffidlan ac eitemau lliwio/tynnu llun er mwyn ei helpu i ymlacio. Wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, dechreuodd ddod o'i gragen, gofyn cwestiynau, ystyried canlyniadau a dangos empathi. Roedd Sue yn dechrau deall sut roedd ei mab yn teimlo, ac yn dechrau deall ei anghenion emosiynol yn well a sut y gallai ei gefnogi. Cafodd hyn ei rannu â'r rhiant arall hefyd er mwyn iddo allu cefnogi ei blentyn pan fyddai angen. Wrth i ni agosáu at y sesiynau olaf ac ar ôl cwblhau'r sesiwn dal i fyny olaf, nodwyd bod Bert yn cael llai o byliau ymosodol oherwydd y wybodaeth a'r strategaethau roedd y teulu wedi eu dysgu yn ystod rhaglen Parallel Lives. Roedd Bert yn deall ei emosiynau yn well ac roedd ganddo strategaethau i'w rheoli. Roedd Sue hefyd wedi meithrin dealltwriaeth well o deimladau ei mab ac wedi dysgu sut i'w gefnogi.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Hydref – Rhagfyr 2023)

Yn cyflwyno Positive Masculinity

Mae Positive Masculinity yn brosiect cymharol newydd a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2023 mewn ymateb i ddiwylliant a meddylfryd gwrywdod gwenwynig. Mae credoau y dylai dynion a bechgyn ymddwyn mewn ffordd benodol wedi lleddu'n gyflym drwy gymdeithas ers pandemig COVID-19, yn enwedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ers y pandemig, bu cynnydd yn nifer y dynion ifanc â phroblemau iechyd meddwl a diffyg moesoldeb ymhlith rhai ohonyn nhw. Felly, canfu MAC ei fod yn cael atgyfeiriadau ar gyfer dynion nad oeddent yn gwybod pwy oeddent oherwydd ideolegau croes mewn cymdeithas o ran yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddyn. Roedd yr iaith a'r trafodaethau a oedd yn dangos casineb at ferched ymhlith rhai pobl ifanc yn golygu bod angen datblygu proses i fynd i'r afael â hyn a helpu dynion ifanc i ddeall gwrywdod a sut beth yw bod yn ddyn. Felly, rhoddwyd menter Positive Masculinity ar waith i ehangu a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chasineb at ferched a'r 'manosffer', er mwyn diogelu pobl ifanc a'u hatal rhag datblygu ideoleg gwrywdod eithafol radical (MAC, 2022).⁹ Mae'r rhaglen yn rhoi arweiniad i ddynion ifanc o ran eu hunaniaeth ac yn eu galluogi i archwilio eu teimladau mewn amgylchedd diogel, gyda'r nod cyffredinol o annog a chefnogi pobl ifanc i fabwysiadu gwerthoedd ac agweddau rhag-gymdeithasol tuag at bobl, ni waeth beth fo'u rhywedd (MAC, 2022). Nod arall y fenter yw grymuso oedolion a phobl ifanc i adnabod nodweddion gwrywdod gwenwynig ymhlith pobl ifanc ac adfer y llwyfannau sy'n rhannu'r negeseuon hyn drwy rymuso pobl ifanc i gydnabod eu tueddiadau a siarad yn agored pan fyddant yn teimlo'n fregus (MAC, 2022). Mae Positive Masculinity yn seiliedig ar werthoedd gwaith ieuentid a diogelu cyd-destunol.

"Y cod cymdeithasol arferol o ran yr hyn sy'n briodol ac yn amhriodol. Mae llawer o bobl ifanc wedi colli hwnnw"

"Mae'n ymwneud ag ideolegau dynion, ond mae hefyd yn fwy na hynny gan fod hynny'n gul iawn. Mae hefyd yn ymwneud ag iechyd meddwl. Mae'n ymwneud â gwrywdod. Mae'n ymwneud â rhyngweithio â chyfoedion, gyda phobl o'r rhyw arall. Mae'n ymwneud â diwylliant, rhywiaeth, hunaniaeth, teuluoedd, patriarchaeth, a modelau rôl cadarnhaol"

Gweithredu

Ar ôl nodi cynnydd mewn diwylliant gwrywdod gwenwynig mewn cymdeithas, ochr yn ochr â chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau lle roedd gan ddynion ifanc ddiffyg hunaniaeth, cynigiodd MAC raglen i herio'r ideolegau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect wedi'i ariannu am 12 mis gan MAC a'r Uned Atal Trais, sy'n cynnwys gwerthusiad gan Brifysgol Abertawe. Cynhaliodd PlanUK raglen beilot dau fis, ac yn dilyn hyn, dyrannwyd cyllid ychwanegol i wneud gwaith grŵp ar wahân gyda PlanUK er mwyn canfod pa rai o'r pynciau a'r themâu a gyflwynwyd fel rhan o'r rhaglen a weithiodd yn dda.

Mae'r broses o ddatblygu'r rhaglen yn cynnwys llwybrau atgyfeirio mewn ysgolion, gwasanaethau plant, sefydliadau ieuentid ac atgyfeiriadau teuluol. Fel rhan o'r broses o'i rhoi ar waith, mae Positive Masculinity wedi cynnal nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, mae Positive Masculinity wedi arwain cyfarfodydd gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuentid er mwyn rhoi gwybodaeth i staff mewn mwy nag ugain o ysgolion yng Nghaerdydd, Barnardo's, y Tîm Help Cynnar, Cymru Ddiogelach, Gwasanaeth Ieuentid Caerdydd, Rhwydwaith Hyrwyddwyr Atal, United 2 Change, Safe Group Cardiff, a CMET Abertawe.

⁹ MAC. (2022). *Media Academy Cymru Talent Pack: Positive Masculinity Initiative Worker*. Media Academy Cymru.

Mae MAC yn mynd i gyfarfodydd â'r Uned Atal Trais bob chwarter. Teimlwyd bod ganddo gydberthynas 'ardderchog' â'r Uned Atal Trais. Dywedwyd bod cydberthynas MAC â'r Uned Atal Trais yn symbiotig, o ran y ffaith bod y naill a'r llall yn elwa ar ei gilydd drwy ddatblygu rhaglenni a'u rhoi ar waith a chreu canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

"Mae'r Uned yn dda iawn i ni. Ond yr hyn rydym yn dda iawn am ei wneud yw datblygu rhaglenni a thrawsnewid pethau'n gyflym gyda chanlyniadau cadarnhaol"

Cyflawni

Mae Positive Masculinity wedi'i thargedu at fechgyn 10-17 oed. Er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch, caiff y rhaglen ei darparu mewn lleoliad cymunedol, fel ysgolion a chanolfannau ieuencid, naill ai ar ffurf sesiynau un i un neu sesiynau grŵp, yn dibynnu ar anghenion y person ifanc. Mae Positive Masculinity yn seiliedig ar gyfranogiad gwirfoddol a chaiff ei darparu dros chwe sesiwn, gan ymdrin â themâu hunaniaeth, rhywiaeth, casineb at ferched, teulu a diwylliant, patriarchyaeth, modelau rôl, profiadau yn yr ysgol ac iechyd meddwl. Mae'r sesiynau'n cynnwys cyflwyniad i'r gwasanaeth ac asesu, hunaniaeth gwrywaidd, cydberthnasau ac emosiynau, a chydberthnasau – cydberthnasau yn yr ardegeau, cryfderau, ymddiriedaeth, cyfathrebu, cyfeillgarwch, cefnogaeth, ac annibyniaeth. Mewn achosion lle na fydd y person ifanc yn dangos cynnydd (er enghraifft ar ffurflenni adborth), bydd Positive Masculinity yn parhau i weithio gyda'r person ifanc i fynd i'r afael ag unrhyw agweddau a chanfyddiadau negyddol. Cydnabuwyd bod meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth mewn man diogel yn bwysig i lwyddiant y rhaglen ac felly, yn ystod y sesiynau, bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, yn unigol ac fel rhan o grŵp. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys bowlio, dringo, mynd am goffi, a mynd am dro.

"Mae'n ymwneud â meithrin cydberthnasau ymhlith aelodau'r grŵp er mwyn cael y gorau ohonynt a'u helpu i deimlo'n ddiogel"

Rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2023, cafodd Positive Masculinity 61 o atgyfeiriadau gan sefydliadau addysg, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, gwasanaethau ieuencid, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, grŵp cymunedol United 2 Change, gwasanaethau plant, a Barnardo's. Atgyfeiriadau ar gyfer bechgyn 12-15 oed a wneir at y rhaglen yn bennaf. Ystyriwyd gwahanol esboniadau ar gyfer hyn, gan gynnwys effeithiau'r pandemig ar bobl ifanc, newidiadau mewn hormonau a'r glasoed, yr anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i'w lle yn y byd, a diffyg modelau rôl cadarnhaol. Credwyd bod yr holl ffactorau hyn wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl ifanc, a theimlwyd bod hyn yn dangos y broblem ymhlith pobl ifanc rhwng yr oedrannau hyn. At hynny, mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod cyfran uchel o'r plant a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth yn niwroamrywiol, a bod dau o bob tri wedi cael diagnosis o ADHD. Mae'r adroddiadau chwarterol yn dangos bod y themâu a godwyd gan bobl ifanc yn ystod y sesiynau cychwynnol yn cynnwys: alffa-ddynion ac ystrydebau, bechgyn yn tyfu'n ddynion da, cymdeithas a chydarddoldeb, cwestiynau am fynegi emosiwn fel cryfder neu wendid, modelau rôl, rhywedd, rhywioldeb a'r corff, rolau sy'n seiliedig ar rywedd mewn cymdeithas, a rhywedd yn y cartref a'r sector cyflogaeth.

"Ar bobl ifanc 12-15 oed yr effeithiodd Covid fwyaf, ac maen nhw'n delio â phethau penodol; y glasoed, dod o hyd i'ch lle yn y byd, dadlau â rhieni, diffyg modelau rôl cadarnhaol, ac mae hynny i gyd wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl dynion ifanc"

Rhwystrau

Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos mai nifer bach o atgyfeiriadau a wnaed at y prosiect rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 (chwarter cyntaf y prosiect). Teimlwyd bod hyn i'w briodoli i

anawsterau â chyllid a'r ffaith bod ysgolion ar gau dros wyliau'r haf. Er gwaethaf y dechrau araf, cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau gan ysgolion yn y chwarter dilynol pan ailagorodd ysgolion yn nhymor yr hydref. Er mwyn lliniaru hyn yn y dyfodol, mae Positive Masculinity yn parhau i rannu gwybodaeth a chyfathrebu ag amrywiaeth o asiantaethau er mwyn gwella dealltwriaeth o'r garfan darged, nodau'r prosiect, a gwybodaeth am sut i atgyfeirio. Er mwyn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau ymhellach, mae Positive Masculinity wedi ehangu cwmpas daearyddol y prosiect i gynnwys Merthyr Tudful ac Abertawe tra bo capasiti yn caniatáu, a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Effaith

Gan mai dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd y rhaglen ar waith, roedd yn anodd nodi canlyniadau ar y cam hwn. Fodd bynnag, awgrymwyd nifer o ganlyniadau disgwylidig. Cydnabuwyd mai dynion ifanc sy'n cael budd o'r rhaglen yn bennaf, ond hefyd eu teuluoedd, eu cyfoedion a'r gymdeithas ehangach. Nod y rhaglen yw helpu dynion ifanc i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol, meithrin cydberthnasau gwell, gwella eu sgiliau meddwl yn feirniadol, a meithrin ymdeimlad cynyddol o hunansicrwydd a sicrwydd ymhlith eraill. Roedd disgwyl y byddai'n cyflawni nifer o ganlyniadau proffesiynol hefyd, gan gynnwys dealltwriaeth gynyddol o'r heriau sy'n effeithio ar ddynion ifanc a dealltwriaeth well o ddulliau effeithiol o weithio gyda dynion ifanc sy'n cefnogi hunaniaeth gadarnhaol a chydberthnasau iach.

“Dynion ifanc, eu teuluoedd, eu cyfoedion a chymdeithas sy'n cael budd yn bennaf oherwydd mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â meddyliau a phrosesau negyddol dynion ifanc, hunanladdiad, neu'r holl bethau hynny sy'n effeithio ar bobl ifanc, a chymdeithas yn gyffredinol, ond rydym yn ceisio mynd i'r afael â hynny ac yn ceisio annog dynion ifanc i ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol”

Er nad oes unrhyw bobl ifanc wedi cwblhau'r ymyriad llawn eto er mwyn rhoi adborth ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, mae'r adborth ar sesiynau unigol wedi dangos newidiadau cadarnhaol mewn agweddau tuag at hunaniaeth a menywod, a sgiliau meddwl yn feirniadol.

“Bydd gennyf ddealltwriaeth well o wrywod cadarnhaol” (Adroddiad Chwarterol)

“Byddaf yn ddyn mwy parchus ac yn dangos fy emosiynau” (Adroddiad Chwarterol)

“Mae gwrywod gwenwynig yn niweidiol i fi fy hun ac i eraill” (Adroddiad Chwarterol)

“Gallaf ddefnyddio hyn i helpu cymdeithas i symud ymlaen drwy ei haddysgu am y cam nesaf” (Adroddiad Chwarterol)

“Mae gennyf ddealltwriaeth well o gydraddoldeb” (Adroddiad Chwarterol)

Mae data ansoddol cynnar a gasglwyd yn dangos bod dealltwriaeth pobl ifanc o wrywod cadarnhaol wedi cynyddu ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod 36% o'r bobl ifanc yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda neu uchel o wrywod cadarnhaol cyn ymgysylltu â Positive Masculinity (gan roi sgôr o 4 allan o 5 ar raddfa 5 pwynt Likert). Cynyddodd y ffigur hwn i 80% yn dilyn y sesiwn.

Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod Positive Masculinity wedi gweithio gydag un ysgol yng Nghaerdydd a ddywedodd *“Mae gennyf bryderon penodol – mae'r rhain yn ymwneud a meddylfryd gangiau y grŵp hwn a sylwadau cas a wnaed tuag at fenywod agored i niwed. Mae rhai pobl ifanc wedi cael eu targedu ac wedi cyflawni hunan-niwed, neu mae arnynt ormod o ofn i ddod i'r ysgol”*. Llwyddodd Positive Masculinity i ymgysylltu â'r grŵp ac, yn dilyn hyn, nododd yr ysgol, *“rydym wedi gweld llai o ddigwyddiadau ymddygiadol yn yr ysgol yn gyffredinol, ac mae'r bechgyn fel pe baent yn mwynhau'r sesiynau yn fawr” (Adroddiad Chwarterol)*.

Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn casglu data ar deimladau'r person ifanc ac yn mesur y newidiadau hyn drwy'r rhaglen. Defnyddir sêr canlyniadau hefyd i nodi newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau pobl ifanc. Yn ychwanegol at hyn, cesglir data sy'n dangos pwy sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, nifer y bobl sy'n cymryd rhan, ac o ble y daw atgyfeiriadau. Cydnabuwyd bod y data ar atgyfeiriadau yn dangos pa ysgolion sy'n pryderu fwyaf am y broblem (h.y. diogelu cyd-destunol daearyddol). At hynny, mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod yr adroddiad a luniwyd hyd yma yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r ymyriad a helpu i'w werthuso. Er enghraifft, esboniodd data adroddiadau chwarterol fod nifer o bobl ifanc wedi dweud, yn ystod un o'r sesiynau grŵp, yr hoffent ddysgu mwy am hunaniaeth LHDTC+. Trafodwyd y pwnc hwn wedyn mewn sesiwn ddilynol ac mae wedi cael ei ymgorffori yn fframwaith ymyriad Positive Masculinity.

Y camau nesaf

Gan fod yr ymyriad yn y camau datblygu o hyd, mae Positive Masculinity yn dysgu'n barhaus ac yn addasu'r gwasanaeth a gynigir fel y bo'n briodol. Mae'r canfyddiadau cynnar a'r adborth gan bobl ifanc wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r argymhellion a wnaed wedi'u hystyried ar y cyd er mwyn datblygu'r rhaglen. Yn ystod y camau nesaf, bydd Positive Masculinity yn ceisio ymgysylltu ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol (fel athrawon a gweithwyr cymdeithasol) er mwyn sicrhau bod eu hadborth yn llywio fframwaith yr ymyriad.

Enghraifft astudiaeth achos

Astudiaeth Achos (gwaith amlasiantaeth)

Bachgen 13 oed sy'n mynychu ysgol uwchradd yng Nghaerdydd. Cafwyd nifer o bryderon diogelu yn ymwneud â'r person ifanc. Felly, arweiniodd Media Academy Caerdydd sesiynau amlasiantaeth, gan gynnwys Gweithiwr Positive Masculinity, Gweithiwr Cymorth Mentora MAC, Swyddog Llesiant Ysgolion a rhieni'r person ifanc. Isod rhoddir trosolwg o gynnwys y cyfarfod a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Pryderon – Pryderon am iechyd a llesiant y person ifanc gan ei fod wedi dweud ei fod yn ystyried lladd ei hun.

Ffiniau – Roedd y person ifanc yn ei chael hi'n anodd cadw at ffiniau yng nghartrefi'r ddau riant.

Dianc o'r cartref – Nid oedd y person ifanc yn dychwelyd adref o'r ysgol yn rheolaidd a/neu roedd yn rhedeg i ffwrdd o gartref.

Perthynas â phartner wedi chwalu – Roedd perthynas gyntaf y person ifanc â pherson ifanc yn yr ysgol wedi dod i ben. Roedd y person ifanc yn fregus yn emosiynol am fod diwedd y berthynas ramantus wedi effeithio ar ei lesiant.

Camau gweithredu – Yr ysgol i ganolbwyntio ar waith yn seiliedig ar gryfderau a systemau gwobrwyo.

Gwaith MAC Positive Masculinity – Parhau â sesiynau gyda'r person ifanc yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar gydberthnasau a gwrywdod cadarnhaol.

Cymorth mentora MAC – Parhau â sesiynau y tu allan i'r ysgol gan ganolbwyntio ar weithgareddau llawn hwyl.

Bylchau o ran darparu gwasanaethau – Ni nodwyd unrhyw fylchau. Mae'r prosiect hwn yn dal i fod yn y cam datblygu.

(Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Gorffennaf – Medi 2023)

Trosolwg

Menter ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru a Media Academy Cymru (MAC) yw Cyfleoedd Dysgu Digymell. Darperir y gwasanaeth yn nalfeydd yr heddlu ledled De Cymru ac mae'n cyd-fynd â'r strategaeth Plismona sy'n Ganolbwyntio ar y Plentyn a System Cyfiawnder Troseddol sy'n ystyriol o drawma. Cyflwynwyd Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfa Caerdydd yn 2021 ac fel rhan o'r ymyriad, mae gweithwyr achos MAC yn cynnal Cyfweiliadau Cymell gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa sy'n dewis defnyddio'r gwasanaeth gwirfoddol. Defnyddir y cyfweiliad cymell i asesu anghenion y plant a'r bobl ifanc, ystyried unrhyw nodau ac uchelgeisiau a allai fod gan y person ifanc, a cheisio lleihau trawma yn ystod cyfle addysgu hanfodol pan fydd plentyn yn y ddalfa. Mae cymorth parhaus yn cael ei ddarparu, gan gynnig cyfleoedd, gweithgareddau rhag-gymdeithasol, a chynghor ar faterion amrywiol fel gyrfaedd a thai. Mae'r gwasanaeth ar gael i bob plentyn a pherson ifanc 10-17 oed yn y ddalfa, gan gynnwys y rheini sy'n mynd yno'n wirfoddol ar gyfer apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw, ac mae'n gweithredu ar sail wirfoddol am gyfnod o hyd at dri mis.

“Rydym yma er mwyn gwneud pethau'n haws i bobl ifanc ... Rydym wedi bod yma [yng Nghaerdydd] ers dwy flynedd erbyn hyn ...roedd pethau'n araf i ddechrau, ond rwy'n credu ein bod ni wedi datrys unrhyw fân broblemau a'n bod yn gwneud yn dda iawn”

Cyflawni

Bydd unrhyw berson ifanc sy'n cael ei gadw yn y ddalfa yn cael cynnig cyfweiliad cymell. Os bydd yn derbyn y cynnig hwnnw, bydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal gan ei weithiwr achos MAC a bydd yn cymryd rhwng 45 munud ac awr i'w gwblhau. Nod y cyfweiliadau hyn yw defnyddio amser y person ifanc yn fwy effeithiol pan fydd yn y ddalfa, drwy achub ar y cyfle i asesu ei anghenion a llunio cynllun gweithredu i bennu nodau ac amcanion ar gyfer y dyfodol nad ydynt yn gysylltiedig â'r drosedd y mae yn y ddalfa yn ei chylch. Fodd bynnag, defnyddir y cyfweiliad hefyd fel ffordd o alluogi'r gweithiwr achos a'r person ifanc i fynd at wraidd ei weithredoedd a'i annog i beidio ag ymddwyn mewn ffordd broblemus yn y dyfodol. At hynny, mae'r cyfweiliad yn ceisio lleihau trawma a rhwystrau i wasanaethau statudol allanol pan fydd y person ifanc yn gadael y ddalfa, sy'n ei annog i fanteisio ar wasanaethau, fel Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a Gwasanaethau Cymdeithasol, o'i wirfodd. Teimlai'r bobl ifanc ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth yn y ddalfa er mwyn sicrhau *“bod gennym rywun rydym yn ymddiried ynddo i siarad ag ef” (PI)*. Rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Ebrill 2023, cynigiwyd Cyfleoedd Dysgu Digymell i 263 o bobl yng Nghaerdydd. O blith y rheini y cynigiwyd yr ymyriad iddynt, derbyniodd 28.5% y cymorth, gwrthododd 68.1% y cymorth, gwnaeth y gweithiwr ieuencid gyswllt cychwynnol â 1.1%, ac ni chofnodwyd gwybodaeth ar gyfer 2.3%. O ran y plant/pobl ifanc a wrthododd gymorth y tu allan i'r ddalfa, cynigiwyd cymorth iddynt i leihau trawma yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa; o blith y 68.1% a wrthododd y cymorth hwnnw, cafodd 71% gymorth anffurfiol.

“Ystyried yr ymddygiad hwnnw a'r ffactorau ysgogi sydd wedi arwain at yr ymddygiad troseddol hwnnw, sef y rheswm pam y mae yn y ddalfa, a gweld a yw trafod hynny yn gwneud iddo sylweddoli nad yw'n lle da i fod, neu a yw'n codi pethau eraill ... sy'n cyfrannu ato, fel bywyd teuluol neu unrhyw beth sy'n digwydd yn ei fywyd sydd wedi achosi iddo fod yn y ddalfa”

Cynhelir cyfweiliadau cymell gyda'r person ifanc yn y celloedd. Esboniodd y rhanddeiliaid fod lleoliad ac arddull gyflwyno'r cyfweiliadau cymell yn cynnig amgylchedd cyfforddus a llai bygythiol lle mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus i siarad am ei weithredoedd â pherson anfeirniadol, ac roedd hyn i'w weld yn nata'r adroddiadau chwarterol hefyd. Credwyd bod hyn yn un o ffactorau hwyluso'r ymyriad gan ei

fod yn annog cyfathrebu agored a gonest. Roedd y bobl ifanc yn cytuno y dylid cynnal y cyfweliadau yng nghelloedd y ddalfa, gan esbonio ei bod yn *"braf sgwrsio yn y celloedd"* (PI) Mae adroddiadau chwarterol yn dangos bod pobl ifanc yn barod i ymgysylltu â gweithwyr ieuentid tra byddant yn y ddalfa. Gall gweithwyr ieuentid siarad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc am brosesau'r heddlu, a all helpu i leddfu unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac felly, leihau trawma.

"Rwy'n credu bod y cyfweliad cymell yn anfeirniadol ... rydym yn mynd yno ac yn gweld y plentyn am beth ydyw – plentyn – heb ystyried beth mae wedi'i wneud neu unrhyw beth felly. Mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr"

Fodd bynnag, nid yw'r ymyriad yn gorffen ar ddiwedd y cyfweliad cymell. Os bydd y person ifanc yn awyddus i gael cymorth parhaus gan MAC, ceir cyfleoedd am atgyfeiriadau pellach, er enghraifft ymweliad cymunedol. Er mai at unigolion ifanc yn y ddalfa y mae Cyfleoedd Dysgu Digymell wedi'i dargedu yn bennaf, gall pobl ifanc ddewis cael cyfweliad cymell o'u gwirfodd yn dilyn ymweliad cymunedol hefyd. Gwnaed y penderfyniad i gynnig y cyfleoedd hyn i gyfranogwyr gwirfoddol oherwydd nifer yr ymweliadau cymunedol a oedd yn cael eu cynnal. Drwy wneud hynny, gall y ddalfa drefnu i'r unigolion hyn gael y cyfweliad mewn gorsaf heddlu gyda'u cyfreithiwr ac oedolyn priodol yn bresennol. Er eu bod yn dal i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, nid ydynt yn cael eu cadw yn y ddalfa, ac maent yn rhydd i adael unrhyw bryd yn ystod y cyfweliad, yn wahanol i'r rheini sydd o dan amodau arestiad na allant adael eu cell.

Cynhelir cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb bob mis yn ogystal â sesiynau goruchwyllo un i un misol er mwyn cynnig cymorth priodol i'r staff sy'n darparu Cyfleoedd Dysgu Digymell.

Ymgyrch Erica – Pecyn Cymorth Niwroamrywiaeth

Drwy gynnal y cyfweliadau cymell, daeth yn amlwg bod nodweddiad bioamrywiaeth yn gyffredin ymhlith y bobl ifanc a oedd yn cael eu cyfweld yn y ddalfa. Felly, penderfynwyd y dylid defnyddio cyfweliadau cymell fel cyfle i weithwyr MAC sgrinio'r bobl ifanc am niwroamrywiaeth ochr yn ochr â'r Cyfleoedd Dysgu Digymell arferol gan ddefnyddio pecyn cymorth niwroamrywiaeth (Ymgyrch Erica). Mae hyn yn cydnabod bod niwroamrywiaeth ac anaf trawmatig i'r ymennydd yn chwarae rôl sylweddol mewn achosion o drais ymhlith plant a phobl ifanc, a phroblemau ymddygiadol eraill ac, felly, nod y pecyn cymorth hwn yw dilysu anawsterau pobl ifanc a chynnig cyfle i'w helpu i newid yr ymddygiadau a allai olygu y byddant yn dod rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Gall poblogaethau ag anhwylderau niwroddatblygiadol ei chael hi'n anodd ymdopi mewn cyfweliadau â'r heddlu, er enghraifft gallant ei chael hi'n anodd cyfathrebu a gwneud cyswllt llygad, a all gael ei gamddechongli gan swyddogion yr heddlu. Gall y camddechongli hwn olygu na chaiff anghenion yr unigolyn eu diwallu, a bod yr ymddygiad problemus yn parhau. Felly, datblygwyd adnodd sgrinio ar y cyd â "Do-It Profiler", ac mae bellach wedi'i ymgorffori'n llawn yn y cyfweliadau cymell. Nid yw'r adnodd sgrinio hwn (neu Ymgyrch Erika) yn rhoi diagnosis, ond mae'n creu adroddiad y gellir ei ddefnyddio i atgyfeirio'r person ifanc am asesiad swyddogol drwy ei ysgol neu feddyg. Nid diben yr adnodd sgrinio yw difeio'r person ifanc am ei weithredoedd, ond gall cael eglurhad ynghylch niwroamrywiaeth y person ifanc helpu gweithwyr MAC i deilwra'r cyfweliad cymell i gefnogi anghenion penodol y person ifanc a gellir dechrau nodi ffactorau ysgogi ymddygiad problemus ac unrhyw adnoddau y gellir eu defnyddio yn y dyfodol at ddibenion ataliol. Gall yr adroddiad hefyd alluogi rhieni i eirioli dros anghenion eu plentyn a'u helpu i ymgyrchu dros asesiad ffurfiol ar gyfer eu plentyn fel rhan o'r system ysgolion. Pwysleisiwyd bod yr adroddiadau hyn yn hanfodol i roi adborth i'r system ysgolion gan fod angen codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd gwahanol y gall niwroamrywiaeth nodweddu plant a phobl ifanc.

"Mae'r adnodd sgrinio yn gofyn cwestiynau penodol am eu dealltwriaeth o'r rhesymau pam maen nhw'n gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud, ond mae hefyd yn asesu a oes ganddyn nhw anawsterau darllen? A ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio?"

"Y person ifanc sy'n gyfrifol am ei ymddygiad troseddol, ond yr hyn rydym yn ei ddweud yw efallai nad oes ganddo reolaeth lawn dros yr hyn sy'n ysgogi ei ymddygiad troseddol ac nad yw'n deall beth sy'n ei achosi yn llawn. Felly, yr hyn ydym yn ceisio ei wneud yw rhoi'r adnoddau i newid yr ymddygiad, a rhoi'r arwyddion rhybudd i'w helpu i adnabod y ffactorau ysgogi, ond mater i'r person ifanc yw penderfynu a fydd yn parhau â'r ymddygiad troseddol hwnnw"

O ddechrau Ymgyrch Erika, sicrhawyd bod y gweithgor yn cynnwys rôl benodol ar gyfer arolygydd yr heddlu er mwyn sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid yn gynnar. Gwnaed hyn yn sgil y gwersi a ddysgwyd o ymyriadau blaenorol a gynhaliwyd yn nalfeydd yr heddlu, lle roedd diffyg cefnogaeth gan gydweithwyr yr heddlu. Teimlwyd ei bod yn hanfodol i sicrhau hirhoedledd yr adnodd niwroamrywiaeth a chynaliadwyedd cyffredinol ymyriadau yn nalfeydd yr heddlu. Roedd cynnwys rôl i asiantau yn sicrhau dealltwriaeth o'r ymyriad, gan bontio'r bwlch rhwng gweithwyr MAC a chydweithwyr yr heddlu a fyddai yn ei dro, o fudd i'r ymyriad.

"Mae'n helpu os oes cyswllt yn y ddalfa sydd wedi cytuno i fod yn gyfrifol amdano yn hytrach na bod rhywun yn cael y cyfrifoldeb hwnnw ac nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb ynddo"

Mae'r tîm wedi ehangu Ymgyrch Erika i dimau eraill wrth i ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth ymhlith pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol gynyddu. Mae hefyd wedi sicrhau bod yr adnodd sgrinio ar gael i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ei ddefnyddio os na fydd MAC neu swyddogion y ddalfa wedi nodi arwyddion niwroamrywiaeth pan oedd y person ifanc yn y ddalfa. Caiff swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a swyddogion plismona yn y gymdogaeth a allai fod wedi cael nifer o adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc penodol yn y gymuned hefyd wybod am y rhesymau pam y gall yr unigolion hyn fod yn ymddwyn yn y ffordd hon a rhoddir cyngor iddynt ar sut i gefnogi eu rhieni neu ofalwyr ac i rannu'r adnodd â nhw

"Rydym yn ceisio dweud wrth y swyddogion hyn fod hyn yn gyfle i ddechrau sgwrs. Felly, pan fyddwch yn mynd â nhw yn ôl at eu rhieni, gallwch ddweud, 'Oes rhywbeth arall ar droed? Oes rhywbeth arall y gallwn ni helpu gydag ef? A yw wedi cael asesiad, neu ydych chi'n meddwl bod gan niwroamrywiaeth ran i'w chwarae?' A'i rannu fel adnodd sgrinio y gallwch eistedd i lawr a'i drafod"

Rhwystrau

Trafodwyd nifer o rwystrau i'r ymyriad. Yn gyntaf, lleisiwyd pryderon ynglŷn â phrosesau dosbarthu a dealltwriaeth gweithwyr MAC, rhingylliaid y ddalfa a rhanddeiliaid eraill o gyfweliadau cymell. Roedd anghysondebau posibl wrth ddiffinio cyfweliadau cymell yn creu ansicrwydd ynghylch y gynrychiolaeth ohonynt yn y data a'r potensial am ddata anghywir. Nodwyd anghysondebau rhwng data gan yr heddlu ac ystadegau MAC, gan awgrymu bod yr hyn sy'n gyfystyr ag ymgysylltu â'r person ifanc o bosibl yn cael ei gamddechongli. At hynny, mae diffyg data ar weithgareddau ar ôl y cyfweliad cymell, fel ymweliadau â'r cartref, yn golygu ei bod yn bosibl nad yw maint gwirioneddol yr ymdrechion i ymgysylltu yn cael ei gofnodi, gan arwain at gynrychiolaeth anghyflawn o effaith yr ymyriad yn y data a gofnodwyd.

"Dydw i ddim yn hyderus bod y data yn gywir o ran faint o gyfweliadau cymell sy'n cael eu cynnal a'r hyn rydym yn ei ddosbarthu'n gyfweliad cymell? Ai'r ymyriad cyfan ydyw o'r"

dechrau i'r diwedd? Ai'r cynnig o gyfweiliad cymell ydyw? Ond wedyn maen nhw'n ei wrthod? Ai dim ond mynd i'r gell a siarad â'r person ifanc ydyw? Beth yn union sy'n cael ei ddosbarthu'n gyfweiliad cymell?

Roedd rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth partneriaid o ymyriad Cyfleoedd Dysgu Digymell, neu'r ffaith nad oedd yr ymyriad yn cael ei flaenoriaethu. Nodwyd bod rhwystrau o'r fath wedi golygu nad yw gweithwyr MAC bob amser yn cael gwybod am y bobl ifanc sy'n cyrraedd y ddalfa. Felly, roedd Cyfleoedd Dysgu Digymell yn digwydd y tu allan i'r ddalfa, ac mewn rhai achosion, dim ond ar ôl i'r person ifanc adael y ddalfa yr oedd gweithwyr MAC yn dod i wybod ei fod wedi bod yno ac yn barod i gael ei gyfweild.

Er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau cyfathrebu, cyflwynodd Cyfleoedd Dysgu Digymell system post llais rithwir (FlexTel), a aeth yn fyw ar 1 Gorffennaf 2022. Mae'r system hon yn caniatáu mynediad i nifer o bartion, er mwyn helpu i rannu gwybodaeth ddigonol â rhanddeiliaid am yr ymyriad mewn un lle. Gwnaed gwaith hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymyriad yn fewnol ac yn allanol, er mwyn sicrhau na fyddai anawsterau cyfathrebu pellach yn parhau. Er gwaethaf hyn, parhaodd gweithwyr ieuentid i wynebu oedi cyn cael gwybodaeth am bobl ifanc drwy FlexTel, roedd rhai atgyfeiriadau yn anghyflawn, heb unrhyw fanylion cyswllt, ac ni chafodd rhai pobl ifanc eu hatgyfeirio drwy system FlexTel o gwbl. Ar hyn o bryd, nid oes gan weithwyr MAC fynediad i Niche, sef llwyfan data yr heddlu sy'n storio gwybodaeth am bobl yn y ddalfa yn ddiogel.¹⁰ At hynny, bu'n rhaid i weithwyr MAC gysylltu â gweithwyr y ddalfa, nad ydynt bob amser ar gael, am wybodaeth. Gall yr oedi hwn cyn cael gwybodaeth greu nifer o broblemau, gall olygu bod llai o bobl ifanc yn cael ymyriad amserol a gall olygu bod gweithwyr MAC yn colli anghenion penodol a'r addasiadau sydd eu hangen ar berson ifanc yn anfwriadol. Gall peidio â chael y manylion cefndir hanfodol a chynnal ymweliad cartref yn ddall o ganlyniad i hynny, hefyd beri risg i weithwyr MAC.

“Roedd un digwyddiad lle roeddwn wedi mynd i weld person ifanc ac wedi trefnu ymweliad â'i gartref, ond allwn i ddim cael gafael ar rai o'r gweithwyr proffesiynol dan sylw. Felly, dim ond yn ddiweddarach y cefais wybod bod llawer o farcwyr ar y cyfeiriad am drais a phethau eraill y dylwn fod wedi bod yn ymwobodol ohonynt nhw cyn mynd”

Mae cael mynediad i Niche neu gael ffordd arall o gael gafael ar wybodaeth am bobl ifanc agored i niwed yn hanfodol er mwyn gwella diogelwch a llesiant gweithwyr MAC a'r bobl ifanc. Mae prosesau rhannu gwybodaeth effeithiol yn sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion person ifanc, ac yn lleihau'r risg y caiff manylion hanfodol eu colli yn ystod ymweliadau â chartrefi. Mae sefydlu ffordd ddibynadwy o gael a rhannu gwybodaeth hanfodol yn hollbwysig er mwyn datblygu dull cwbl gydweithredol ac sy'n seiliedig ar wybodaeth o ddiogelu pobl ifanc agored i niwed.

Effaith

Nododd y rhanddeiliaid mai'r effaith ar y bobl ifanc eu hunain oedd canlyniadau allweddol yr ymyriad hwn yn bennaf. Esboniodd y mwyafrif o'r bobl ifanc eu bod wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'u gweithiwr ieuentid. Esboniodd un person ifanc *“Byddwn wedi hoffi gweld y gweithiwr ieuentid mwy” (PI)*, sy'n destament i'r cydberthnasau a feithrinwyd. Teimlai'r bobl ifanc fod eu gweithiwr ieuentid MAC wedi rhoi cymorth na fyddai wedi bod ar gael fel arall. Esboniodd un person ifanc *“gweithiodd gyda fi pan doedd neb arall yn fodlon gwneud” (PI)*. Yn fwy penodol, esboniodd y bobl ifanc fod gweithio gyda'u gweithiwr ieuentid MAC wedi rhoi sicrwydd iddynt ac

¹⁰ Mae Heddlu De Cymru yn rhan o Gydweithrediad Niche De-ddwyrain Cymru (SEWNIC) Ffynhonnell: <https://nicherms.com/who-we-serve/>

wedi gwneud iddynt *“deimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac yn fwy hyderus ynof fi fy hun”* (PI). Yn achos un person ifanc, roedd y cymorth a'r hyder hwn wedi ei alluogi i ddychwelyd at addysg.

“Does dim llawer o blant yn cael y gefnogaeth honno gartref neu gan eu ffrindiau” (PI)

“Gwnaeth [y gweithiwr ieuencid] fy helpu i fynd yn ôl i'r coleg. Gan fy mod wedi colli cymaint roedd yn rhaid i mi ailsefyll y flwyddyn” (PI)

Yn ôl y rhanddeiliaid, mae menter Cyfleoedd Dysgu Digymell wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau trais drwy helpu pobl ifanc i ddechrau mynd i'r afael ag achosion ymddygiadau (gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, niwroamrywiaeth, ac ati) er mwyn atal trais yn y dyfodol. Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod pobl sy'n cwblhau'r cynllun gweithredu yn gallu cydnabod eu cryfderau, eu sgiliau a'u doniau eu hunain, ac yn credu'n gryfach fod newidiadau mewn bywyd yn bosibl.

“Rwy'n credu bod yr ymyriad yn cael effaith enfawr ar atal trais ... rwy'n credu ein bod ar flaen y gad [o ran atal trais]”

Nod yr ymyriad yw bod yn ystyriol o drawma, rhoi mwy o lais i'r person ifanc a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â bod yn y ddalfa. Dywedodd un person ifanc fod gweithio gyda'i weithiwr ieuencid wedi gwneud iddo deimlo *“bod rhywun yn gwrando arna i”* (PI). Credwyd bod meithrin cysylltiad gweithiwr ieuencid MAC yn gyfle i feithrin cysylltiad ag unigolion ac asiantaethau eraill er mwyn rhoi'r cyfle i'r person ifanc gael cymorth parhaus a allai ei annog i wneud newidiadau hirdymor.

Mae data adroddiadau chwarterol yn dangos bod yr ymyriad hefyd yn ffordd o gynnwys y person ifanc yn llawn yn y broses o gael ei arestio ac yn ffordd o roi gwybod iddo am y gweithdrefnau a'r rheolau, a'i helpu i brosesu ei brofiad yn well, a chydabu'r rhanddeiliaid hyn. Esboniodd un person ifanc fod hyn yn bwysig gan nad oedd ganddo *“neb a oedd gwybod beth oedd yn digwydd”* (PI) cyn ymgysylltu â'i weithiwr ieuencid. At hynny, ystyriwyd bod gan rieni a gofawyr ddealltwriaeth well o brosesau'r heddlu, yn enwedig o ran amodau mechnïaeth a rhyddhau dan ymchwiliad pellach, y cydnabuwyd eu bod yn brosesau cymhleth a rhagweithiol. Teimlwyd bod gan rieni a gofawyr hefyd ddealltwriaeth well o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael gan eu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid lleol, a all eu helpu i ymgysylltu'n wirfoddol a gwasanaethau a gynigir a gwella cydymffurfiaeth ag unrhyw ddedfryd a bennwyd gan lys/Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid. Teimlwyd hefyd fod yr ymyriad yn lleddfu pryderon rhieni a gofawyr. Cydnabu un person fod y sefyllfa wedi achosi cryn straen i'w mam. Bu modd i'w weithiwr ieuencid MAC roi cymorth i fam y person ifanc i esbonio'r sefyllfa a lleddfu unrhyw bryderon.

“Rwy'n gallu eistedd i lawr a mynd drwy bethau, esbonio'r broses, oherwydd dyw llawer o blant ddim yn gyfarwydd â'r broses, beth sy'n digwydd, a rhoi rhagor o wybodaeth iddo”

“Rwy'n teimlo'n fwy parod ac yn gwybod nawr beth i'w ddisgwyl pan fydda i'n mynd i fy apwyntiad yn swyddfa'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yr wythnos nesaf” (Rhiant – Adroddiad Chwarterol)

“Rwy'n teimlo rhyddhad oherwydd y cymorth rydych wedi ei roi i mi yn y ddalfa” (Rhiant – Adroddiad Chwarterol)

Cynaliadwyedd ac argymhellion

Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion parhaus o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, awgrymir y dylid creu rôl yn y ddalfa, a fyddai'n gyfrifol am rannu gwybodaeth berthnasol â gweithwyr MAC cyn iddynt gynnal cyfweiliadau cymell. Byddai'r rôl hon yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn

cael ei rhannu a bod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r person ifanc a'i weithiwr achos MAC.

At hynny, cydnabu'r rhanddeiliaid efallai nad y dull traddodiadol o roi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau yn ystod y broses gofrestru yn y ddalfa yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â nhw erbyn hyn. Felly, mae awydd i weld camau pellach yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod cyfweiliadau cymell yn hygyrch i anghenion pobl ifanc. Yn ôl un rhanddeiliad, roedd yr uned cyfiawnder troseddol wedi cyflwyno fersiwn gartŵn o'r hawliau a'r hawliadau i'w dangos i bobl ifanc, felly, cam nesaf posibl tuag at gyfweiliadau cymell hygyrch fyddai cyflwyno rhywbeth gweledol tebyg i weithwyr MAC ei ddangos i'r person ifanc cyn ei gyfweiliad.

“Pe bai gennym rywbeth mewn fformat hygyrch sy'n canolbwyntio ar y person ifanc, rwy'n credu mai dyna fyddai'r cam nesaf i ni tuag at arfer gorau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn a chynnwys y person ifanc yn y broses. Mae'n fwy na rhywun presennol sy'n cael ei gyfweled. Mae'n broses ac mae'n bwysig ei fod yn deall beth sy'n digwydd”

Tynnodd yr holiaduron sylw at yr angen am fwy o gymorth yn yr ysgol i bobl sydd wedi cael eu harestio. Nododd un person ifanc ei fod am i *“rywun yn y coleg fy nghefnogi. Doedd neb am wybod, gwnaethon nhw olchi eu dwylo nes bod y cyfan drosodd” (PI)*. Gall rhoi cymorth i bobl ifanc yn yr ysgol helpu'r bobl ifanc hyn i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth, eu helpu i ymdopi â'u sefyllfa yn well, a chefnogi cyfranogiad parhaus yn yr ysgol.

Enghraifft astudiaeth achos

Cafodd XX, 16 oed, ei arestio am ddwyn o'r ysgol y mae'n ei mynychu. Mae'n byw gartref gyda rhiant unigol ac mae wedi cael diagnosis o ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd). Cafodd XX ei arestio gartref ac aethpwyd ag ef i'r ddalfa lle cydweithredodd yn llawn â'r swyddogion yn ystod eu hymchwiliad. Rhoddwyd gwybod i Cyfleoedd Dysgu Digymell drwy system FlexTel ei fod yn awyddus i gael cymorth.

Ffoniodd mam XX yn ôl. Trefnwyd i'r cyfarfod cyswllt cychwynnol gael ei gynnal yn y cyfeiriad cartref. Siaradwyd ag ef yn helaeth am ganlyniadau ei weithredoedd a rhoddwyd llawer o enghreifftiau iddo er mwyn sicrhau ei fod yn gallu prosesu'r wybodaeth. Mae gan XX ADHD ac mae'n cyfaddef nad yw bob amser yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hir. Cwblhawyd y cyfweiliad cymell. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei gwblhau yn ystod yr ymweliad nesaf. Dywedodd XX fod ganddo ddiddordeb mewn bocsio, ond nad oedd ei fam yn hoffi'r syniad hwnnw ac y byddai'n well ganddi iddo barhau â Jujitsu. Dywedais y byddwn yn ymchwilio i weithgareddau gan y byddai hyn yn ei helpu i ganolbwyntio. Cafwyd galwad ffôn wrth fam XX yn dweud ei fod yn cael problemau yn y coleg a'i fod wedi cael ei roi mewn grŵp gyda phobl eraill yr oedd mewn trafferth gyda nhw a'i fod bellach yn gwrthod mynd gan ei fod wedi diflasu. Mae'r fam wedi siarad â'r tiwtor yn y coleg, sydd wedi trefnu cwrdd â'r person ifanc i'w gadw'n ddiogel.

Uned Atal Trais Cymru, Siambrau'r Farchnad, 2-5
Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920 338450



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit